BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach

CYDWEITHREDIAD CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach

Mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn ein Cymunedau

2018-2022

Rhagair

Mae unrhyw fath o drais a chamdriniaeth yn annerbyniol, ac mae unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yn haeddu ymateb effeithiol ac amserol gan yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydweithio mewn ffordd gyson a chydlynol er mwyn gwella canlyniadau i unigolion a'u teuluoedd sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Mae'r Ddeddf yn ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol a gwella llesiant oedolion a phlant sydd angen gofal a chymorth, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am ba gamau a gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn gwella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae cydweithredu, gweithgaredd ataliol, cyfranogiad unigolion a gwelliannau hirdymor fesul cam mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir wedi eu gwau i'r cyd-destun deddfwriaethol drwyddo draw.

Hon yw cyd-strategaeth gyntaf Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd yn unol â'r Ddeddf, ac mae'n amlinellu sut fydd y rhanbarth yn cefnogi unrhyw un sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod, yn sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol, yn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu, cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater a sut i gael mynediad i gymorth a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol.

Rydym eisiau sicrhau bod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael eu cydnabod fel "busnes i bawb" ac mae'n thema drawsffiniol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob maes polisi cyhoeddus fynd i'r afael â hi a'i siapio, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r rhai yr effeithir arnynt.

Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu tuag at Strategaeth Genedlaethol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod 2016-2021 [1]ac mae Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi mabwysiadu amcanion y strategaeth genedlaethol fel Blaenoriaethau Strategol trosfwaol. Mae'r strategaeth hon yn amcanu at ddarparu'r arweiniad a'r cyfeiriad fydd yn hyrwyddo cysondeb ac

[1] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf

arferion gorau mewn perthynas â’r ffordd y mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael eu blaenoriaethu a’u taclo ledled y rhanbarth.

Nid yw pobl yn dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod mewn gwactod, ac ni all gwasanaethau na’r gymdeithas ehangach fynd i'r afael â materion o’r fath ar eu pennau eu hunain. Gyda ffocws cryf ar fecanweithiau ataliol, gwarchodol a chefnogol, mae’n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth gyda goroeswyr, rhanddeiliaid a chymunedau er mwyn sicrhau bod y strategaeth ranbarthol hon yn cael ei chyflawni mewn modd ystyrlon.

Ein cydweledigaeth yw y bydd unrhyw sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod, eu plant, eu teuluoedd ehangach a'u cymunedau yn gwybod sut mae cael yr help sydd ei angen arnynt ac o ble, darparu’r help hwnnw mewn modd cyson a chydlynol, a gweithio tuag at greu cymdeithas ble na oddefir unrhyw fath o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol neu Drais yn erbyn Menywod.

Mae angen arweiniad ac atebolrwydd cadarn gan bob un ohonom er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon yn cael eu troi’n weithredoedd all wneud gwir wahaniaeth i lesiant a diogelwch pobl sy’n byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, nawr ac yn y dyfodol.

Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

CYNNWYS

		Tudalen
Adran 1 -	**Cyffredinedd a Maint y Broblem yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru**	**9**
Adran 2 -	**Cyd-destun Polisi a Deddfwriaethol**	**13**
Adran 3 -	**Egwyddorion Allweddol**	**20**
Adran 4 -	**Ymgysylltu ac Ymgynghori**	**22**
Adran 5 -	**Goroeswyr - Yr Arbenigwyr**	**24**
Adran 6 -	**Asesiad o Anghenion**	**30**
Adran 7 -	**Adnoddau i fynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod**	**31**
Adran 8 -	**Comisiynu i fodloni anghenion**	**37**
Adran 9 -	**Ymatebion presennol i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod**	**41**
Adran 10 –	**Ymatebion i oroeswyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod**	**51**
Adran 11 -	**Llywodraethiant ac Arweinyddiaeth**	**57**
Adran 12 -	**Sut y byddwn yn mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod: Ein Blaenoriaethau Strategol**	**59**
Adran 13 -	**Sut y byddwn ni'n monitro ein cynnydd: Ein Cynllun Cyflawni Strategol**	**87**

Datganiad o Fwriad

Ein gweledigaeth yw i bob unigolyn fyw eu bywydau heb drais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio a bod eu hawliau yn cael eu gwarchod.

Mae'r strategaeth hon yn esbonio'r ymagwedd ranbarthol integredig a fydd yn gwireddu cydweledigaeth er mwyn rhoi terfyn ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gwella iechyd a llesiant unigolion a theuluoedd y rhai yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth a sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni camdriniaeth o'r fath yn atebol am hynny.

Mae'n amcanu at ddarparu fframwaith a fydd yn gwella'r ffordd o gynllunio, cydlynu ymatebion a chydweithredu, a hefyd yn cefnogi integreiddio a thrawsnewid y gwasanaethau a ddarperir; gan alluogi newid sylweddol o ran gweithredu er mwyn cyflawni gostyngiad cynaliadwy o ran trais a chamdriniaeth a gwella canlyniadau i bob unigolyn a theulu yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac atal camdriniaeth o'r fath rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae'n amcanu at adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus sy'n bodoli a chyfleoedd i gydweithredu yn y rhanbarth, ac i gynyddu mwy ar ymwybyddiaeth gyhoeddus a chynorthwyo cymunedau lleol, unigolion, aelodau teulu ac asiantaethau i ddarparu ymateb cydnerth i atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Ein nod yw y bydd y strategaeth hon yn tanategu, yn dylanwadu ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau polisi rhanbarthol allweddol. Yn unol â hynny, mae angen i Grŵp Strategol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael llinellau riportio ffurfiol er mwyn dangos pa rôl sydd gan y strategaeth hon o ran cyfrannu at nifer o flaenoriaethau rhanbarthol allweddol mewn perthynas â'r:

- Pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gweithrediaeth Ddiogelwch Ranbarthol
- Dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Byrddau Gweithredol Dau Fwrdd Iechyd
- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl
- Bwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig Rhanbarthol
- Dau Fwrdd Cynllunio Ardal (Camddefnyddio Sylweddau)
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys

Mae'r Strategaeth yn amcanu at ymgorffori Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel "busnes i bawb"; thema drawsffiniol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob maes polisi cyhoeddus fynd i'r afael â hi a'i siapio, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i'r rhai yr effeithir arnynt. I fod yn 'fusnes i bawb', bydd sefydliadau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol yn ystyried ac yn cynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod mewn dyraniadau cyllideb a strategaethau cyfredol a datblygol.

Trwy ddisgwyliadau a ddiffinnir yn glir a threfniadau adrodd cytunedig, bydd y strategaeth yn sicrhau bod asiantaethau yn atebol mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer amddiffyn, atal, cefnogi a diogelu'r holl unigolion yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

"Mae'r sefyllfa bresennol yn annerbyniol" oedd disgrifiad un o'r rhanddeiliaid o gyd-destun Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn y rhanbarth. Mae ein strategaeth ranbarthol cyntaf yn darparu cyfle i ni herio'r sefyllfa bresennol yma ac i fod yn ddewr ac yn radical o ran ein dull o fwrw ymlaen â gwelliannau ar gyfer unigolion yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Strategaeth ar gyfer pwy?

Mae Deddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015 ("Y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydweithio mewn ffordd gyson a chydlynol er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol neu Drais yn erbyn Menywod.

Mae Adran 5 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol baratoi, cyhoeddi a gweithredu Strategaeth Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar y cyd.

Hon yw cyd-strategaeth gyntaf Canolbarth a Gorllewin Cymru a gyhoeddwyd yn unol â'r Ddeddf, ac mae'n amlinellu sut fydd y rhanbarth yn cefnogi unrhyw un sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod, yn sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol, yn sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu, cynyddu ymwybyddiaeth o'r mater a sut i gael mynediad i gymorth a helpu plant a phobl ifanc i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol.

Strategaeth yw hon sy'n ceisio gwella ein hymateb rhanbarthol ar gyfer atal, diogelu a chefnogi'r holl unigolion sy'n dioddef neu sydd wedi dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod ac sy'n cydnabod y gall unrhyw un ddioddef camdriniaeth ddomestig, trais, ymosodiad rhywiol, cam-drin rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin plant yn rhywiol, ystelcian ac aflonyddu, aflonyddu rhywiol a chamfanteisio beth bynnag fo'u rhyw, oed, dosbarth, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw.

Mae'r penderfyniad hwn i ddatblygu ymagwedd ranbarthol, Canolbarth a Gorllewin Cymru tuag at Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn alinio â'r ymagwedd ranbarthol tuag at ddiogelu, a'r bartneriaeth gref a'r diwylliant o gydweithredu sydd eisoes wedi ei sefydlu ar draws rhanbarth mor fawr.

Mae'r penderfyniad hefyd yn alinio â'r ymagwedd a ffafrir gan Lywodraeth Cymru o ran sefydliadau yn cydweithredu'n rhanbarthol, sy'n gydnaws â chyfeiriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gwelliannau i drefniadau cyflawni'r rhaglen Cefnogi Pobl.

Rydym yn disgwyl y bydd symud at ymagwedd ranbarthol yn cyflawni'r canlyniadau allweddol a nodir isod:

- hyrwyddo gwell effeithiolrwydd o ran dylunio, caffael a chontractio gwasanaethau
- datblygu ymagwedd y cytunwyd arni i fynd i'r afael â'r heriau penodol a nodwyd yn y rhanbarth gan gynnwys gwledigrwydd a hygyrchedd gwasanaethau
- cyfrannu at welliannau i ganlyniadau'r boblogaeth ledled y rhanbarth, a lleihau'r gyfran o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n profi canlyniadau negyddol o'r gwasanaethau

- darparu trefniadau comisiynu syml a chyffredin
- hyrwyddo perthnasoedd gweithio effeithiol, ymddiriedaeth a chyfathrebu da rhwng sefydliadau
- ymagweddau cyffredin er mwyn annog gwell defnydd o ddata a dadansoddi a hyrwyddo proses wneud penderfyniadau strategol mwy effeithiol, ac yn y pen draw lleihau'r gyfran o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaethau amhriodol neu aneffeithiol
- lleihau dyblygu gweithgareddau comisiynu
- arbedion cost a gwell buddsoddi o ganlyniad i gronni cyllidebau
  - mwy o ffocws ar gyllido er mwyn cefnogi darparu gwasanaethau'n uniongyrchol yn hytrach na chydlynu cyffredinol
  - ymestyn cyrhaeddiad rhai gwasanaethau, a lleihau dyblygu eraill
  - atgyfnerthu atebolrwydd a chydweithrediad partneriaethau lleol a rhanbarthol drwy annog ardaloedd i weithio gyda'i gilydd er mwyn blaenoriaethu eu hamcanion a chynllunio i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaethol, fydd yn helpu i baratoi ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith
  - gwell llywodraethu a gwell arweiniad strategol

Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys pedair ardal awdurdod lleol; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, a dau fwrdd iechyd lleol; Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'n ofynnol, yn ôl y Ddeddf, i'r Awdurdodau hyn gyhoeddi Strategaeth Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar y cyd.

Mae gan y rhanbarth yr un ffiniau daearyddol â Heddlu Dyfed Powys, ac mae partneriaid allweddol eraill sy'n mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn y rhanbarth yn cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, darparwyr Tai, darparwyr gwasanaethau arbenigol o ran Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a'r trydydd sector ehangach.

Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unigryw yn yr ystyr ei fod yn cynnwys ardal ddaearyddol fawr iawn sydd bron hanner mas tir Cymru, ac mae hynny ynddo ei hun yn creu heriau o ran bodloni anghenion cymysgedd eang ac amrywiol o gymunedau.

Mae gan y rhanbarth boblogaeth o 515,871, yn ôl yr amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf[2], ac mae'n wledig yn bennaf gyda rhai canolfannau o boblogaethau trefol

[2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaethau, Mehefin 2015, mynediad drwy: Gwefan RLP http://rlp.infobasecymru.net/IAS/metadata/view/indicator

dwys. Mae llawer o ardaloedd gwledig Cymru yn cael eu cymeriadu fel mannau ynysig sydd â seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth gwael.

Mae'r Iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn eang yn y rhanbarth ac mae cymunedau ym mhob un o ardaloedd yr Awdurdod Lleol yn gadarnleoedd traddodiadol i'r iaith.

O ran demograffeg, mae poblogaeth y rhanbarth yn heneiddio, ac mae cyfran uchel o'r trigolion yn perthyn i'r categori 65+ oed[3]. O'i chymharu â gweddill Cymru mae gan y rhanbarth gyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl hŷn, ac mae'n ddisgwyliedig y bydd y duedd hon y parhau yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod oherwydd y cynnydd a ragamcanir i ddisgwyliad oes cyfartalog.

Mae rhai o'r heriau penodol a nodwyd ac a archwiliwyd wrth ddatblygu'r strategaeth hon yn cynnwys natur wledig, hygyrchedd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau yn yr Iaith Gymraeg ac ieithoedd eraill sy'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol a bodloni anghenion poblogaeth sy'n gynyddol heneiddio a grwpiau ar yr ymylon / lleiafrifol.

Nod y Strategaeth yw creu un pwynt cyfeirio lefel uwch ar gyfer goroeswyr, rhanddeiliaid a chomisiynwyr ledled y rhanbarth;

Ar gyfer goroeswyr - Ffordd dryloyw o ddiffinio eu rôl o ran cynllunio, siapio a monitro gwasanaethau a'r mecanweithiau y gallent eu defnyddio i sicrhau ein bod yn atebol am ddarparu'r gwasanaethau.

Ar gyfer "awdurdodau perthnasol" - Fframwaith ar gyfer ategu'r gofynion a nodir yn Neddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015

Ar gyfer partneriaid a rhanddeiliaid ehangach - blaenoriaethau a disgwyliadau clir a gydgynhyrchwyd ac y cytunwyd arnynt ar y cyd er mwyn gwella canlyniadau i'r holl unigolion a theuluoedd sy'n dioddef unrhyw fath o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Ar gyfer comisiynwyr - Er y cydnabyddir nad yw hon yn strategaeth gomisiynu, dylai'r cynnwys a'r cynllun cyflawni strategol cysylltiedig lunio a dylanwadu ar benderfyniadau comisiynu mewn perthynas â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a buddsoddi adnoddau ledled y rhanbarth.

Bwriedir i'r fframwaith strategol yma, a'r camau a'r gweithgareddau cysylltiedig a esbonnir yn y cynllun cyflawni ategol, ategu fframwaith deddfwriaethol, strategol a chyflawni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn atal trais a chamdriniaeth, diogelu dioddefwyr a goroeswyr a chefnogi pawb yr effeithir arnynt.

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://web.ons.gov.uk/ons/data/web/explorer

ADRAN 1 - CAM-DRIN DOMESTIG, TRAIS RHYWIOL A THRAIS YN ERBYN MENYWOD

CYFFREDINEDD A MAINT Y BROBLEM YNG NGHANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn broblemau treiddiol ar raddfa fawr, sydd bob blwyddyn yn achosi marwolaethau a niwed diangen i filoedd o bobl ledled Cymru. Er bod nifer yr achosion yn uchel, mae'n hysbys bod y rhai sy'n dioddef y math yma o drais a chamdriniaeth yn tanriportio, ac felly mae data swyddogol yn tangynrychioli'r broblem.

Mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i deuluoedd, plant, cymunedau a chymdeithas. Mae'r niwed uniongyrchol i iechyd a llesiant dioddefwyr yn amlwg, ac ar ei ffurf mwyaf difrifol gall arwain at farwolaeth ac yn wir, mae'n gwneud hynny mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae'r effeithiau yn eang, nid yn unig ar iechyd a llesiant, ond maent yn cynnwys hawliau dynol, tlodi, diweithdra, digartrefedd a'r economi. Hefyd, mae'n bwysig nodi bod hyn yn effeithio nid yn unig ar oedolion a phlant sy'n dod i gysylltiad â thrais ac yn dioddef trais yn y cartref neu mewn perthnasoedd agos neu deuluol, ond aelodau'r teulu ehangach hefyd. Yn ogystal, yn aml gall camdriniaeth a thrais gael eu cyflawni mewn mannau cyhoeddus hefyd gan effeithio ar y gymuned ehangach.

Data allweddol

- Amcangyfrifir bod 1.2 miliwn o fenywod a 713,000 o ddynion sy'n oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn diweddu ym Mawrth 2017[4]
- Menywod ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf, ac mae menyw yn cael ei lladd bob 2.4 diwrnod yn y DU, a bu i 148 o fenywod gael eu lladd gan ddynion yn y DU yn 2014.
- Mae cymhwyso'r data yma i Gymru yn dangos bod 11% o fenywod a 5% o ddynion bob blwyddyn yn dioddef 'rhyw fath o gamdriniaeth ddomestig', ac roedd cyfraddau 'rhyw fath o ymosodiad rhywiol' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn uwch yn achos menywod (3.2%) nag yn achos dynion (0.7%)
- Mae tua 124,000 o fenywod, dynion, bechgyn a merched dros 16 oed yng Nghymru wedi dioddef trosedd rywiol.
- Bu cynnydd o 26% yn nifer y troseddau rhywiol a gofnodwyd sy'n cynnwys plant o dan 16 oed yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae ffigyrau wedi mwy na dyblu yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Llynedd, cyfradd y troseddau rhywiol a gofnodwyd yn erbyn plant o dan 16 oed yng Nghymru oedd 3.3 am bob 1000 o blant.
- Yng Nghymru roedd yna 251 o erlyniadau am dreisio, gyda chyfradd euogfarnau o 55.4%. Mae'r gyfradd yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru a

[4] Arolwg Troseddu ar gyfer Cymru a Lloegr

Lloegr, sy'n 57.6%. Yn ystod yr un flwyddyn, bu 792 o erlyniadau am ymosodiadau rhywiol, gyda chyfradd euogfarnau o 79.2% o gymharu â'r cyfartaledd ledled Cymru a Lloegr, sy'n 79.5%.

- Mae ffigyrau Llywodraeth y DU yn amcangyfrif bod pob achos o dreisio oedolyn yn costio dros £96,000 i gymdeithas o ran yr effaith emosiynol a chorfforol ar y goroeswr, colli allbwn economaidd o ganlyniad i gyfnod ymadfer, costau triniaethau i'r gwasanaethau iechyd a chostau a ysgwyddir gan y System Cyfiawnder Troseddol, ac amcangyfrifir bod trais rhywiol yn costio £8.5biliwn i gymdeithas yng Nghymru a Lloegr.
- Amcangyfrifwyd bod 137,000 o ferched a menywod yn byw â chanlyniadau Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod yn y DU yn 2011, ac amcangyfrifwyd bod 60,000 o ferched o dan 15 oed yn byw yn y DU yn 2011 oed wedi eu geni i famau o wledydd sy'n gweithredu Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod ac sydd felly yn wynebu risg o ddioddef Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod eu hunain. Amcangyfrifir bod yna 140 o ddioddefwyr Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod yng Nghymru bob blwyddyn.
- Roedd 80% o'r achosion y deliwyd â nhw gan yr Uned Priodas dan Orfod yn cynnwys dioddefwyr benywaidd; roedd 20% yn cynnwys dioddefwyr gwrywaidd. Amcangyfrifir bod yna hyd at 100 o ddioddefwyr priodas dan orfod yng Nghymru bob blwyddyn.
- Amcangyfrifir bod dros 39,000 o bobl hŷn yn dioddef camdriniaeth ddomestig yng Nghymru, sy'n ffigwr cymesurol uwch na'r ffigwr ar gyfer gweddill y DU[5]

Mae Cam-drin Domestig yn unig yn costio £303.5m y flwyddyn i Gymru. Mae hynny'n cynnwys £202.6m o gostau gwasanaeth a £100.9m o allbwn economaidd a gollir. Os ystyrir y gost emosiynol a phersonol, mae'r costau ychwanegol hynny yn £522.9m.

Mae Canllaw Cyflym y Swyddfa Gartref (rhan allweddol o Strategaeth y Swyddfa Gartref o ran Trais yn Erbyn Menywod a Merched) yn amcangyfrif cost trais domestig a thrais rhywiol mewn ardal yn seiliedig ar boblogaeth.[6] Darperir costau amcangyfrifedig ar gyfer Dyfed Powys yn y tabl isod. Mae'r costau a amcangyfrifir yn seiliedig ar ddata poblogaeth Cyfrifiad 2011 ar gyfer menywod rhwng 16 a 59 oed, ac felly nid ydynt yn cynnwys dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig neu drais rhywiol, na'r rheiny sydd dros 59 oed. Nid yw'r ffigyrau hyn chwaith yn cynnwys costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ystelcian, anffurfio organau cenhedlu menywod, "trais ar sail anrhydedd" neu briodas dan orfod. Darperir yr amcangyfrif i roi ymdeimlad o'r costau ariannol i ranbarth y Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol tra'n cydnabod cyfyngiadau'r adnodd hwn.

---

[5]Astudiaeth cyffredinedd Yr Adran Iechyd a Comic Relief 2007

[6] Mae costau camdriniaeth ddomestig yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio Walby (2004); Mae cost Trais Domestig a chost ymosodiadau rhywiol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio ffigyrau gan Jarvinen et al (2008); Hard Knock Life. Mae'r ffigyrau costau ar gyfer 2003/204 wedi cael eu lluosi gan luoswr datchwyddiant DGP Trysorlys EM, sef 1.139, er mwyn eu halinio â chostau 2007/08, ond ni ystyriwyd newidiadau eraill o ran costau.

	Cyfanswm costau (heb gynnwys costau emosiynol a dynol)	Costau gofal corfforol a meddyliol	Costau'r System Gyfiawnder	Costau Gwas-anaethau Cymdeithasol	Costau eraill (yn cynnwys tai, sifil, cyfreithiol a diweithdra)	Costau Dynol ac Emosiynol (heb ei gynnwys yn y cyfanswm)
Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	53,678,869	11,567,035	7,285,678	1,372,034	33,454,122	171,385,720

Yn Nyfed Powys, amcangyfrifir bod:

- 18,000 o bobl rhwng 16 a 59 oed, ar gyfartaledd, wedi dioddef Cam-drin Domestig bob blwyddyn drwy gydol 2013-2016 (noder nad yw hyn yn cynnwys unigolion 60 oed a hŷn)
- Amcangyfrifir bod 6.8% o'r boblogaeth leol wedi dioddef camdriniaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 10.3% o'r boblogaeth Fenywaidd, 3.3% o'r boblogaeth Wrywaidd.

Yn 2016/17 cofnododd Heddlu Dyfed Powys

- 4635 achos o gam-drin domestig
- 69 o droseddau rhywiol yn cynnwys treisio
- 405 o droseddau ystelcian / aflonyddu

Yn 2015/16 cofnododd Heddlu Dyfed Powys un drosedd "Trais ar sail Anrhydedd", ond dim un drosedd o'r natur hwn yn 2016/17, ac un achos o Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod yn yr ardal y 2016/17.

Rhwng Mawrth 2013 a Gorffennaf 2018, bu 11 o Ddynladdiadau Domestig yn Nyfed Powys.

Rhwng Gorffennaf 2016 a Mehefin 2017, trafodwyd 1373 o achosion yn y cyfarfodydd MARAC yn y rhanbarth. Mae hynny yn 63 o achosion MARAC a drafodir am bob 10,000 o oedolion benywaidd yn y boblogaeth, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn uwch na'r 40 o achosion a argymhellir.

Bu i linell gymorth Byw Heb Ofn sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru dderbyn 1760 o alwadau o ranbarth Dyfed Powys yn 2016/17, sef 12.5% o gyfanswm y galwadau i'r llinell gymorth yn ystod y cyfnod hwnnw a chynnydd o ran galwadau o'i gymharu â 2015/16 (1507).[7]

[7] Mae data lleoliad galwyr yn ddibynnol ar alwyr yn datgelu'r wybodaeth honno, ac nid yw'n cynnwys galwadau gan wasanaethau cam-drin domestig arbenigol a galwadau tu allan i oriau o lochesi; galwadau "2 ganiad", achosion o roi'r ffôn i lawr, galwadau a gollwyd a galwadau profi.

Yn 2016/17, bu i dros 2500 o unigolion gael mynediad i wasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn Nyfed Powys.

- Bu i 601 o unigolion gael mynediad i Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.
- Bu i 172 o oedolion a 90 o blant dderbyn gwasanaeth cwnsela yn gysylltiedig â thrais a cham-drin rhywiol, ond mae 273 o oedolion a 63 o blant yn dal ar y rhestr aros am y gwasanaeth hwn.
- Bu i 276 o fenywod a 18 o ddynion gael mynediad i wasanaethau llety yn y rhanbarth (lloches, tai diogel, llety gwasgaredig neu lety â chymorth)
- Bu i 264 o blant a phobl ifanc gael mynediad i wasanaethau llety gyda'r rhiant nad oedd yn gamdriniol.
- Bu i 1395 o fenywod a 100 o ddynion gael mynediad i gymorth yn y gymuned

Roedd Cam-drin Domestig yn ffactor rhieniol mewn rhwng 13% a 20% o achosion Plant Mewn Angen[8] ac yn ffactor atgyfeirio mewn rhwng 7% a 34% o achosion Plant Mewn Angen[9].

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod ansawdd casglu data ar natur a chyffredinedd Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn broblematig yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, ac mae angen mwy o waith yn y rhanbarth (fel mewn ardaloedd eraill) er mwyn sicrhau bod casglu data rhanbarthol yn alinio â'r fframwaith cenedlaethol o ddangosyddion a chanlyniadau. Mewn ymateb i hynny y mae datblygu fframwaith riportio clir sy'n cynnwys data cydlynol, cyson ac ystyrlon o bob asiantaeth berthnasol yn cael ei glustnodi fel un o "alluogwyr a chynhalwyr" y strategaeth hon.

[8] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-in-Need/parentalfactorsofchildreninneed-by-measure-year

[9] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-in-Need/referralfactorsofchildreninneed-by-measure-year

ADRAN 2 - CYD-DESTUN POLISI A DEDDFWRIAETHOL

Yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, ystyrir bod Trais yn erbyn Menywod yn ymyriad ar hawliau dynol ac yn achosi anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac yn ganlyniad i hynny. Mae'n digwydd i fenywod oherwydd eu bod yn fenywod, ac effeithir ar ferched yn anghymesur gan bob math o drais yn y cyd-destun hwn.

Mae'r term "Trais yn erbyn Menywod", a ddefnyddir yn rhyngwladol, yn cyfeirio at yr amrywiaeth o fathau o droseddau y mae menywod a merched yn bennaf, ond nid yn unig, yn eu dioddef. Mae trais o'r fath sy'n seiliedig ar rywedd yn cynnwys cam-drin domestig, treisio a thrais rhywiol, ystelcian, anffurfio organau cenhedlu menywod, priodas dan orfod, troseddau a gyflawnir yn enw 'anrhydedd', masnachu pobl, camfanteisio'n rhywiol, yn cynnwys yn fasnachol drwy'r diwydiant rhyw, ac aflonyddu rhywiol yn y gweithle ac yn y byd cyhoeddus.

Er ei bod yn bwysig bod y Strategaeth hon yn cydnabod profiadau anghymesur menywod a merched ac yn cyfathrebu hynny, nid yw hynny mewn unrhyw ffordd yn negyddu trais a chamdriniaeth yn erbyn dynion a bechgyn, na thrais a chamdriniaeth a gyflawnir gan fenywod.

Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gall unrhyw un ddioddef camdriniaeth ddomestig, treisio ac ymosodiad rhywiol, cam-drin rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin plant yn rhywiol, ystelcian ac aflonyddu, aflonyddu rhywiol a chamfanteisio, ac y gall hynny effeithio ar unrhyw un beth bynnag fo'u rhyw, oed, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw.

Ar lefel genedlaethol, fyd-eang, Ewropeaidd a lefel y DU, mae deddfwriaeth a pholisi yn cydnabod bod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael eu cyflawni fel ffordd o reoli cymdeithasol sy'n cynnal perthnasoedd pŵer anghyfartal rhwng dynion a menywod ac sy'n atgyfnerthu statws israddol menywod. Mae'n benodol gysylltiedig â gwahaniaethu systematig yn erbyn menywod a merched. Gall methu â gwneud y cysylltiad rhwng y gwahanol fathau o drais y mae menywod a merched yn ei ddioddef, a sut y mae hynny yn benodol gysylltiedig â sefyllfa anghyfartal menywod a merched mewn cymdeithas, rwystro effeithiolrwydd ymyriadau a gwaith ataliol.

Hefyd mae'n bwysig cydnabod bod gwahanol grwpiau o fenywod yn profi anghydraddoldeb lluosog all groestorri â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n achosi mwy o ymyleiddio.

Mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cynnwys y mathau canlynol o droseddau:

- Trais rhywiol
- Cam-drin domestig
- Aflonyddu rhywiol ac ystelcian
- Masnachu pobl a/neu gamfanteisio'n rhywiol
- Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod (FGM)

- Priodas dan Orfod
- Trais a throseddau a elwir yn rhai sy'n seiliedig ar 'anrhydedd' (HBV)

Y Cyd-destun Rhyngwladol

Bwriedir i'r Strategaeth hon alinio â **Datganiad y CU ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod (1993),** sydd yn fwyaf diweddar wedi ei ddeddfu o fewn Amcanion Datblygu Cynaliadwy y CU 2030 [10](2015), a **Chonfensiwn Cyngor Ewrop ar Atal ac Ymladd Trais yn Erbyn Menywod a Thrais Domestig** - Confensiwn Istanbul (2014).

Mae datganiad y CU[11] yn diffinio trais yn erbyn menywod fel hyn:

Unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd sy'n achosi, neu'n sy'n debygol o achosi niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd i fenywod, yn cynnwys bygwth cyflawni gweithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu golli rhyddid dan ormes, p'un a bod hynny yn digwydd yn gyhoeddus neu mewn bywyd preifat.

Mae hynny yn cwmpasu, ond nid yn gyfyngedig i:

(a) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y teulu, yn cynnwys curo, cam-drin plant benywaidd ar yr aelwyd, trais sy'n gysylltiedig â gwaddol, treisio priodasol, anffurfio organau cenhedlu menywod ac arferion traddodiadol eraill sy'n niweidiol i fenywod, trais nad yw'n briodasol a thrais sy'n gysylltiedig â chamfanteisio;

(b) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol sy'n digwydd yn y gymuned yn gyffredinol yn cynnwys treisio, cam-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol a theimlo ofn yn y gwaith, mewn sefydliadau addysgol ac mewn mannau eraill, masnachu menywod a phuteindra dan orfod;

(c) Trais corfforol, rhywiol a seicolegol a gyflawnir gan neu a oddefir gan y Wladwriaeth, ble bynnag fo hynny'n digwydd.

Mae Erthygl 4 Confensiwn Istanbul[12] yn cynnwys:

Hawliau sylfaenol, cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu

1. Bydd partïon yn cymryd y camau deddfwriaethol angenrheidiol a chamau eraill er mwyn hyrwyddo a diogelu hawl pawb, yn arbennig menywod, i fyw heb drais yn gyhoeddus a phreifat.
2. Mae'r partïon yn condemnio pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod ac yn cymryd y camau deddfwriaethol angenrheidiol a mesurau eraill, heb oedi, er mwyn ei atal, yn benodol drwy:
    - Ymgorffori egwyddor cydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn eu cyfansoddiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaeth briodol arall, a sicrhau bod yr egwyddor honno yn cael ei gwireddu'n ymarferol;

[10] http://www.un.org/sustainabledevelopment/gender-equality/
[11] http://www.un.org/documents/ga/res/48/a48r104.htm
[12] htpp://www.coe.int/en/web/Istanbul-convention/home

- Gwahardd gwahaniaethu yn erbyn menywod, yn cynnwys drwy ddefnyddio sancsiynau, pan fo'n briodol;
- Diddymu deddfau ac arferion sy'n gwahaniaethu yn erbyn menywod.

3. Bydd gweithredu darpariaethau'r Confensiwn hwn gan y Partïon, yn arbennig mesurau i ddiogelu hawliau dioddefwyr, yn cael ei sicrhau heb wahaniaethu ar unrhyw sail megis rhyw, rhywedd, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad â lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, oed, cyflwr iechyd, anabledd, statws priodasol, statws ymfudwr neu ffoadur, neu unrhyw statws arall.
4. Ni fydd camau arbennig sydd eu hangen i atal a diogelu menywod rhag trais ar sail rhywedd yn cael eu hystyried yn wahaniaethu o dan delerau'r Confensiwn.

Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Dioddefwyr, sy'n sefydlu safonau gofynnol a rhwymedigaethau mewn perthynas â hawliau, cymorth a gwarchodaeth i ddioddefwyr troseddau yn y DU.

Y Cyd-destun yn y DU

Ar gyfer gwasanaethau annatganoledig, mae'r Strategaeth yn cael ei hategu gan Strategaeth Drawsadrannol y Swyddfa Gartref o ran Terfynu Trais yn Erbyn Menywod a Merched 2016-2020.

Mae aelodau Grŵp Strategol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys Heddlu Dyfed Powys, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru. Mae'r trefniadau hyn yn adeiladu ar y partneriaethau cryf sydd wedi eu hen sefydlu ar draws y rhanbarth rhwng y sector datganoledig a'r sector annatganoledig, ac mae'n adlewyrchu trefniadau rhanbarthol strategol eraill yn y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a Byrddau Diogelu.

Mae deddfwriaeth gysylltiedig sy'n ategu darpariaeth ar lefel y DU yn cynnwys:

- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003 ("Deddf 2003"), sy'n cyflwyno Gorchmynion Diogelu rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod a dyletswydd riportio Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod gorfodol sydd wedi ei gosod yn Neddf 2003 gan Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.
- Deddf Troseddu a Diogelwch 2010 - mae'n cyflwyno Gorchmynion Diogelu rhag Trais Domestig (DVPO) a'r Cynllun Datgelu Trais Domestig (DVDS).
- Deddf Diwygio Lles 2012- newid model y system nawdd cymdeithasol bresennol, fydd yn newid y ffordd yr hawlir ac y telir budd-daliadau lles ledled y DU.
- Deddf Troseddau Gwrthgymdeithasol a Phlismona 2014 - sy'n cyflwyno Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion Risg Rhywiol (SRO).

- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 - mae'n ystyried caethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol a masnachu pobl, ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer diogelu dioddefwyr.

Ar adeg ysgrifennu'r strategaeth hon rydym yn disgwyl am ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Fil Trais a Cham-drin Domestig, Bil y disgwylir iddo gyfuno deddfwriaeth berthnasol, cyflwyno mesurau newydd er mwyn helpu dioddefwyr a chreu rôl Comisiynydd Cam-drin Domestig. Mae'r Bil yn gyfle i gyflwyno mesurau fyddai'n caniatáu i'r DU gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal ac ymladd trais yn erbyn menywod, "Confensiwn Istanbul".

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol - Bydd yr Ymchwiliad yn archwilio i ba raddau y mae sefydliadau yng Nghymru a Lloegr wedi cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri er mwyn diogelu ac amddiffyn plant. Byddwn yn monitro cynnydd yr ymchwiliad, ac ar ôl i ganfyddiadau gael eu cyhoeddi, byddwn yn ystyried pa gamau y gallwn eu cymryd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw argymhelliad.

Mae canllawiau sy'n llunio sut y cyflawnir y Strategaeth hon yn cynnwys:

- Canllawiau **Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol** (NICE) 2014: "Trais a cham-drin domestig: sut y gall gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r sefydliadau maent yn gweithio gyda nhw ymateb yn effeithiol". Mae'r canllawiau hyn, sy'n gymwys ledled Cymru a Lloegr, yn amlygu bod cam-drin domestig yn fater cymhleth y mae angen mynd i'r afael ag ef yn sensitif a thrwy gydweithrediad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

- **Canllawiau statudol ar**[13] **Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod** a gyhoeddwyd o dan adran 5C(1) Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003 ac sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr ac sy'n cynnwys gwybodaeth weithdrefnol a ddiweddarwyd.

- Canllawiau statudol a ddiweddarwyd ar gynnal **Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig** (DHR). Mae hyn yn ystyried y cyd-destun newidiol ac yn cyfeirio at offer newydd sydd wedi cael eu rhoi ar waith, megis y Cynllun Datgelu Trais Domestig a Gorchmynion Erlyn Trais Domestig, yn ogystal â'r drosedd gorfodi a rheoli newydd a gyflwynwyd yn Neddf Troseddau Difrifol 2015. Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu hategu gan ganfyddiadau allweddol o ddadansoddiad a gynhaliwyd gan ymchwilwyr y Swyddfa Gartref ar sampl o bedwar deg Adolygiad o Ddynladdiadau Domestig o bob cwr o Gymru a Lloegr a gwblhawyd rhwng 2013 a 2016.[14]

---

[13]https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/573782/FGM_Mandatory_Rep orting_-_procedural_information_nov16_FINAL.pdf

[14] https://www.gov.uk/government/publications/domestic-homicide-review-lessonslearned

- Canllawiau **Cynllun Datgelu Trais Domestig** a ddiweddarwyd - y cyfeirir atynt yn aml fel "Deddf Clare," sy'n nodi'r gweithdrefnau y gellid eu defnyddio gan yr heddlu i ddatgelu gwybodaeth am ymddygiad troseddol treisgar a chamdriniol blaenorol unigolyn, pryd y gallai hynny helpu i ddiogelu partner, neu gyn-bartner yr unigolyn hwnnw, rhag trais neu gamdriniaeth.

- Mae **Datganiad Cenedlaethol ar Ddisgwyliadau**[15] Cymru a Lloegr 2016, yn nodi beth sydd angen i gomisiynwyr lleol (Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Awdurdodau Lleol neu gomisiynwyr iechyd) ei sefydlu er mwyn sicrhau bod eu hymateb i drais yn erbyn menywod a merched yn gydweithredol, yn gydnerth ac yn effeithiol.

Y Cyd-destun Cymreig

Mae cyd-destun polisi a deddfwriaeth Cymru wedi blaenoriaethu Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ers nifer o flynyddoedd, ac mae nodau ac amcanion y strategaeth hon yn cwmpasu cyfrifoldebau a disgwyliadau yr holl bartneriaid sy'n gweithio ar fynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ledled yr ardal.

Yn 2010 bu i "Strategaeth Hawl i fod yn Ddiogel" Cymru nodi rhaglen integredig drawslywodraethol o weithredu er mwyn mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a phlant. Adnewyddwyd hynny ym mis Tachwedd 2016 ac fe'i cyhoeddwyd fel Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 - 2021, oedd ynddo ei hun yn un o ofynion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Hefyd, bydd y Strategaeth Ranbarthol yn cefnogi cyflawni nifer o flaenoriaethau allweddol cynllun pum mlynedd "Symud Cymru Ymlaen" Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r ddeddfwriaeth berthnasol ganlynol:

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn nodi saith o nodau llesiant sy'n berthnasol i atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a chymorth i oroeswyr. Mae'r Ddeddf yn sefydlu "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddilyn pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau eu bod yn cydweithredu â phobl a chymunedau, yn osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor a wynebir. Y pum ffordd o weithio yng nghyd-destun Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yw:

Atal: Deall a chydnabod mai atal ac ymyrraeth gynnar yw'r egwyddorion trosfwaol o ran mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a gwella canlyniadau dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd.

[15]https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/574665/VAWG_National_Statement_of_Expectations_-_FINAL.PDF

Integreiddio: Integreiddio gweithgareddau ar draws y sector statudol a'r trydydd sector a sicrhau bod rhaglenni gwaith yn cael eu cydlynu fel eu bod yn sicrhau'r budd gorau posibl. Ystyried sut y mae'r amcanion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ac ar amcanion a blaenoriaethau strategaethau a blaenoriaethau statudol allweddol eraill.

Cydweithredu: Cydweithredu ar draws y byrddau statudol lleol a rhanbarthol a gyda phartneriaid a goroeswyr er mwyn gwella'r ffordd o gynllunio a chydlynu gwasanaethau a sicrhau y bodlonir gweithredoedd ac amcanion y strategaeth hon.

Cyfranogiad: Gwrando ar ddioddefwyr, goroeswyr ac eraill yr effeithir arnynt gan drais a chamdriniaeth er mwyn deall eu profiadau yn well fel y gellir adolygu a llunio gwelliannau i ymatebion yn barhaus. Cydnabod bod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn "fusnes i bawb" a chynnwys yr holl asiantaethau all wneud gwahaniaeth.

Hirdymor: Ystyried y canlyniadau hirdymor ar gyfer dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd ac yn arbennig unrhyw blant a phobl ifanc a ddaw i gysylltiad â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl (oedolion a phlant) sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth[16] Gorllewin Cymru a Phowys yn nodi saith thema graidd ac yn nodi Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel un o'r rhain.

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** yn nodi rôl yr awdurdod lleol o ran atal a lleihau digartrefedd mewn deddfwriaeth.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n ategu sut y gweithredir y ddeddfwriaeth yn ymarferol yn cynghori awdurdodau lleol a'u partneriaid:

"Dylai awdurdodau lleol gael eu harwain gan ddymuniadau a theimladau dioddefwr camdriniaeth ddomestig wrth benderfynu ar drefniadau llety. Yr opsiwn cyntaf, pan fo'n briodol, fyddai symud y cyflawnydd o'r eiddo er mwyn galluogi'r dioddefwr i aros yn ei gartref. Hefyd mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol ystyried gwella diogelwch cartref yr ymgeisydd er mwyn ei alluogi i barhau i fyw yno'n ddiogel. Neu, mae'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol gynorthwyo'r dioddefwr i gael llety arall, boed hynny yn barhaol neu dros dro". [17]

Mae **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** yn nodi ymagwedd newydd tuag at gontractau ar y cyd fydd yn helpu goroeswyr drwy ganiatáu targedu cyflawnwyr ar gyfer eu troi allan.

Bu i astudiaeth Cymru o **Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** (ACE)[18] archwilio cysylltiad yn ystod plentyndod ag amrywiaeth o Brofiadau Niweidiol yn

ystod Plentyndod a chyflwyno ymchwil ar lesiant datblygiadol plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd o'r fath. Mae cam-drin domestig, cam-drin emosiynol, cam-drin corfforol a rhywiol, rhieni'n gwahanu, yn ogystal â charcharu rhiant oll yn ddangosyddion sy'n effeithio ar ddatblygiad plentyndod o ganlyniad i'r straen maent yn eu hachosi. Hefyd, mae'r rhai a ddaw i gysylltiad â phedwar neu ragor o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd ac yn fwy tebygol o ddioddef neu o gyflawni troseddau a thrais yn y dyfodol.

Wrth ddatblygu'r strategaeth rydym wedi ystyried y canlynol fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf;

- strategaeth genedlaethol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fwyaf diweddar i gael ei chyhoeddi;
- yr asesiadau mwyaf diweddar ar gyfer ardal yr awdurdod lleol o dan adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (asesiad o anghenion ar gyfer gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol);
- yr asesiadau strategol diweddaraf a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 6 Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998 mewn perthynas â lleihau troseddu ac anrhefn yn ardal yr awdurdod lleol;
- yr asesiadau strategol diweddaraf a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno mewn perthynas ag ymladd camddefnyddio sylweddau yn ardal yr awdurdod lleol;
- yr asesiad strategol diweddaraf a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno mewn perthynas â lleihau aildroseddu yn ardal yr awdurdod lleol;

Hefyd, rydym wedi ystyried yr asesiadau a chynlluniau strategol rhanbarthol canlynol;

- cynnal Asesiadau o Lesiant Lleol er mwyn llunio Cynlluniau Llesiant yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Heddlu Dyfed-Powys "Diogelu ein Cymunedau Gyda'n Gilydd" 2017-2021
- Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol (drafft)
- Cynlluniau Blynyddol Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Cynllun Strategol Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2017-2020

Yn ogystal ag ategu fframweithiau strategol a deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r DU, bwriedir i'r fframwaith strategol hwn, a'r cynllun cyflawni ategol, danategu, dylanwadu a chyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau rhanbarthol allweddol i ddinasyddion a chymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

ADRAN 3 - EGWYDDORION ALLWEDDOL

Mae deg o egwyddorion allweddol wedi cael eu nodi drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a goroeswyr. Bydd y rhain yn tanategu'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon a'n dull o gyflawni.



- **Ymgysylltu â Goroeswyr** yn rhan annatod; goroeswyr yn cael eu cynnwys a'u clywed ac yn rhan ganolog o pam yr ydym yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen
- Ymrwymiad i **Gydgynhyrchu;** gyda ffocws ar atebion, pobl yn cael statws cydradd ac yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon ym mhob cam
- **Ymyrraeth Gynnar ac Atal** - sylfaen effeithiolrwydd y strategaeth
- Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod – **ymateb system gyfan** sy'n cydnabod yr elfennau a'r ymatebion gwahanol a neilltuol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion goroeswyr yn achos pob math o drais yn erbyn menywod, trais rhywiol a cham-drin domestig.

- **Cefnogi a Diogelu;** sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei ddiogelu rhag trais a chamdriniaeth, eu bod yn derbyn ymateb effeithlon, effeithiol a chydlynol a'u bod yn cael cymorth i gael mynediad i amrywiaeth o wasanaethau er mwyn diwallu eu hanghenion
- **Cydraddoldeb** - ymagwedd gadarnhaol tuag at amrywiaeth, strategaeth sydd yn ymatebol i bawb, a darpariaeth sydd yr un mor hygyrch ar draws y rhanbarth er mwyn diwallu anghenion
- **Yr Iaith Gymraeg** - sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn yr Iaith Gymraeg i'r rhai sydd angen hynny
- **Cydweithredu, Integreiddio a Phartneriaeth;** cydymdrech i wella ac arloesi, hyrwyddo newid cadarnhaol ar lefel gymunedol
- **Dysgu ar y Cyd;** hyrwyddo diwylliant o wella parhaus, myfyrio ac adolygu er mwyn gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Parodrwydd i ddysgu ac i wneud pethau'n wahanol.
- **Arweinyddiaeth;** angen i sicrhau continwwm, atebolrwydd ac eglurder cyfeiriad o lefel ranbarthol i lefel leol

Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau strategol, bu i ni nodi pedair cydran y gellir eu hystyried fel **galluogwyr a chynhalwyr newid a gwelliant.** Maent yn ymwneud â gwella ac integreiddio prosesau craidd er mwyn hwyluso datblygiad ffyrdd cyson a chydlynol o wella canlyniadau i unigolion a'u teuluoedd sydd wedi dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol. Y galluogwyr hyn yw;



ADRAN 4 - YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI

Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd â goroeswyr, darparwyr gwasanaethau arbenigol, darparwyr gwasanaethau cyffredinol, comisiynwyr, rhanddeiliaid ac aelodau Grŵp Strategol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Er mwyn datblygu blaenoriaethau rhanbarthol a oedd yn adlewyrchiad cywir o brofiadau lleol, cynhaliwyd cyfres o weithdai lleol â rhanddeiliaid yn ogystal â grwpiau ffocws a chyfweliadau wedi'u targedu.

Er mwyn llunio'r strategaeth hon, cynhaliwyd naw o grwpiau ffocws ar draws y rhanbarth gyda 56 o oroeswyr sydd wedi ymwneud â gwasanaethau. Cynhaliwyd o leiaf un grŵp yn ardal pob awdurdod lleol a chynhaliwyd grwpiau ffocws penodol ar gyfer goroeswyr gwrywaidd ac unigolion a oedd wedi dioddef trais a cham-drin rhywiol. Diben y grwpiau ffocws oedd deall profiadau goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod yn yr ardal yn well wrth gael mynediad i gymorth, eu safbwyntiau ynghylch atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a'r blaenoriaethau i'w hystyried ar gyfer y strategaeth.

Cyflwynwyd y strategaeth i oroeswyr er mwyn cael eu barn a'u sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad gan roi cyfle iddynt ystyried sut yr oedd eu safbwyntiau wedi llunio a llywio'r ddogfen ddrafft. Cynhaliwyd cyfanswm o 8 grŵp ffocws ledled y rhanbarth yn ogystal â chyfweliadau 1 i 1 gyda chyfanswm o 56 o oroeswyr a oedd yn cymryd rhan yn y gweithgaredd ymgynghori.

Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu yn rhoi cyfle i randdeiliaid, comisiynwyr, darparwyr a goroeswyr gyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad y strategaeth, nodi beth sy'n gweithio, tynnu sylw at fylchau yn y ddarpariaeth bresennol a chyfleoedd i wella. Hefyd rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr fynegi eu gweledigaeth ar gyfer y strategaeth a nodi blaenoriaethau gweithredu.

Bu i'r cyfranogwyr ymgysylltu'n frwdfrydig wrth ddarparu sylwadau ar y cyd-destun presennol ac i'r dyfodol, ac roedd y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses hon yn darparu sbectrwm eang o safbwyntiau sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein blaenoriaethau strategol a nodir.

Mae themâu allweddol o'r digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu hamlinellu isod:

- Diffyg dealltwriaeth ymysg gweithwyr proffesiynol ynghylch natur, effeithiau a chanlyniadau hirdymor Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod sy'n arwain at lai o hyder mewn cysylltiadau proffesiynol.
- Cydnabyddiaeth a phryder mewn perthynas â rôl ataliol a bugeiliol addysg wrth ddelio â materion sy'n ymwneud â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
- Diffyg cysondeb ac argaeledd ymyriadau diogel ar draws y rhanbarth sydd wedi eu hanelu at sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol a darparu cyfleoedd i newid ymddygiadau.

- Diffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
- Yr her barhaus o flaenoriaethu a darparu ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.
- Anghysondeb o ran arferion comisiynu a chynaliadwyedd cyllido.
- Cymhlethdod llwybrau atgyfeirio presennol sy'n achosi dryswch, "gorlwytho" ymateb a dyblygu gwasanaethau.
- Diffyg ymagweddau cydlynol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau a'r angen am lwybrau atgyfeirio integredig i wasanaethau.
- Diffyg ymwybyddiaeth ymysg unigolion sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, eu ffrindiau, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael a sut mae cael mynediad i wybodaeth a chymorth.
- Anghysondeb argaeledd gwasanaethau ar draws y rhanbarth sy'n arwain at ddarpariaeth "loteri cod post."
- Diffyg ymagweddau "teulu cyfan" ar draws y rhanbarth.
- Rôl gritigol arweinyddiaeth ac atebolrwydd am Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ledled y rhanbarth.
- Cydnabod bod yr hyn sy'n ymddangos fel safbwyntiau croes yn aml yn deillio o bartïon sydd ag amrywiaeth o rolau yn gweld pethau drwy lygaid gwahanol; angen i ddefnyddio a rheoli'r 'gwahaniaethau' hyn er mwyn gweithio'n greadigol a chydweithredol ar draws y sector mewn modd sy'n canolbwyntio ar atebion er mwyn diwallu anghenion unigolion a theuluoedd yn y ffordd orau bosibl.
- Yr angen i gynnal partneriaethau cydradd a pharchus gyda phobl broffesiynol sydd yn arbenigwyr yn eu maes, yn benodol asiantaethau yn y trydydd sector sydd â chyfoeth o wybodaeth arbenigol, arbenigedd strategol a sgiliau gweithredol.
- Gwerth cynnwys partneriaid yn ystod camau cynnar a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaeth er mwyn cydgynhyrchu'r ymagwedd ranbarthol tuag at fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, osgoi dyblygu a gwneud y mwyaf o adnoddau.
- Capasiti gwasanaethau arbenigol i ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i ymwybyddiaeth gynyddol a mentrau polisi e.e. Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.

ADRAN 5 - GOROESWYR - YR ARBENIGWYR

Mae ein strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cydweithredu â goroeswyr a defnyddwyr gwasanaeth sydd yn 'arbenigwyr drwy brofiad' o ran beth sydd wedi gweithio iddyn nhw, eu llwybrau drwy'r gwasanaethau a pha mor hawdd (neu anodd) fu canfod y gwasanaeth priodol a symud tuag at annibyniaeth a rhyddid o gamdriniaeth.

Mae lleisiau a phrofiadau goroeswyr wedi bod yn rhan ganolog o lunio a siapio datblygiad y Strategaeth hon ac mae'n rhaid i hynny barhau i fod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth a'r monitro wrth symud ymlaen.

> "*Mae goroeswyr wedi byw drwy drais a chamdriniaeth. Mae ganddynt brofiad uniongyrchol o sut beth ydyw a beth allai helpu eraill sydd mewn sefyllfa debyg"*[19]

Heb fewnbwn a barn goroeswyr ni allwn siapio'r gwasanaeth a ddarperir i fod yn ymatebol i anghenion unigol dioddefwyr a goroeswyr, ac mae eu canfyddiadau yn darparu cyfle parhaus i lunio, mireinio a gwella gwasanaethau.

Dywedodd goroeswyr wrthym sut yr oeddent yn teimlo pan oeddent yn eu perthynas gamdriniol ac effaith a dylanwad hynny ar eu bywydau;

[19] Adroddiad "Are you listening and am I being heard" Cymorth i Ferched Cymru 2016

Bu i’r goroeswyr nodi 12 maes gweithredu blaenoriaethol ar gyfer strategaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae nifer ohonynt yn adlewyrchu’r 10 argymhelliad allweddol sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad Cymorth i Ferched Cymru "Wyt ti'n Gwrando, Ydw i'n cael fy Nghlywed?"

Y blaenoriaethau a nodwyd gan oroeswyr Canolbarth a Gorllewin Cymru yw:

1. Gwasanaethau arbenigol penodol ar gyfer plant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt neu sy’n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, priodas dan orfod, camfanteisio rhywiol neu aflonyddu, ar gael ym mhob ardal.

Siaradodd goroeswyr am effaith dioddef trais a chamdriniaeth ar eu plant sy'n cynnwys gwlychu'r gwely, cael eu bwlio, hunan anafu, ystyried hunanladdiad, a’r angen i weithwyr proffesiynol ddeall canlyniadau byw gyda chamdriniaeth a thrais yn well.

Dywedodd goroeswyr wrthym;

"Roeddwn yn ymbil am help i fy merch"

"Nid oeddwn yn gallu cael help i fy mhlant"

Siaradodd goroeswyr am yr angen am well cymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a chymunedau, a’r angen i allu cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl wrth ymateb i anghenion plant.

2. Yr angen i ailfodelu darpariaeth a chynyddu capasiti gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol ar gyfer goroeswyr gan sicrhau eu bod yn hygyrch a bod ganddynt yr adnoddau i ddiwallu anghenion grwpiau penodol ar draws y rhanbarth ble bynnag fo’r goroeswyr yn byw.

Siaradodd goroeswyr am bwysigrwydd gallu cael mynediad i'r gwasanaethau ar yr adeg yr ydych eu hangen, a'u bod yn hygyrch i'r grwpiau mwyaf agored i niwed, a bod y gwasanaethau yn weledol ac ar gael mewn ardaloedd lleol.

Mynegodd goroeswyr bryder am restrau aros ar gyfer rhai gwasanaethau, yn arbennig cwnsela ar drais a cham-drin rhywiol, ac am y rhwystrau y mae rhai goroeswyr yn eu hwynebu wrth geisio mynediad i wasanaethau os oeddent yn dal i fod mewn perthynas â'r cyflawnydd;

"peidiwch â dweud wrth rywun am ddod yn ôl pan maent yn barod i adael, ac nad oes dim y gallwch ei wneud tan hynny"

Siaradodd goroeswyr am yr angen am fwy o gymorth yn y gymuned, am ddod â gwasanaethau i'r gymuned ar draws y rhanbarth er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau rhanbarthol y mae natur wledig a seilwaith trafnidiaeth yn eu creu.

Roedd goroeswyr benywaidd a gwrywaidd yn cefnogi'r flaenoriaeth hon, ond pwysleisiwyd yr angen i gael "lle diogel ar wahân".

3. Gwell ymwybyddiaeth ac ymateb i gam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol (CAFCASS Cymru, barnwyr a phersonél y llys, canolfannau cyswllt)

Siaradodd goroeswyr yn negyddol am eu profiadau o'r system llysoedd teulu, achosion cyswllt plant a'r diffyg dealltwriaeth a'r ystyriaeth a roddir i gam-drin domestig a cham-drin rhywiol. Siaradodd goroeswyr am eu profiadau o weld cyflawnwyr yn defnyddio'r system llysoedd teulu er mwyn parhau i'w cam-drin a'u rheoli, a'r modd y mae'n ymddangos bod y llysoedd yn diystyru trais domestig a thrais rhywiol.

4. Cyswllt diogel i blant gyda rhieni/gofalwyr ar ôl gwahanu, mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.

5. Cymorth 'gwasanaeth lloches' hygyrch ym mhob ardal, wedi ei ategu gan opsiynau tai hirdymor diogel a fforddiadwy i oroeswyr camdriniaeth, sy'n darparu hyblygrwydd a dewis ac sy'n diwallu anghenion goroeswyr.

Siaradodd goroeswyr am yr angen am amrywiaeth o opsiynau llety diogel er mwyn bodloni anghenion unigolion a theuluoedd, a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae rhai unigolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd e.e. teuluoedd mwy, unigolion ag anghenion cymhleth, unigolion sy'n gweithio.

Grwpiau goroeswyr a chymorth cymheiriaid ar gael ym mhob ardal, er mwyn lleihau arwahanrwydd a gwneud y mwyaf o lecynnau annibynnol sy'n gwella hyder, hunanwerth ac sy'n grymuso.

Siaradodd goroeswyr am yr angen am "ofod diogel" mewn cymunedau er mwyn rhoi cyfle iddynt gynnal y newidiadau cadarnhaol sydd wedi eu cyflawni a "meithrin ein rhwydweithiau cymorth ein hunain" drwy fentora cymheiriaid a rhannu sgiliau. Siaradodd goroeswyr am y "cryfder a'r hyder" a gafwyd drwy gael cymorth gan gyfoedion. Roedd goroeswyr benywaidd a gwrywaidd yn cefnogi'r flaenoriaeth hon

ond pwysleisiwyd yr angen am "lecyn diogel ar wahân". Hefyd, gofynnodd goroeswyr am fwy o gyfleoedd i wella cyflogadwyedd drwy hyfforddiant / cymwysterau a phrofiadau gwaith mewn amgylcheddau diogel a chefnogol..

6. Addysg ataliol orfodol sy'n briodol i oedran ym mhob ysgol a choleg

7. Gwasanaethau cwnsela a therapiwtig i oroeswyr sydd ar gael ym mhob ardal pan fo'r angen, sydd yn briodol i oedran ac sy'n helpu i greu cydnerthedd ac i wella ar ôl dioddef camdriniaeth a thrawma.

8. Mwy o ffocws ar atal ymddygiad cyflawnwyr a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gofalu bod cyflawnwyr yn atebol, a chyfleoedd i ddeall eu hymddygiad a chanlyniadau eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch dioddefwyr.

Roedd goroeswyr yn teimlo bod diffyg atebolrwydd a chanlyniadau ar gyfer cyflawnwyr a bod hwn yn fater ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Roedd goroeswyr yn teimlo bod cyfrifoldebau yn parhau i gael eu rhoi ar y rhiant nad oedd yn gamdriniol yn hytrach na mynd i'r afael ag ymddygiadau'r rhiant/partner a oedd yn cam-drin.

9. Gwell hyfforddiant i'r holl wasanaethau ar bob agwedd o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod wedi'i lunio gan brofiadau goroeswyr.

Siaradodd goroeswyr am yr angen i'r holl weithwyr proffesiynol allu cydnabod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a deall eu heffaith a'r canlyniadau hirdymor. Gwnaeth un goroeswr grynhoi y dylai'r holl weithwyr proffesiynol allu "ei weld, gwybod beth ydyw a gwneud rhywbeth".

10. Herio agweddau, ymddygiadau a diwylliant mewn perthynas â cham-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod.

Siaradodd goroeswyr am yr angen i newid canfyddiadau cyhoeddus ynghylch cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod ac argaeledd gwybodaeth gyfredol a chywir ar gyfer unigolion, teuluoedd a ffrindiau.

Siaradodd goroeswyr am agweddau gweithwyr proffesiynol tuag atynt fel dioddefwyr trais a chamdriniaeth a'r angen i herio a newid canfyddiadau, tybiaethau ac ymddygiadau. Yn gyson, roedd goroeswyr eisiau i weithwyr proffesiynol "Wrando, credu a pheidio beirniadu".

11. Atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod rhag digwydd yn y lle cyntaf, drwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion a chynyddu ymwybyddiaeth o'r help sydd ar gael mewn cymunedau lleol a sut mae cael mynediad i wybodaeth, help a chymorth, sy'n bwysig i oroeswyr, ffrindiau a theuluoedd.

Siaradodd goroeswyr am yr angen am "bwyntiau cyswllt yn y gymuned", llefydd diogel ac unigolion sydd wedi'u hyfforddi mewn cymunedau er mwyn darparu llwybrau mynediad i wybodaeth a chymorth.

12. Cymorth i deuluoedd cyfan - roedd goroeswyr eisiau gweld ymagwedd "teulu cyfan" tuag at gymorth ac ymyrraeth.

Yn ogystal, nododd goroeswyr rai rhwystrau systematig a oedd yn eu rhwystro rhag cael mynediad i gymorth a gwarchodaeth;

- Diffyg darpariaeth iaith Gymraeg; siaradodd goroeswr am fethu â gallu cael mynediad i wasanaethau iddo/iddi ei hun a'r plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw eu hiaith gyntaf ac nid oedd y gwasanaethau perthnasol ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd goroeswyr yn teimlo nad oeddent yn cael eu credu nac yn cael eu trin o ddifri gan wasanaethau cyhoeddus ac o ganlyniad i hynny roedd yn gyfrifoldeb arnyn nhw i brofi'r trais a'r gamdriniaeth.
- Ofn – siaradodd goroeswyr am eu hofn o sefydliadau'n ymyrryd pan oeddent yn eu perthnasoedd camdriniol a sut y defnyddir bygythiadau sy'n ymwneud â gwasanaethau statudol gan droseddwyr i ennyn ofn. Roedd y goroeswyr yn annog gweithwyr proffesiynol i beidio byth â diystyru'r ofn y mae goroeswyr yn ei deimlo mewn perthnasoedd.
- Siaradodd goroeswyr am fethu â chael mynediad i Gymorth Cyfreithiol a'r rhwystrau ychwanegol o ran cael cyfiawnder a wynebir drwy System Llysoedd Teulu gan arwain at drawma eto.

Siaradodd goroeswyr am rôl gwasanaethau arbenigol o ran Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Gwnaethant siarad am bwysigrwydd cael rhywun oedd yn gwrando arnynt, yn eu credu ac yn eu cymryd o ddifri;

"Nid oeddwn yn deall anferthedd fy sefyllfa"

"Cefais fy nhrin fel person"

Siaradodd goroeswyr am bwysigrwydd cael rhywun oedd yn deall eu profiadau ac a allai eirioli ar eu rhan.

Dywedodd un goroeswr, yn syml, bod y gwasanaethau wedi

"achub fy mywyd".

Roedd goroeswyr yn teimlo'n aml nad oedd eu lleisiau yn cael eu clywed, ac y gallent ac y dylen nhw, oherwydd eu profiadau, fod yn rhan o siapio'r atebion.

Caiff y sylwadau hyn eu hategu'n genedlaethol ac mae mentrau megis SEEDS (Gwasanaeth Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) sy'n cael eu treialu gan Gymorth i Ferched Cymru yn darparu ffordd i lais goroeswyr yng Nghymru gael ei glywed gan y rhai sydd yn cynllunio a darparu gwasanaethau. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar sefydlu fframwaith cenedlaethol o ran ymgysylltu â goroeswyr.

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, mae gan ddarparwyr arbenigol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod eu mecanweithiau ymgysylltu â

goroeswyr eu hunain y maent yn eu defnyddio i siapio ac i lunio sut y datblygir eu gwasanaethau a chyfrannu at ymgynghoriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid oes unrhyw blatfform i ddod â'r mecanweithiau hyn at ei gilydd a chlywed barn leol a phrofiadau goroeswyr ar blatfform rhanbarthol.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r Prosiect Cymorth i Oroeswyr sy'n Fenywod (WSSP) yn grŵp hunangymorth o oroeswyr cam-drin domestig sydd newydd ddod yn elusen gofrestredig. Mae SPRING, sef grŵp o oroeswyr a sefydlwyd yn ddiweddar yn ardal Ceredigion, yn darparu cymorth gan gyfoedion ac fel WSSP ei nod yw siapio a dylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy'n ymwneud â cham-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yn y rhanbarth.

Drwy gydol y digwyddiadau ymgysylltu, cafwyd adborth cyson gan oroeswyr ynghylch eu rôl barhaus mewn perthynas â datblygu, cyflawni a monitro'r strategaeth ranbarthol.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y dylai lleisiau a phrofiadau goroeswyr gael eu hintegreiddio i'r broses benderfynu ar draws y rhanbarth, ac roedd angen mecanwaith er mwyn cynorthwyo a galluogi ymgysylltu ystyrlon ag unigolion a oedd wedi dioddef trais a chamdriniaeth.

Cydnabuwyd bod angen i ymgysylltu fod yn gynhwysol ac y dylai ystyried unrhyw anghenion neu broblemau penodol sydd gan bobl â nodweddion gwarchodedig ac y gallent gael eu hymylu neu eu heithrio, yn cynnwys pobl BME, plant a phobl ifanc, dynion, pobl hŷn, ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl anabl a phobl LGBT+.

Cydnabuwyd hefyd bod angen i ymgysylltu â goroeswr fod yn ehangach na'r rheiny sydd yn neu sydd wedi bod yn ymgysylltu â gwasanaethau, er mwyn ein galluogi ni i ddeall yn well brofiadau yn yr ystyr ehangaf a'r rhwystrau a wynebir yn y rhanbarth.

Er y cydnabyddir ymagweddau presennol ac arfaethedig mewn perthynas ag ymgysylltu, nid oes yna fecanwaith cyson a chydlynol i rai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru allu clywed lleisiau goroeswyr.

Mewn ymateb i brofiadau a safbwyntiau goroeswyr a rhanddeiliaid, fel rhanbarth;

- **Rydym yn ymrwymedig i wrando ar leisiau a phrofiadau goroeswyr, ac i alluogi hynny, er mwyn llunio'r broses o wneud penderfyniadau a gwella arferion yn y rhanbarth.**
- **Byddwn yn datblygu ac yn darparu adnoddau ar gyfer fframwaith ymgysylltu â goroeswyr rhanbarthol, gan atgyfnerthu a gwella mecanweithiau sy'n bodoli ac archwilio ffyrdd creadigol i unigolion allu ymgysylltu a chyfrannu.**

ADRAN 6 - ASESIAD O ANGHENION

Mae’r Strategaeth hon wedi cael ei llunio gan asesiad o anghenion Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod gyda'r nod o ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion dinasyddion heddiw ac yn y dyfodol ledled y rhanbarth.

Mae Grŵp Strategol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi comisiynu ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad o angen, ac mae’r broses honno wedi golygu casglu gwybodaeth a data er mwyn llywio natur a maint yr angen mewn perthynas â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, mapio’r adnoddau sydd ar gael a’r gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Cwblhawyd yr asesiad o angen mewn cydweithrediad â phartneriaid, rhanddeiliaid a goroeswyr, gan sicrhau dealltwriaeth ymarferol o anghenion penodol ac amrywiol y rheiny yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod er mwyn llywio datblygiad y strategaeth.

Mae’r asesiad o angen wedi gwneud defnydd llawn o ddata o ystod eang o ffynonellau ac wedi adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud yn y rhanbarth ar gyfer yr asesiad o anghenion llesiant a phoblogaeth diweddar. Mae yna ymrwymiad i sicrhau y bydd y strategaeth hon a’r asesiad cysylltiedig o anghenion yn cael eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer blaengynllunio ac i lunio'r Cynlluniau Llesiant ac Ardal ar draws y rhanbarth.

Rydym yn cydnabod bod unrhyw asesiad o anghenion yn darparu cipolwg ar adeg benodol yn unig ac mae’r strategaeth hon yn cydnabod yr angen i sicrhau cydweithredu a dadansoddi parhaus er mwyn adolygu'n barhaus berthnasedd ein blaenoriaethau strategol a glustnodwyd er mwyn diwallu anghenion.

ADRAN 7 - ADNODDAU I FYND I'R AFAEL Â CHAM-DRIN DOMESTIG, TRAIS RHYWIOL A THRAIS YN ERBYN MENYWOD

Isod darperir cipolwg o gyllido mewn perthynas â darpariaeth gwasanaeth arbenigol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn 2017/18.

Wrth nodi adnoddau a glustnodwyd ar gyfer Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, rydym yn cydnabod nad yw adnoddau a glustnodir gan awdurdodau statudol wrth ddarparu gwasanaethau cyffredinol i oroeswyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael eu dadagregu ac felly ni ellir eu cynnwys yn y crynodeb hwn o adnoddau.

O ystyried natur gymhleth y maes hwn, a'r ffaith bod ymatebion gwasanaethau cyhoeddus ehangach a'r sector gwirfoddol i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yn aml yn elfen o ddarpariaeth ehangach, generig, nid yw'n bosibl mesur cyfanswm cost y ddarpariaeth ar draws y rhanbarth.

Wrth edrych ymlaen, mae'n rhaid inni ddeall yn well gyfraniad ariannol yr holl wasanaethau cyhoeddus o ran mynd i'r afael â cham-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod.

Ffynhonnell y Cyllid	**Swm 2017/18**	**Pwrpas**
Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru	£1,621,603 £55,522	Menywod sy'n dioddef cam-drin domestig Dynion sy'n dioddef cam-drin domestig
Llywodraeth Cymru - Tîm VAWDASV	£313,400	I Awdurdodau Lleol er mwyn gweithredu Deddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
Llywodraeth Cymru - Teuluoedd yn Gyntaf	£95,300	Drwy Awdurdodau Lleol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	£200,000 £142,339	Gwasanaethau Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol Gwasanaethau Trais a Cham-drin Rhywiol

Llywodraeth Cymru - cyllid uniongyrchol i ddarparwyr	£195,000	Cyllid uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol
Llywodraeth y DU	£36,799	Gwasanaethau trais, cam-drin a chamfanteisio'n rhywiol
Ymddiriedolaethau a Sefydliadau	Tua £329,000	

Mae'r tabl hwn yn dangos bod adnoddau sy'n werth dros £2.9 miliwn ar gael yn y rhanbarth ar gyfer mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn amlygu'r gwahaniaeth amlwg rhwng swm y cyllid a ddyrannwyd ar hyn o bryd i wasanaethau cam-drin domestig o'i gymharu â gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thrais a cham-drin rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod. Mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfle i'r holl wasanaethau cyhoeddus fynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng y cyllid sydd ar gael ar gyfer cam-drin domestig a darpariaeth gwasanaethau ehangach yn y rhanbarth fel y gall yr holl oroeswyr gael mynediad amserol i wasanaethau priodol.

Daw'r wybodaeth ganlynol o "Adroddiad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cenedlaethol o ran llywio datblygiad model cyllido cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yng Nghymru" Cymorth i Ferched Cymru. Mae'r ciplun rhanbarthol yn seiliedig ar ymatebion y gwasanaethau canlynol;

BAWSO, Calan DVS, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin, Hafan Cymru, Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn, Llwybrau Newydd, Seren, Threshold DAS**.**

Mae'r tabl yn dangos y gostyngiad neu'r cynnydd mewn cyllid yn genedlaethol ac yn rhanbarthol rhwng 2016/17 a 2017/2018 er mwyn dangos gwahaniaethau cenedlaethol a rhanbarthol.

% Cyllido yn ôl ffynhonnell ar gyfer gwasanaethau arbenigol trydydd sector VAWDASW rhwng lefelau cyllido 2016/2017 a 2017/18	Cymru Gyfan	Dyfed Powys
	%	%
Cyfanswm incwm ar gyfer y sefydliad / gwasanaeth VAWDASV	-3.04%	+3.73%
Grantiau/contractau Cyngor	-35.29%	-34.35%
Grantiau/contractau Cyngor- *plant neu deuluoedd yn gyntaf*	-13.56%	-34.98%
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu/Yr Heddlu	-8.84%	-5.73%
Cefnogi Pobl (elfen cymorth VAWDASV yn unig)	-3.64%	+4.84%
Costau rhent/gwasanaeth ffoaduriaid ar gyfer tai â chymorth VAWDASV yn unig (talwyd gan drigolion/HB/UC)	+2.38%	+1.61%
Byrddau Iechyd Rhanbarthol	+0.50%	Dim
NOMS Cymru / CRC / Bwrdd IOM Cymru	-20%	Dim
Cyllid uniongyrchol Llywodraeth Cymru (tîm VAWDASV)	+8.61%	+30.45%
Cyllid uniongyrchol Llywodraeth Cymru (Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)	-73.52%	-80.34%
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Holl gyllid wedi ei golli	Dim
Y Swyddfa Gartref	Dim	Dim
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	+20.82%	Yr un lefel
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	+100.00%	Dim
Cyllid Ewropeaidd (UE / Cyngor Ewrop)	+149.75%	*+393.33%
Cyllidwyr Elusennol / Ymddiriedolaeth	+6.54%	+3.90%
Eraill (e.e. preifat, rhoddion, cynhyrchiant incwm arall)	-5.96%	

Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys mwy o geisiadau llwyddiannus ar gyfer Rhaglen Cynhwysiant Gweithredol.

- Yn gyffredinol cafodd Dyfed Powys gynnydd o 3.73% mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Daeth llawer o'r cynnydd hwn ar ôl i un gwasanaeth sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer ymestyn meysydd gwaith o amrywiol ffynonellau

- Gostyngiad mewn cyllid Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarth - a'r effaith ar blant a phobl ifanc yn y rhanbarth yn fwy na mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.
- Mae'r lefelau cyllid ar gyfer gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn amrywio'n sylweddol rhwng rhanbarthau yng Nghymru; er enghraifft mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau plant yng Ngogledd Cymru yn dair gwaith gymaint â'r swm yn Nyfed Powys.
- Nid yw gwasanaethau trais rhywiol na cham-drin-domestig arbenigol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn derbyn unrhyw gyllid gan y byrddau iechyd rhanbarthol.

Dadansoddiad o gyllid pa feysydd gwasanaeth sydd wedi cynyddu neu ostwng yn 2017/18 o'i gymharu â 2016/17.

Cyllid yn ôl math o Wasanaeth Arbenigol VAWDASV y trydydd sector	**Cymru Gyfan**	**Dyfed Powys**
	%	**%**
Gwasanaethau trais rhywiol (argyfwng treisio, eiriolaeth, cwnsela) - oedolion (18 oed+)	-16.82%	-42.56%
Gwasanaethau trais rhywiol (argyfwng treisio, eiriolaeth, cwnsela) - plant a phobl ifanc (0-17 oed)	1.39%	-33.99%
Cymorth SARC – ISVA (oedolion a phlant)	-48.81%	-27.85%
Cymorth ffoaduriaid (DVSV) - oedolion a phlant	-1.03%	+1.26%
Cymorth cymunedol o ran cam-drin domestig (allgymorth, eiriolaeth, cymorth fel bo'r angen, grwpiau) - oedolion sydd wedi goroesi (18 oed+)	-7.07%	+1.11%
Allgymorth, eiriolaeth, cymorth fel bo'r angen ar gyfer cam-drin domestig - plant a phobl ifanc (0-17 oed)	+6.22%	+4.20%
MARAC – IDVA penodol ar gyfer dioddefwyr DA risg uchel	+1.00%	+8.94%
Cymorth penodol ar gyfer priodas dan orfod	+63.17%	Dim
Cymorth penodol ar gyfer 'trais ar sail anrhydedd'	Dim	Dim
Cymorth i fenywod a merched sy'n wynebu risg o Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod	-26.58%	Dim
Cymorth i oroeswyr y diwydiant rhyw	-3.33%	Dim

Cymorth ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant	+0.55%	-10.94%
Cymorth i oroeswyr masnachu pobl	+16.95%	Dim
Ymyrraeth Cyflawnwyr - oedolion	-6.23%	-0.48%
Gwaith diogelwch dioddefwyr er mwyn ategu gwaith gyda chyflawnwyr	-15.94%	+4.00%
Gwaith atal mewn cymunedau	+40.38%	-4.47%
Arall	-7.84%	+228.38%

- Bu gostyngiad sylweddol mewn cyllid ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â thrais a cham-drin rhywiol, a hynny'n anghymesur o'i gymharu â gwasanaethau eraill.
- Mae cyllid ar gyfer lloches a chymorth yn y gymuned yn y rhanbarth wedi cynyddu, a hynny'n groes i'r duedd yn genedlaethol
- Mae cyllid ar gyfer MARAC ac IDVA wedi cynyddu'n fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol
- Ni ddarperir cyllid rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau i oroeswyr priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu menywod na "thrais ar sail anrhydedd" fodd bynnag, fel sefydliad cenedlaethol, caiff BAWSO ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau ledled Cymru gan gynnwys Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Nid oes cyllid ar gyfer darparu cymorth i oroeswyr yn y diwydiant rhyw neu oroeswyr masnachu pobl.
- Dyfed Powys oedd yr unig ranbarth yng Nghymru ble bu gostyngiad yng nghyllid gwaith ataliol. O ystyried y gofynion yn neddfwriaeth Cymru i ganolbwyntio ar y maes hwn a'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon, mae'n hanfodol bod comisiynwyr yn ystyried yn ofalus sut maent yn cynnal gwaith ataliol sylfaenol ac eilaidd fel elfennau annatod o fodel comisiynu "Un Gwasanaeth Cyhoeddus".
- Mae'r cynnydd sylweddol mewn cyllid "arall" yn gysylltiedig â cheisiadau llwyddiannus ar gyfer y Rhaglen Cynhwysiant Gweithredol.

Mae'r gostyngiadau mewn cyllid yn cael eu hegluro mewn nifer o ffyrdd gan ddarparwyr;

- Colli cyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer IDVA / ISVA pan nad yw wedi cael ei gynnal drwy gomisiynu prif lif yn y sector cyhoeddus fel y disgwyliwyd

- Colli cyllid Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector trais rhywiol arbenigol sydd wedi symud o ddyraniad Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad y byddai Gwasanaethau Iechyd yn ei ddyrannu; hyd yma ni wireddwyd y newid disgwyliedig hwnnw

O 2018/19 bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllideb ranbarthol ar gyfer Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Diben y cyllid hwn yw cynorthwyo cyflawni'r strategaeth ranbarthol hon. Fodd bynnag, ni ellir ystyried y dyraniad rhanbarthol hwn ar ei ben ei hun nac fel unig gyfraniad Awdurdodau Lleol tuag at fynd i'r afael â VAWDASV; yn hytrach, dylid ystyried hynny fel un elfen o adnoddau ynghyd â'r adnoddau eraill y mae'n ofynnol i'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol eu cyfrannu tuag at gyflawni'r strategaeth hon i'r eithaf.

Mae angen dealltwriaeth o natur fregus ac ansicrwydd cyllid er mwyn ymateb i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar draws y rhanbarth. Mae cyfanswm y cyllid a ddyrennir ar hyn o bryd gan Awdurdodau Lleol ar gyfer Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn dibynnu ar arian grant penodol gan Lywodraeth Cymru. Gan y disgwylir y bydd Grant Ymyrraeth Gynnar ac Atal yn cael ei roi ar waith yn 2019/20 mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn deall y gofynion o ran adnoddau a chyllid er mwyn cyflawni'r strategaeth hon, a bod y blaenoriaethau yn cael eu hintegreiddio i unrhyw strwythurau cynllunio ar gyfer rhaglen grant ymyrraeth gynnar ac atal.

Nodwyd adnoddau ariannol gan randdeiliaid fel yr her fwyaf wrth gyflwyno'r strategaeth hon ac roedd galw ar y gwasanaethau cyhoeddus a'r sector arbenigol i feddwl yn wahanol am sut y gellir manteisio i'r eithaf ar adnoddau er mwyn cefnogi gweithrediad y Strategaeth hon.

Er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon, mae'n rhaid i ni newid yn sylfaenol y ffordd rydym yn meddwl am ariannu Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, yn deall yn well y natur drawsffiniol a'r effaith ar draws gwasanaethau cyhoeddus a defnyddio adnoddau sydd ar gael gan yr holl bartneriaid mewn ffordd wahanol er mwyn cynyddu darpariaeth ymyrraeth gynnar ac atal fel rhan o fodel comisiynu "Un Gwasanaeth Cyhoeddus".

ADRAN 8 - COMISIYNU I FODLONI ANGHENION

Er ei bod yn bwysig cydnabod nad yw hon yn strategaeth gomisiynu, bydd y cynnwys a'r cynllun cyflawni strategol cysylltiedig yn llywio datblygiad ymagwedd ranbarthol tuag at gomisiynu darpariaeth Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac yn dylanwadu ar benderfyniadau comisiynu a buddsoddi adnoddau ar draws y rhanbarth.

Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu a gweithredu model comisiynu "un sector cyhoeddus" yn hytrach na chomisiynu ar wahân; ymagwedd gyson, gydweithredol ac integredig tuag at gomisiynu gwasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar draws y rhanbarth; gwneud y mwyaf o adnoddau sydd ar gael gan amrywiaeth o gomisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Iechyd, yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a phenderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i arwain comisiynu gwahanol elfennau o'r gwasanaethau fel rhan o fodel comisiynu integredig a chydweithredol.

Mae'n bwysig ystyried egwyddorion, ysgogwyr a rhwystrau comisiynu allweddol mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau strategol.

Fel rhanbarth byddwn yn integreiddio'r egwyddorion craidd canlynol i'n fframwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod[20]:

- Deall bod VAWDASV yn achosi ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb menywod. Dylai gydnabod yr hawl ddynol i fyw heb drais a chamdriniaeth fel egwyddor sylfaenol comisiynu gwasanaethau atal, diogelu a chefnogi;
- Ymrwymiad i roi i'r holl oroeswyr, yn cynnwys plant a phobl ifanc, fynediad cyfartal i wasanaethau holistig o ansawdd uchel sydd ag adnoddau priodol, sydd wedi eu harwain gan anghenion, sydd wedi eu seilio ar gryfderau ac sy'n ymatebol i rywedd ledled Cymru;
- Ymrwymiad i ymgysylltu â goroeswyr, yn cynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn llunio dadansoddiad o anghenion, dylunio gwasanaethau ac ymatebion systemau cyfan;
- Dealltwriaeth o arbenigedd y sector VAWDASV arbenigol er mwyn llunio dadansoddiad o anghenion, dylunio gwasanaethau ac ymatebion system gyfan;
- Ymrwymiad i hawl plant a chydnabod anghenion penodol plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu sy'n dystion i VAWDASV. Yn yr un modd, cydnabod hawliau plant a phobl ifanc o ran rhwystro VAWDASV rhag digwydd iddynt neu effeithio arnynt yn y dyfodol;

[20] Canllawiau Ymgynghori Drafft Llywodraeth Cymru ynghylch comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru - Mawrth 2018

- Ymrwymiad i bartneriaeth gydweithredol a chydradd ar draws asiantaethau priodol er mwyn sicrhau buddsoddi effeithiol mewn ymatebion i VAWDASV a galluogi llwybrau cymorth integredig sy'n hyrwyddo atal ac ymyrraeth gynnar;
- Dylai comisiynu fod yn seiliedig ar yr egwyddor na ddylid gwrthod mynediad i unrhyw oroeswr i wasanaethau cymorth critigol a ddarperir gan lochesi, canolfannau cymorth treisio, unedau Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod a phriodas dan orfod neu ymyriadau a gwasanaethau allweddol eraill. Dylai'r cymorth hwn fod yn seiliedig ar ofynion ac anghenion unigol y goroeswyr pan mae angen iddynt ei dderbyn, ac yn rhesymol o agos at ble maent yn byw. Dylai hyn gynnwys gwell mynediad i lwybrau cymorth integredig er mwyn bodloni anghenion goroeswyr sy'n profi anfanteision niferus;
- Ni ddylid comisiynu ar wahân - mae'n ymwneud â darpariaeth a chysylltiadau prif lif ag awdurdodau lleol, iechyd, addysg, prawf, heddlu ac ati;
- Pan fo gwasanaethau da eisoes yn cael eu darparu, yn unol â safonau cydnabyddedig, dylai comisiynwyr ystyried beth yw'r ffordd orau o hwyluso dilyniant gwasanaethau ar gyfer y goroeswyr sy'n eu defnyddio, gan ystyried goblygiadau tendro ar adnoddau fel y defnyddir ymagwedd gymesur tuag at gomisiynu;
- Comisiynu anghenion i gydnabod a gwerthfawrogi profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth staff gwasanaethau arbenigol, a hwyluso eu cyfranogiad drwy gynllun cyflawni partneriaeth gytunedig ar gyfer datblygu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol nad ydynt yn eu hariannu. Dylai hyn gynnwys y defnydd rheolaidd o gyd-gynhyrchu wrth asesu anghenion, mapio adnoddau, gwasanaeth dylunio ac adolygu;
- Dylai comisiynu sicrhau y dylai model adfer costau llawn dalu am wasanaethau hanfodol a chostau rheoli a gorbenion, yn enwedig oherwydd bod llawer o gyllidwyr elusennol prin yn talu am gostau rheoli a gorbenion.

Mae'r egwyddorion craidd yn seiliedig ar yr adborth canlynol gan randdeiliaid a goroeswyr mewn perthynas â chomisiynu gwasanaethau a sefydlogrwydd, cysondeb a pharhad cyllid yn y rhanbarth;

- Datblygu fframwaith canlyniadau integredig y cytunir arno gan yr holl gomisiynwyr er mwyn sicrhau adrodd cyson, ystyrlon a chymharol
- Mabwysiadu modelau comisiynu sy'n caniatáu hyblygrwydd a datblygiad er mwyn diwallu anghenion newidiol yn hytrach na chyllido rhagnodol sy'n cyfyngu ar greadigrwydd / arloesedd ac sy'n arwain at wasanaethau sy'n gyfyngedig o ran y gwasanaethau y gallant eu darparu.
- Darparu sefydlogrwydd yn y sector o ran cyfnod y contract(au) a chyllid drwy gydol y contract(au) ar gyfer gwasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
- Datblygu model gwasanaethau sydd â meini prawf cymhwysedd sy'n gysylltiedig â chael mynediad i wasanaethau yn seiliedig ar yr angen am

fynediad yn unig, yn hytrach na lefel risg, cymhlethdod neu argaeledd gwasanaethau

- Cydnabod yr ystod lawn o fecanweithiau cyllido sydd ar gael i gomisiynwyr. Mae gan gomisiynwyr rhanbarthol a darparwyr gwasanaethau anghenion adnoddau sylweddol os dilynir y broses dendro yn llawn. Mae gan gomisiynwyr rhanbarthol gyfle o hyd i ddefnyddio arian grant; gall ariannu gwasanaethau drwy ddarparu grantiau fod yn broses symlach a llai cymhleth na gweithio drwy broses gaffael gymhleth.
- Cynnwys goroeswyr fel rhan annatod o'r broses gomisiynu
- Cydnabod arbenigedd y sector Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod arbenigol fel partneriaid yn y broses gomisiynu.
- Cydnabod y cyfleoedd yn y sector Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod arbenigol i ddenu cyllid ychwanegol wedi ei alinio i'r strategaeth
- Yr angen am fwy o gydweithredu rhanbarthol ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector er mwyn canfod a diogelu adnoddau ychwanegol
- Yr holl Wasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod eu rôl fel comisiynwyr gwasanaethau
- Cydnabod yr angen am wasanaethau ac ymyriadau ar draws y continwwm cymorth a datblygu model comisiynu soffistigedig sydd nid yn unig yn galluogi newid dyraniad adnoddau ond sydd hefyd yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynyddu buddsoddiad drwy alinio â blaenoriaethau eraill yn y rhanbarth.
- Cydnabod yr amrywiaeth o gymunedau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru a phwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth fel elfennau annatod wrth gomisiynu gwasanaethau.
- Cydnabod heriau natur wledig wrth gomisiynu gwasanaethau - cydnabyddiaeth o wir gost darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.
- Yr angen am fuddsoddiad teg o adnoddau ar draws y rhanbarth.
- Yr angen i ddatblygu Cynllun Adnoddau a Chyllido VAWDASV Rhanbarthol (yn cynnwys gwariant cyfalaf) er mwyn deall y buddsoddiadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir yn well a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau presennol.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym yn cydnabod yr adnoddau pwrpasol sydd ar gael er mwyn datblygu ein model comisiynu yn cynnwys pecyn Sefydliad Lloyds, Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol a Chanllawiau Comisiynu Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod mai gan bartneriaid y Grŵp Strategol mae'r wybodaeth a'r arbenigedd i arwain comisiynu ar draws y rhanbarth, ac y bydd sefydlu Grŵp Comisiynu sy'n cynrychioli partneriaid ac yn dwyn ynghyd profiadau sgiliau angenrheidiol yn allweddol o ran datblygu a gweithredu ein hegwyddorion a'n

hymagwedd tuag at gomisiynu gwasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

ADRAN 9 - YMATEBION PRESENNOL I GAM-DRIN DOMESTIG, TRAIS RHYWIOL A THRAIS YN ERBYN MENYWOD

Nod yr adran hon yw darparu trosolwg o'r ymatebion presennol i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Darperir dadansoddiad o'r ymatebion cyfredol yn Adran 12 a darperir cynrychiolaeth weledol o ymatebion yn y Mapiau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adran Atodiadau.

Caiff ymatebion cyfredol i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod eu darparu drwy asiantaethau statudol a gwasanaethau arbenigol.

Mae dyletswyddau statudol yn cael eu trefnu drwy wasanaethau cyfiawnder troseddol a sifil, swyddogaethau niferus awdurdodau lleol yn cynnwys tai a digartrefedd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau Tân ac Achub a darpariaeth iechyd sy'n cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae rôl y sector arbenigol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth statudol gan gyflwyno arbenigedd a gwybodaeth nad yw'n bosibl eu cael yn y sector statudol, a'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â dioddefwyr a goroeswyr.

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau generig sy'n darparu cymorth neu ymyriadau i oroeswyr neu gyflawnwyr yn y sector cyhoeddus a/neu'r trydydd sector. Darperir y gwasanaethau hyn gan staff arbenigol sydd â gwybodaeth drylwyr o VAWDASV ac sydd â dealltwriaeth groestoriadol a rhyweddol o VAWDASV.

Yng Nghymru, diffinnir gwasanaethau arbenigol yn y Canllawiau drafft ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.[21]

Ar hyn o bryd mae yna naw o ddarparwyr cymorth arbenigol yn y rhanbarth sy'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer goroeswyr a chyflawnwyr sy'n mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod;

- CALAN DVS
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin
- Gwalia
- Hafan Cymru
- Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn
- Llwybrau Newydd
- Seren

[21]Canllawiau Drafft ar Gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV Llywodraeth Cymru https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-03/180329-services-for-violence-consultation.pdf

- Threshold DAS
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru

Oherwydd bod y sector arbenigol wedi gweithredu'n hanesyddol mewn ardaloedd daearyddol llai, mae rhai gwasanaethau yn gweithredu mewn ardaloedd sy'n llai na'r rhanbarth, ac mae eraill yn fwy diweddar yn darparu gwasanaethau ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

Gwasanaethau Cam-drin Domestig

Darparwyr comisiynu gwasanaethau cam-drin domestig yw CALAN, DVS, Gwasanaethau Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin, Gwalia, Hafan Cymru, Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn, Threshold DAS a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ac ymyriadau ar gyfer goroeswyr, plant a phobl ifanc ar draws y rhanbarth (ar gyfer gwasanaethau i gyflawnwyr a gwasanaethau i blant a phobl ifanc, gweler yn ddiweddarach yn yr adran)

- Gwasanaethau llety - Lloches (darpariaeth ar wahân i ddynion a menywod), Tai Diogel, Unedau Gwasgaredig a Llety â Chymorth
- Cymorth yn y Gymuned - gwasanaethau cymorth fel bo'r angen, allgymorth, galw i mewn, cwnsela a chyfryngu ar gyfer unigolion yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
- Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol - Prif bwrpas ymgynghorwyr trais domestig annibynnol yw mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o niwed gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau'r teulu, er mwyn sicrhau eu diogelwch nhw a'u plant. Drwy fod yn brif bwynt cyswllt i ddioddefwyr, fel arfer mae Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn gweithio gyda'u cleientiaid o adeg yr argyfwng er mwyn asesu lefel y risg, trafod yr ystod o opsiynau addas a datblygu cynlluniau diogelwch[22].
- Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc – gweler yr adran ar wahân isod
- Ymagweddau teulu cyfan - drwy Brosiect Ymyrraeth Gynnar i Deuluoedd a Rhaglen Ysbrydoli Teuluoedd
- Gwasanaethau cwnsela arbenigol
- Gwasanaethau arloesol sy'n ymateb i anghenion a glustnodwyd e.e. gweithwyr Cysylltiad Gwledig yng Nghaerfyrddin a Sir Drefaldwyn, "Gwell am Gyllido"; Prosiect Hyfforddwr Ariannol yn Sir Gaerfyrddin a menter gymunedol "Gofyn i mi" ym Mhowys
- Prosiectau Cynhwysiant Gweithredol - Gweithgaredd achrededig, meithrin sgiliau a chymwysterau er mwyn gwella cyflogadwyedd

[22]Diffiniad Cenedlaethol o waith Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol SafeLives

Gwasanaethau Trais a Cham-drin Rhywiol

- Canolfannau Atgyfeirio Trais Rhywiol yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a'r Drenewydd o dan reolaeth Llwybrau Newydd - darparu gwasanaethau i ddioddefwyr/goroeswyr treisio neu ymosodiad rhywiol p'un a yw'r dioddefwyr / goroeswyr yn dewis riportio hynny i'r heddlu neu beidio.
- Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol – o dan reolaeth Llwybrau Newydd. Mae elfennau allweddol rôl Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol yn cynnwys darparu cymorth wedi'i deilwra er mwyn bodloni anghenion unigolion cyn, yn ystod ac ar ôl proses llys, gan ddarparu gwybodaeth gywir a diduedd a sicrhau diogelwch y dioddefwyr a'r goroeswyr a'u dibynyddion.
- Cwnsela ar gyfer dioddefwyr trais a cham-drin rhywiol ac oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol pan oeddent yn blant wedi'i ddarparu gan Llwybrau Newydd a Seren.

Priodas dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod hyn a elwir yn "Drais ar sail Anrhydedd".

Er nad yw'n cael ei ariannu gan gomisiynwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, darperir cymorth i oroeswyr gan ddarparwyr lleol â llwybrau cyfeirio ar gyfer darpariaeth arbenigol gan BAWSO. Gwasanaeth cenedlaethol yw BAWSO, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cymorth arbenigol ar gyfer goroeswr Trais ar sail Anrhydedd, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod a Phriodas dan Orfod.

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Mae'r ystod gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc gan wasanaethau arbenigol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys:

- Cymorth arbenigol 1-i-1 ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig (mewn llochesi a chymunedau).
- Cwnsela arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin domestig a thrawma gan gynnwys cam-drin rhywiol.
- Cyfryngu ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd
- Therapi chwarae
- Ymarferydd Iechyd Meddwl Plant
- Clwb/Rhaglen STAR – Mae rhaglen STAR yn cynnwys 8 sesiwn annibynnol sydd wedi'u llunio'n benodol er mwyn i bobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion iau edrych ar ddiogelwch, ymddiriedaeth a pharch mewn perthnasoedd. Mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau er mwyn ceisio'u hatal nhw rhag mynd i berthynas lle mae cam-drin domestig yn digwydd neu, os ydynt mewn perthynas lle mae cam-drin yn digwydd, y wybodaeth ynghylch sut i adael y berthynas honno yn ddiogel a chael cefnogaeth.
- Mae rhaglenni wedi'u datblygu yn y rhanbarth sydd wedi eu hanelu at weithio gyda phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol. Mae rhaglen A2P

(Cyngor Sir Caerfyrddin) a Phrosiect Calon Borffor (Threshold DAS) a Break4Change (Cyngor Sir Penfro) yn canolbwyntio ar gymysgedd o gam-drin rhyngdeuluol agos a llencynnaidd.

- Gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) fel aelodau ac arweinwyr o'r panel Tîm o Amgylch y Teulu er mwyn darparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar arbenigol ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Siaradodd rhanddeiliaid am anghysondeb darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn y rhanbarth, a bod cyllid ac adnoddau yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Llinellau Cymorth - Mae gwybodaeth, cymorth a gwasanaeth cyfeirio at wasanaethau lleol ar gael i oroeswyr, cyflawnwyr, gweithwyr proffesiynol ac "eraill cysylltiedig" gan amrywiaeth o Linellau Cymorth Cenedlaethol yn cynnwys Llinell Gymorth Am Ddim Byw Heb Ofn (a reolir gan Gymorth i Ferched Cymru), RESPECT, Prosiect Dyn ac Ymddiriedolaeth y Goroeswyr.

Sefydliadau Ymbarél Cenedlaethol- Mae Cymorth i Ferched Cymru ac Ymddiriedolaeth y Goroeswyr yn sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n cefnogi darparwyr gwasanaethau arbenigol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i oroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod. Fel sefydliadau ymbarél, maent yn ymgyrchu i wella arferion a gwasanaethau i oroeswyr trais a chamdriniaeth a gweithio er mwyn gwella a dylanwadu ar gyfraith a pholisi yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Y Sector Cyhoeddus

Y tu hwnt i'r sector arbenigol, mae gwasanaethau cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu cymorth ac ymyrraeth fel rhan o wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau a dargedir.

Ymateb y System Gyfiawnder

Mae'r Heddlu, ynghyd â Rheoli Troseddwyr Integredig Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cydlynu nifer o ymatebion penodol i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel rhan o'u hymagwedd tuag at reoli troseddwyr, yn cynnwys WISDOM, Pecyn Adnabod Cyflawnwyr Blaenoriaethol (PPIT) a MAPPA.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, yn darparu ymyriadau pwrpasol a chefnogaeth i droseddwyr sydd â chefndir o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, Yr Heddlu sy'n cydlynu'r Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC), ble trafodir achosion risg uchel yr holl bartneriaid er mwyn sefydlu pa gymorth ychwanegol sydd ei angen a chydlynu'r cymorth hwnnw.

Mae MARAC yn gweithredu yn y pedair ardal awdurdod lleol. Mae amledd y MARAC yn y rhanbarth, o dan gadeiryddiaeth Arolygwyr Heddlu Dyfed-Powys, yn amrywio o bob pythefnos i bob mis.

Mae Goleudy, gwasanaeth cymorth dioddefwyr Heddlu Dyfed Powys, yn darparu gwasanaethau cymorth dioddefwyr mewn lleoliad a reolir yn ganolog fel y gellir clustnodi'r cymorth mwyaf priodol a'i ddarparu i ddioddefwyr troseddau. Mae Goleudy yn derbyn yr holl fanylion am ddioddefwyr yn electronig drwy systemau'r Heddlu ac mae'n darparu mecanwaith cydlynu a llwybr at gymorth ychwanegol i ddioddefwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod lle ceir caniatâd.

Mae yna anghysondeb o ran darpariaeth Llysoedd Trais Domestig Arbenigol ar draws y rhanbarth. Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol yn rhan o ymagwedd gydweithredol tuag at fynd i'r afael â chymhlethdodau trais a cham-drin domestig. Dylai'r Llysoedd Trais Domestig Arbenigol ddod â Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Llysoedd, yr Heddlu, cymorth dioddefwyr a'r gwasanaethau arbenigol at ei gilydd er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y dioddefwr drwy glustnodi, tracio ac asesu risg yr achos, cynorthwyo'r dioddefwr a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Dangosir bod Llysoedd Trais Domestig Arbenigol effeithiol yn cynyddu canlyniadau diogel i oroeswyr, yn cynyddu euogfarnau ac yn lleihau cyfraddau gadael a thynnu'n ôl mewn achosion. Mae Llysoedd Trais Domestig Arbenigol yn cynnig amrywiaeth o fesurau ychwanegol i ddioddefwyr a thystion yn cynnwys yr opsiwn o ddarparu tystiolaeth o du ôl i sgriniau neu drwy gysylltiad fideo, ac mae rôl y Cynghorydd Trais Domestig Annibynnol yn gritigol yn y broses hon.

Mae'r Prosiect Braenaru i Fenywod yn ddull integredig, amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar fenywod o weithio â menywod a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ac sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu gan Gwalia yn Sir Benfro mewn partneriaeth â phartneriaid cyfiawnder troseddol.

Gofal Cymdeithasol

Mae Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn darparu gofal a chymorth i oedolion a phlant sy'n wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, ac mae ganddynt amrywiaeth o wasanaethau ataliol a chymorth y gall y rhai sydd wedi dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod gael mynediad iddynt yn cynnwys; cwnsela ar-lein, cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau ieuenctid.

Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru wedi cefnogi datblygiad model Tîm o Amgylch y Teulu (TAF). Mae'r model hwn yn ymdrechu i asesu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd, ac mae'n defnyddio pecyn cymorth cydlynol ar sail canlyniadau er mwyn helpu i fodloni eu hanghenion ac atal anawsterau rhag gwaethygu.

Ar gyfer teuluoedd sydd â lefelau uwch o angen mae'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol statudol i Blant yn darparu gwasanaethau critigol er mwyn diogelu plant. Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd a ddatblygwyd yn genedlaethol, sy'n cael ei weithredu ym mhob awdurdod, yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth dwys i deuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau yn ffactor

sylweddol a lle'r oedd plant yn wynebu risg o gael eu rhoi mewn gofal. Yn aml mae Camddefnyddio Sylweddau a Cham-drin Domestig yn cyd-ddigwydd yn y teuluoedd cymhleth hyn, ac o ganlyniad mae nifer o dimau Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi ymestyn eu cylch gwaith er mwyn cynnwys Cam-drin Domestig.

Mae Awdurdodau Lleol, mewn partneriaeth ag Iechyd yn darparu Ymarferwyr Arbenigol yn nhimau Dechrau'n Deg ac yn Sir Gaerfyrddin, mae dau Weithiwr Prosiect Cam-drin Domestig yn y Gwasanaethau Plant.

Mae modelau megis "Arwyddion o Ddiogelwch" yn darparu offer ar sail cryfder er mwyn asesu angen ac yn cynorthwyo teuluoedd i wneud newid cadarnhaol.

Mae datblygu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth ar draws y rhanbarth yn darparu cyfle i ymgorffori Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod mewn "busnes craidd".

Iechyd

Mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn y ddau fwrdd iechyd lleol yn cael ffocws drwy strwythurau diogelu. Mae ymholiadau rheolaidd mandadol yn cael eu cynnal drwy'r gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymweliadau iechyd yn ogystal â rhai gwasanaethau iechyd rhywiol, damweiniau ac achosion brys ac iechyd menywod.

Mae'r ddau Fwrdd Iechyd yn defnyddio Llwybr Clinigol Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod Cymru Gyfan yn unol â gofynion riportio mandadol.

Yn ehangach o fewn y byrddau iechyd, bodlonir anghenion iechyd goroeswyr a chyflawnwyr ac mae'r cysylltiadau ag effeithiau a chanlyniadau hirdymor Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael eu teimlo'n acíwt e.e. anafiadau, cwnsela ac ymyriadau therapiwtig, archwiliadau meddygol mewn perthynas â thrais ac ymosodiadau rhywiol, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Fel rhan o bolisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Bwrdd Iechyd Hywel Dda, sefydlwyd llwybr gofal gyda Llinell Gymorth Byw Heb Ofn; mae'n darparu pwynt atgyfeirio uniongyrchol ar gyfer gwybodaeth a llwybrau i gefnogi staff a chleifion. Y bwriad yw i'r llwybr hwn gael ei beilota yn 2018.

Fel awdurdod perthnasol at ddiben y Ddeddf, mae gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru Lwybr Gofal Cymru Gyfan yn barod, sy'n darparu cyfle i unigolion ddatgelu trais a cham-drin a chael mynediad i wybodaeth a chymorth drwy linell gymorth Byw Heb Ofn. Cyn bo hir, bydd y Gwasanaeth, mewn partneriaeth â SafeLives yn peilota menter yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn ystyried beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â phroses MARAC.

Gwasanaethau Tân ac Achub

Mae Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig diweddar yng Nghymru wedi amlygu rôl allweddol y Gwasanaethau Tân ac Achub o ran atal a diogelu unigolion sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.[23] Mae Gwasanaethau

[23]Gweler Adolygiad o Ddynladdiadau Domestig Pen-y-bont ar Ogwr 0213 a Thorfaen i farwolaeth Mrs B.

Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu gwiriadau diogelwch yn y cartref ac yn targedu offer gwella diogelwch er mwyn diogelu unigolion rhag bygythiadau o drais a cham-drin.

Tai a Chymorth Cysylltiedig â Thai

Ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn buddsoddi tua £1.7 miliwn mewn gwasanaethau ar gyfer menywod a dynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys darparu lloches i ddynion a menywod, cymorth fel bo'r angen, gwasanaethau galw heibio, cymorth i'r teulu a gwella diogelwch. Hefyd, mae cyllid y rhaglen ar draws y rhanbarth yn galluogi i bobl dderbyn cymorth ychwanegol sy'n lleihau'r risg iddynt fod yn ddigartref, yn cynnwys cymorth ariannol uniongyrchol a chymorth i bobl ag anghenion sydd yn aml yn cyd-ddigwydd â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, dyled etc.

Mae'r fframwaith cynllunio Cefnogi Pobl a fabwysiadwyd ar draws y rhanbarth yn ystyried anghenion y boblogaeth, gwybodaeth am berfformiad, mewnbwn rhanddeiliaid, adborth defnyddwyr gwasanaeth, arferion gorau, ac ysgogwyr cyfreithiol a pholisi. Mae cynlluniau'n bodoli ar lefel ranbarthol ac mewn Cynlluniau Comisiynu Lleol.

Siaradodd goroeswyr am yr angen am amrywiaeth o opsiynau llety diogel er mwyn diwallu anghenion unigolion a theuluoedd, a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae rhai unigolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd e.e. teuluoedd mwy, unigolion ag anghenion cymhleth, unigolion sy'n gweithio.

Siaradodd goroeswyr am brofiadau cadarnhaol gyda gwasanaethau tai o ran adleoli'n gyflym a diogel tra bod eraill wedi egluro y cynigwyd tai iddynt oedd yn agos i gyflawnwyr camdriniaeth.

Roedd goroeswyr hŷn yn pwysleisio'r diffyg tai diogel a phriodol ar gyfer diwallu eu hanghenion pan mai'r dewis arall oedd aros mewn sefyllfa gamdriniol;

"unman i fynd iddo"

"gorfod byw gyda'n gilydd tan y setliad ariannol"

"byw mewn hunllef tan y gwrandawiad llys"

Gwasanaethau i Gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod

Mae'r Heddlu, ynghyd â Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn cydlynu nifer o ymatebion penodol i gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel rhan o'u hymagwedd tuag at reoli troseddwyr, yn cynnwys WISDOM, Pecyn Adnabod Cyflawnwyr Blaenoriaethol (PPIT) a Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, yn darparu ymyriadau pwrpasol a chefnogaeth i droseddwyr sydd â chefndir o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Hefyd, yn ychwanegol i'r rhain mae yna un rhaglen i gyflawnwyr yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig sy'n gweithio ar gyrraedd safonau ansawdd ac achrediad Respect ar gyfer rhaglenni cyflawnwyr diogel ac effeithiol.

Mae Rhaglen Dewisiadau i Gyflawnwyr, sy'n rhan o'r Prosiect Ymyrraeth Gynnar i Deuluoedd (E-FIP) ehangach, yn cael ei darparu gan Threshold DAS yn Llanelli, ac mae ar gyfer dynion dros 18 oed sydd eisiau newid eu hymddygiadau a'u credoau camdriniol. Mae'r rhaglen, a ddarperir dros 34 wythnos ac sy'n cynnwys 60 awr o ymyriadau strwythuredig iawn, yn cael ei darparu mewn grwpiau ac ar sail un i un. Fe'i dyluniwyd yn arbennig i herio dealltwriaeth dynion o gam-drin a pherthnasoedd a lleihau trais domestig, dysgu ffyrdd o beidio bod yn gamdriniol a chynorthwyo newid cadarnhaol dros gyfnod o amser.

Mae rhaglen "Respect" a gynhelir yn Sir Benfro gan y Tîm o Amgylch y Teulu yn gweithio gyda chyflawnwyr camdriniaeth, ond nid yw'n achrededig.

Hyfforddiant

Mae cyfres o hyfforddiant amlasiantaeth yn cael ei ddarparu gan y sector arbenigol ar draws y rhanbarth sy'n codi ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Yn ychwanegol at hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol perthnasol, yn cynnwys pob Awdurdod Lleol, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG a Gwasanaethau Tân ac Achub weithredu Fframwaith Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod Llywodraeth Cymru, a sefydlu cynlluniau hyfforddiant ac adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut mae'n cael ei weithredu.

Perthnasoedd Iach ac Addysg

Ar draws y rhanbarth mae yna amrywiaeth o raglenni cyffredinol yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc yn cynnwys Blynyddoedd Rhyfeddol, KiVA a Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan a ddarperir gan yr Heddlu a phartneriaid.

Mewn ysgolion, mae sesiynau perthnasoedd iach yn cael eu darparu'n bennaf fel rhan o Raglen Sbectrwm Hafan Cymru neu drwy raglen STAR (Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch) Cymorth i Ferched Cymru a ddarperir gan ddarparwyr arbenigol ledled y rhanbarth. Mae rhaglen STAR yn cael ei defnyddio hefyd gan Wasanaethau Ieuenctid a Thimau Troseddwyr Ifanc yn y rhanbarth.

Yn 2016/17 darparwyd 533 o sesiynau SBECTRWM ar draws y rhanbarth i dros 6700 o ddisgyblion a 516 o aelodau staff.

Hefyd, mae gan ysgolion ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru eu darpariaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Rhyw a Pherthnasoedd eu hunain, ac adnoddau ar-lein sy'n ymwneud â pherthnasoedd parchus ac iach y gallent gael mynediad iddynt ar eu cyflymder eu hunain.

Mae Arweinwyr Diogelu Addysg Canolbarth a Gorllewin Cymru yn allweddol o ran hyrwyddo a monitro ymagweddau tuag at weithredu "Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod - Dull Addysg Gyfan" Llywodraeth Cymru drwy Archwiliadau Diogelu Addysg.

Mae'r ymagwedd ranbarthol tuag at addysg Perthnasoedd Iach yn cael ei harchwilio ymhellach ym Mlaenoriaeth Strategol 2.

Prosiectau yn y rhanbarth i'w hystyried wrth ystyried ymateb rhanbarthol cyffredinol i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod

Prosiect Dewis - Mae Prosiect Dewis sy'n cael ei gynnal rhwng 2015 a 2018 yn cael ei ddarparu gan Brifysgol Aberystwyth. Gan weithio mewn partneriaeth â phobl hŷn, gwirfoddolwyr, cymunedau lleol a gweithwyr proffesiynol mewn dwy ardal beilot (Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd, diben y prosiect yw cynyddu dewisiadau i bobl hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth yn y cartref o ran cael mynediad i gyfleoedd sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ac archwilio opsiynau sy'n hyrwyddo llesiant.

Mae'r prosiect wedi cael ei ddatblygu o'r dystiolaeth ganlynol

- Yn aml, nid yw llawer o bobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth yn eu cartrefi eu hunain yn gwybod sut mae canfod pa fath o help a chymorth sydd ar gael iddynt.
- Nid yw llawer eisiau cynnwys yr heddlu neu erlyn rhywun drwy achos llys sifil felly nid oes ateb arall ar gael iddynt, ac nid oes neb ar gael i ymdrin â'u hachos.
- Mae'r math yma o gam-drin ymysg yr henoed yn gymhleth iawn, ac yn aml mae'n cynnwys cyflawnydd sydd yn aelod o'r teulu, pan fo'r person hŷn efallai'n gyndyn o geisio gwneud unrhyw beth i stopio'r gamdriniaeth oherwydd y byddai hynny yn achosi straen ar y teulu ehangach, yn creu rhaniad yn y teulu o bosibl ac yn eu hamddifadu o gymorth teuluol.

Mae'r prosiect yn amcanu at ddarparu opsiynau a datrysiadau newydd sy'n adlewyrchu anghenion yr unigolyn sy'n cael ei gam-drin ac sydd wedi eu teilwra'n fwy ar gyfer y gwasanaethau lleol sydd ar gael yn eu hardal. Ym mhob ardal beilot mae'r ymyrraeth a'r gwasanaeth cymorth "cofleidiol" yn amcanu at ddarparu pecyn cyfiawnder holistig gyda phwyslais ar ddiogelwch a darparu amrywiaeth o opsiynau cyfiawnder.

Men's Sheds **-** Ar hyn o bryd, ceir 8 o siediau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Grwpiau neu fentrau cymdeithasol yw *Men's Sheds* sydd wedi eu sefydlu mewn cymunedau lleol er lles dynion. Mae'r prosiect yn hwyluso cymorth i ddynion er mwyn creu hafan ddiogel, taclo arwahanrwydd a chymorth i ymgymryd â diddordebau. Mae pob grŵp yn rheoli ei hun, yn cynnal ei hun ac yn gynaliadwy.

Prosiect ACE Cymru Gyfan "Camau Cynnar Gyda'n Gilydd"

Mae'r prosiect 2 flynedd hwn, a ariennir gan Gronfa Drawsnewid yr Heddlu y Swyddfa Gartref, yn amcanu at sefydlu ymagwedd lens ACE ar draws asiantaethau sy'n bartneriaid a phlismona. Mae'r prosiect cenedlaethol yn amcanu at gyflawni pedwar amcan;

- Gweithlu cymwys a hyderus ar gyfer ymateb yn fwy effeithiol i fregusrwydd gan ddefnyddio ymagwedd a lywiwyd gan ACE tuag at blismona cyflym ac araf.

- Capasiti a chymhwysedd sefydliadol sy'n rhagweithiol yn diwallu galw newidiol.
- 'Drws ffrynt' sengl integredig 24/7 ar gyfer bregusrwydd sy'n cyfeirio, cynorthwyo a diogelu gan gwmpasu gwasanaethau llesiant ac iechyd 'golau glas'.
- Ymateb system gyfan i fregusrwydd drwy weithredu ymagweddau a hysbysir gan ACE ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol.

Bydd pob Heddlu yng Nghymru yn clustnodi ymagwedd thematig ac yn datblygu safle mabwysiadwyr cynnar er mwyn llywio dysgu cenedlaethol.

Mae trosolwg o'r ddarpariaeth bresennol wedi ei gyfuno â phrofiadau goroeswyr a rhanddeiliaid yn amlygu'r canlynol;

- Er bod amryw o wasanaethau ar waith yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ar draws y continwwm angen, mae yna ddiffyg ymagwedd gyson a chydlynol tuag at gynllunio, comisiynu a darpariaeth, ac mae hynny yn arwain at ddarpariaeth "loteri cod post."
- Ni all gwasanaethau Trais Rhywiol yn y rhanbarth ateb y galw presennol ac mae ganddynt restrau aros sylweddol.
- Mae yna fylchau sylweddol yn narpariaeth gwasanaethau cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc sydd wedi dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
- Diffyg cysondeb ac argaeledd ymyriadau diogel ar draws y rhanbarth sydd wedi eu hanelu at sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol, a darparu cyfleoedd i newid ymddygiadau.
- Angen canolbwyntio mwy ar egwyddorion y gwasanaethau yn hytrach na meini prawf cymhwysedd yn seiliedig ar risg, cymhlethdod neu argaeledd gwasanaethau.
- Ymagweddau gwasanaeth cyhoeddus a sector arbenigol heb eu cydlynu sy'n arwain at ddryswch, "gorlwytho" ymateb a dyblygu gwasanaethau mewn rhai ardaloedd.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon yn disgrifio amrywiaeth o wasanaethau gaiff eu gweithredu ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru o ataliaeth sylfaenol i adferiad, ac mae'n cynnwys ymyrraeth cyflawnwyr. Fodd bynnag yr hyn sy'n amlwg yw diffyg ymagwedd gyson neu gydlynol i gynllunio, comisiynu neu ddarparu gwasanaethau gyda llawer o wasanaethau mewn perygl o ariannu tymor byr. Y tu hwnt i fframwaith Cefnogi Pobl a rhwymedigaethau cyllido Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, cyfyngedig yw'r cynllunio gwasanaethau, a gall fynediad i ddarpariaeth arbenigol ddibynnu ar leoliad y goroeswr yn hytrach nag angen yr unigolyn gan arwain at ddarpariaeth "loteri cod post."

ADRAN 10 - YMATEBION I HOLL OROESWYR CAM-DRIN DOMESTIG, TRAIS RHYWIOL A THRAIS YN ERBYN MENYWOD[24]

Mae ein cymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn amrywiol ac mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gall unrhyw un ddioddef camdriniaeth ddomestig, treisio ac ymosodiad rhywiol, cam-drin rhywiol, priodas dan orfod, cam-drin plant yn rhywiol, ystelcian ac aflonyddu, aflonyddu rhywiol a chamfanteisio, ac y gall hynny effeithio ar unrhyw un beth bynnag fo'u rhyw, oed, ethnigrwydd, rhywedd, rhywioldeb, anabledd, crefydd neu gred, incwm, daearyddiaeth neu ffordd o fyw.

Wrth ystyried pwy sy'n profi Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, byddwn yn sicrhau y gall gwasanaethau ymateb yn briodol i grwpiau gwahanol o'r boblogaeth ble mae darpariaeth arbenigol ar gael, pan fo'n briodol.

Menywod

Mae'n gyfreithiol ofynnol i bob awdurdod lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon ar sail rhyw, a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng dynion a menywod. Mae hynny'n golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydnabod nad yw'r ddau grŵp yn dechrau ar dir gwastad ac na fydd triniaeth gyfartal yn briodol bob amser. Mae gwasanaethau un rhyw yn gyfreithiol pan fo'r angen yn amlwg, ac nid yw dyletswyddau cydraddoldeb yn golygu y dylid torri ar wasanaethau un rhyw, ac na ddylai gwasanaethau gael eu darparu ar yr un raddfa o reidrwydd i ddynion a menywod fel cydnabyddiaeth o'r ffaith mai menywod yw'r mwyafrif o ddioddefwyr trais domestig a threisio a cham-drin rhywiol.

Plant a Phobl Ifanc

Ers 2004 mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid ystyried Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) fel sail i'w gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae trais yn erbyn menywod a phlant, yn cynnwys cam-drin domestig neu drais rhywiol mewn unrhyw uned deuluol yn fater diogelu plant a dylid delio â hynny drwy ddefnyddio'r gweithdrefnau diogelu perthnasol. Mae gan nifer o oroeswyr blant, ac mae'n rhaid i sicrhau llesiant y plant hynny fod yn flaenoriaeth i wasanaethau cyhoeddus a'r dioddefwr.

Mae angen i ni sicrhau y gall yr holl asiantaethau sy'n bartneriaid adnabod plant sydd yn wynebu risg fel y gellir cymryd camau priodol.

Mae'n hanfodol sicrhau bod gwasanaethau a chymorth sy'n briodol i oedran ar gael yn gyson i blant sydd eu hangen.

---

[24]Darnau o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod 2016-20 tudalen 12-15.

Dynion

- Amcangyfrifir bod 1.2 miliwn o fenywod a 713,000 o ddynion sy'n oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi dioddef camdriniaeth ddomestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn diweddu ym Mawrth 2017.[25]
- Mae cymhwyso'r data hwn i Gymru yn dangos bod 11% o fenywod a 5% o dynion yn dioddef 'rhyw fath o gam-drin domestig'.

Yn aml mae'n anodd i ddynion gael help o dan yr amgylchiadau hyn oherwydd pryderon am gael eu gwawdio, na fydd neb yn eu credu neu gael eu trin yn annheg gan asiantaethau. Siaradodd goroeswyr gwrywaidd hefyd am beidio â gwybod ble i fynd am gymorth neu wybodaeth.

Ar ôl cael mynediad i wasanaeth arbenigol ym Mhowys, disgrifiodd un goroeswr gwrywaidd yr ymateb a gafodd fel:

"di-duedd, gwnaethant wrando a chynnig opsiynau a dewisiadau."

Siaradodd goroeswyr gwrywaidd am ganfyddiadau ac ymatebion gan deulu, ffrindiau, cymunedau a gweithwyr proffesiynol a'r ffaith nad oedden nhw'n deall effaith a chanlyniadau perthynas gamdriniol.

Er y cydnabyddir bod gwasanaethau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaethau i ddynion, siaradodd goroeswyr gwrywaidd am yr angen am lefydd diogel penodol ar wahân er mwyn cael mynediad i wybodaeth a chymorth fel goroeswyr gwrywaidd yn hytrach na sefydliadau a oedd yn darparu gwasanaethau i ddynion a menywod.

Siaradodd dynion am

"anhawster cael mynediad i wasanaethau" a "tharo'n erbyn waliau brics wrth geisio cael mynediad i wasanaethau"

Dywedodd un dyn

"Mae dynion yn dod yn ddioddefwyr - nid ydynt yn derbyn dim er mwyn bod yn oroeswyr"

Mewn arolwg diweddar[26], pan ofynnwyd iddynt sut y byddent yn hoffi cael mynediad i gymorth, roedd ymatebwyr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru eisiau lle penodol ar gyfer galw heibio, gwybodaeth a chymorth sydd ar wahân i wasanaethau ar gyfer menywod. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn Adran "Goroeswyr fel Arbenigwyr" yn cynnwys blaenoriaethau a nodwyd gan oroeswyr gwrywaidd yn cynnwys; cefnogaeth i wella ar ôl trawma e.e. gwasanaethau cwnsela ac iechyd meddwl, cymorth ymarferol, man diogel, eiriolaeth, mentora a chymorth cymheiriaid a chymorth i gadw eu plant yn ddiogel.

[25] Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr
[26] https://www.fnf-bpm.org.uk/image/upload/branch/cymru/WELSH_DADS_SURVEY_2017_report_FINAL.pdf

Pobl Hŷn

Weithiau mae yna ddryswch rhwng dioddef cam-drin domestig wrth fynd yn hŷn a "cham-drin henoed" (term sy'n cwmpasu pob math o drais, camdriniaeth ac esgeulustod y mae pobl hŷn yn ei ddioddef). Gall dryswch o'r fath olygu bod dioddefwyr camdriniaeth yn disgyn rhwng y systemau sydd wedi eu dylunio i gynnig gwarchodaeth iddynt, ac o ganlyniad i hynny nid ydynt yn derbyn cymorth priodol i'w helpu i stopio'r gamdriniaeth neu i'w gwneud yn ddiogel.

Mae ystadegau yn amlygu hynny; mae data diweddaraf y Swyddfa Gartref yn dangos bod 28 o bobl hŷn (60+ oed) wedi cael eu lladd yng Nghymru a Lloegr gan aelod o'r teulu[27]. Roedd hynny yn cynrychioli 24% o'r holl ddioddefwyr. Fodd bynnag, roedd riportio digwyddiadau o gam-drin domestig a oedd yn ymwneud â phobl hŷn yn cyfateb i 4% o'r holl ddigwyddiadau a riportiwyd. Yng Nghymru mae pobl hŷn yn cynrychioli 33% o ddynladdiadau domestig.

Wrth i ni weithio tuag at wella ac atgyfnerthu rôl ein Gwasanaethau Cyhoeddus o ran atal y problemau hyn, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio ar ddatrys dryswch o'r fath ac yn sicrhau bod ein systemau a'n perthnasoedd gwaith yn cael eu hintegreiddio a bod gwybodaeth a set sgiliau ein cyflogeion yn cael eu defnyddio ar gyfer canfod camdriniaeth cyn gynted â phosibl a darparu cymorth effeithiol wedi'i deilwra cyn gynted â phosibl. Mae'n hanfodol y gall y rhai sy'n gweithio â phobl hŷn adnabod arwyddion camdriniaeth a'u bod yn gallu cynnig cyngor priodol.

Gall dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fod yn hyd yn oed mwy niweidiol i ddioddefwyr pan fo'n digwydd ochr yn ochr ag anghenion a nodweddion bregus cymhleth eraill. Er ei bod yn anghywir homogeneiddio pobl hŷn fel pobl "agored i niwed" neu "fregus", mae'n bwysig bod Gwasanaethau Cyhoeddus a darparwyr arbenigol yn barod ac yn gallu cysylltu systemau diogelu gyda'i gilydd er mwyn cynnig cymorth sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion y gall person hŷn sy'n dioddef trais a chamdriniaeth ei wynebu.

Wrth ystyried a yw gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl hŷn, byddwn yn ystyried canfyddiadau allweddol prosiect Dewis hyd yma, sef;

- bod pobl hŷn yn disgyn drwy'r bwlch rhwng dau ddarn o ddeddfwriaeth Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a Deddfau Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant.
- nid yw pobl hŷn yn cael mynediad i wasanaethau a dyma'r grŵp lleiaf tebygol i riportio camdriniaeth.
- nid yw'r gwasanaethau presennol yn addas ar gyfer pobl hŷn.
- yr angen am Berthnasoedd Iach wrth fynd yn hŷn.
- yr angen am wasanaethau holistig "teulu cyfan", sefydlu rhwydweithiau cadarnhaol a chynyddu gofod gweithredu i oroeswyr.

[27] Mynegai Dynladdiadau, Y Swyddfa Gartref, 2011/12 i 2014/15 14

Cymunedau du a lleiafrifol

Mae ymchwil wedi canfod bod:

"Mae gwahanol fathau o gamdriniaeth yn effeithio'n anghymesur ar fenywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig e.e. priodas dan orfod, "trais ar sail anrhydedd", anffurfio organau cenhedlu menywod, camfanteisio'n rhywiol ar ffurf gwaith rhyw masnachol, masnachu pobl ac ati ac mae'r nodweddion bregus lluosog sy'n deillio o'r cyd-destunau troshaenol hyn yn ei gwneud yn anoddach i fenywod ddianc rhag trais." [28]

Gall goroeswyr wynebu rhwystrau ychwanegol rhag ceisio cymorth, megis gwahaniaethu ar sail rhyw, stereoteipio crefyddol, ofni gwarth a gwrthodiad gan y gymuned, a statws mewnfudo ansicr, a gall y cyfan eu hatal rhag cael mynediad i warchodaeth. Hefyd, mae goroeswyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn debygol o wynebu rhwystrau wrth dderbyn neu ofyn am wasanaethau, yn cynnwys:

- Diffyg gwybodaeth ac ymwybyddiaeth am wasanaethau ac opsiynau o ganlyniad i rwystrau ieithyddol a diffyg rhwydweithiau cymunedol cyfarwydd.
- Statws mewnfudo ansicr a dim ffordd o dderbyn arian cyhoeddus.
- Cyfranogiad aelodau'r teulu o ran cyfieithu a chymorth i gael mynediad i wasanaethau sy'n tanseilio cyfrinachedd ac sy'n gwaethygu'r risg o niwed.
- Pwysau cymdeithasol a gan deulu mewn perthynas ag anrhydedd a gwarth. Mewn achosion o'r fath, mae menywod yn teimlo na fydd eu profiadau yn cael eu dilysu mewn cyd-destun dieithr a phrif lif.
- Pryderon am amgylchedd diwylliannol addas ar gyfer gweddïo, arferion bwyd crefyddol gymdeithasol penodol ac amgylchedd cyfarwydd i blant mewn llety dros dro. Mae menywod duon a menywod o leiafrifoedd ethnig nid yn unig yn ofni'r cyflawnydd, ond hiliaeth ac ymyleiddio cymdeithasol hefyd sy'n tanseilio eu hyder i fyw bywydau annibynnol.
- Ofni arwahanrwydd a hiliaeth mewn gwasanaeth prif lif.
- Mwy o debygolrwydd y bydd cyflawnwyr yn defnyddio mathau eraill o gamdriniaeth e.e. bygwth allfudo neu adael, arwahanrwydd, caethiwo, partïon lluosog â buddiant, a thrais yn cael ei oddef gan deulu a'r gymuned.

4.6% yw'r boblogaeth bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yng Ngorllewin a Chanolbarth Cymru, a daw 3.4% o'r atgyfeiriadau i MARAC o achosion pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ond, nid oes yna wasanaeth pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig arbenigol yn cael ei ariannu yn y rhanbarth i ymateb i anghenion cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

[28] Roy. S a Ravi.T (2012 Vital Statistics Key finding report on black, minority ethnic and refugee women's and children's experiences of gender based violence (Llundain) Imkaan

Menywod sy'n ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Bu i ddarparwyr siarad am eu gallu i gynorthwyo menywod sy'n ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd wedi dioddef, neu sydd yn dioddef trais yn erbyn menywod ac nad oes ganddynt ffordd o dderbyn arian cyhoeddus. Yn aml effeithir ar y grŵp hwn gan faterion megis Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod, yn ogystal â phroblem gymhleth cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall problemau fisa, diwylliannol, ieithyddol a chyfathrebu greu mwy o gymhlethdod ac ynysu'r menywod hyn.

Oherwydd rhwymedigaeth y rhanbarth i adsefydlu 100 o deuluoedd Ffoaduriaid mae angen i ni sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i gymunedau o ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a bod llwybrau i gymorth priodol yn cael eu clustnodi.

Pobl anabl

Mae pobl anabl yn dioddef lefelau anghymesur o uchel o gam-drin domestig ac maent hefyd yn dioddef cam-drin domestig am gyfnodau hirach, a chamdriniaeth fwy difrifol a rheolaidd na phobl nad ydynt yn anabl. Mae menywod anabl yn ddwywaith fwy tebygol o ddioddef trais domestig na menywod nad ydynt yn anabl, ac maent yn debygol o ddioddef camdriniaeth am gyfnodau hirach ac o ddioddef mwy o gamdriniaeth ac anafiadau o ganlyniad i gamdriniaeth na dynion anabl.

Cam-drin yn y Gweithle

Yn aml mae gan gyflogeion sy'n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, neu drais rhywiol broblemau sy'n gysylltiedig â pherfformiad neu maent yn absennol o'r gwaith, a gall cyflawnwyr dargedu eu dioddefwyr yn aml yn y gweithle neu geisio cyfyngu ar eu mynediad i waith. Bu i adroddiad diweddar ganfod bod 52% o fenywod wedi dioddef aflonyddu rhywiol yn y gwaith yn cynnwys sylwadau amhriodol, ymddygiad digroeso neu gynigion rhywiol[29]. Mae hynny yn effeithio ar weithgaredd busnes y cyflogwr yn ogystal â llesiant y gweithiwr. Felly gall cyflogwyr chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â'r materion hyn ymysg eu gweithlu.

Y Diwydiant Rhyw, Camfanteisio a Masnachu Pobl

Gall pobl sy'n ymwneud â gwaith rhyw fod yn arbennig o agored i drosedd rhywiol neu droseddau treisgar eraill, ac mewn gwirionedd gallent fod yn ddioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant neu gaethwasiaeth fodern. Ein blaenoriaeth yn y cyd-destun hwn yw sicrhau gwarchodaeth briodol a mynediad i wasanaethau cymorth ar gyfer y grŵp hwn sy'n aml yn agored i niwed.

LGBT+

Bu i Lywodraeth Cymru ariannu ymchwil yn 2014 a oedd yn amlygu'r rhwystrau a wynebwyd gan bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol wrth geisio mynediad i wasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bu i'r adroddiad amlygu rhwystrau unigol, rhyngbersonol, strwythurol a diwylliannol a chynnig cyfres o

[29] TUC ac Everyday Sexism Report 2016

argymhellion er mwyn gwella mynediad i wasanaethau, yn cynnwys hyblygrwydd, mynediad cyfrinachol a chynhwysiant.

Goroeswyr benywaidd sy'n troseddu

Rydym yn gwybod y gall nifer o ddioddefwyr camdriniaeth rhywiol, corfforol ac emosiynol gael eu denu at ymddygiad troseddol. Yn ystadegol dangosir bod menywod sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol yn fwy tebygol o fod wedi dioddef rhyw fath o gamdriniaeth yn ystod eu plentyndod, ac mae nifer hefyd yn adrodd eu bod yn troseddu er mwyn cynnal arferion camddefnyddio sylweddau eu partneriaid neu rywun arall. Mae menywod yn dueddol o gael dedfrydau byrrach na dynion, ac maent yn fwy tebygol o hunan-niweidio yn y ddalfa. Mae Cynllun Braenaru i Fenywod partneriaeth Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru yn cynnig cyfle i ddefnyddio ymagwedd fwy effeithiol a chydlynol o fynd i'r afael ag anghenion cymhleth y menywod hyn.

Sipsiwn a Theithwyr[30]

Nid oes ystadegau dibynadwy ar gael mewn perthynas â chyffredinedd Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod mewn Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ond bu i astudiaeth yn 2007 yn Wrecsam ganfod bod 61% o'r menywod Sipsiwn Saesnig a oedd wedi priodi ac 81% o'r menywod Sipsiwn Gwyddelig a gyfwelwyd wedi dioddef cam-drin domestig.

Mae menywod Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu rhwystrau rhag gadael perthynas gamdriniol a cheisio cymorth, a mwy o heriau pan geir cymorth, yn cynnwys;

- Y gymuned Sipsiwn a Theithwyr fel rhwystr rhag ceisio help
- Materion hygyrchedd e.e. cyfraddau llythrennedd isel, cysylltu â gwasanaethau
- Tabŵs diwylliannol a chymdeithasol
- Profiadau o anghydraddoldeb a hiliaeth

Yn yr adroddiad ar Gyfrifiad Carafanau Sipsiwn a Theithwyr a gyhoeddwyd ym Medi 2017, roedd cyfanswm o 237 o garafanau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Rydym wedi cydnabod bod rhaid i'n dulliau ymgysylltu â dioddefwyr er mwyn gwella ein dealltwriaeth o angen a hysbysu datblygiad gwasanaethau yn barhaus fod yn gynhwysol. Wrth ddatblygu ein fframwaith ymgysylltu â dioddefwyr rhanbarthol, byddwn yn ystyried mecanweithiau presennol allai ein galluogi i atgyfnerthu ein dulliau ymgysylltu â'r grwpiau hyn a glustnodwyd e.e. rhwydweithiau Cydlyniant Cymunedol, Byrddau Diogelu Ieuenctid rhanbarthol a lleol, Grwpiau cymunedol a phartneriaid academaidd, ac archwilio ffyrdd creadigol i unigolion allu ymgysylltu a chyfrannu.

[30]Llyfrgell Cymru Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cam-drin Domestig a Theithwyr Sipsi

ADRAN 11 - LLYWODRAETHIANT AC ARWEINYDDIAETH

Mae angen arweiniad cryf er mwyn ymgorffori Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel "busnes i bawb", ac mae angen i bob maes polisi cyhoeddus fynd i'r afael â'r mater. I fod yn "fusnes i bawb", mae'n rhaid i sefydliadau a phartneriaethau lleol a rhanbarthol ystyried a chynnwys cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod mewn dyraniadau cyllideb a strategaethau cyfredol a datblygol. Oherwydd hynny, mae'n rhaid i berchnogaeth ar y strategaeth hon fod ar y lefel uchaf er mwyn sicrhau bod partneriaid yn gydnerth o ran eu cyfranogiad strategol, ac er mwyn sicrhau y ceir cyfraniad sylweddol tuag at siapio a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y bobl yr effeithir arnynt.

Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n gyfrifol am gyfeiriad a throsolwg strategol y strategaeth hon.

Sefydlwyd Grŵp Strategol sy'n atebol i'r Weithrediaeth Strategol ranbarthol er mwyn darparu strwythur llywodraethu i ddatblygu, cymeradwyo a monitro gwaith rhanbarthol ar Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Un o rolau allweddol y Grŵp yw datblygu'r Strategaeth sydd yn statudol ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ei wneud o dan Adran 5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Er mwyn cydnabod bod rhaid i ymatebion effeithiol i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod gynnwys yr ystod lawn o bartneriaid, yn cynnwys sefydliadau datganoledig ac annatganoledig a sefydliadau arbenigol y trydydd sector, mae aelodaeth y Grŵp Strategol yn amcanu at adlewyrchu'r persbectif a'r ystod o wybodaeth ehangaf posibl, yn cynnwys aelodaeth, er mwyn gallu darparu cyd-destun cenedlaethol. Rydym yn cydnabod bod yna gyfle i atgyfnerthu mwy ar aelodaeth y Grŵp gan sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol a dioddefwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol.

Mae sefydlu Grŵp Strategol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyflwyno cyfle ychwanegol i ystyried beth yw'r ffordd orau i'r pedair ardal leol gyfrannu at yr agenda rhanbarthol a sicrhau cyfathrebu effeithiol yn weithredol a strategol ar lefel ranbarthol, leol a sefydliadol.

Mae'r Grŵp Strategol yn adrodd i'r Weithrediaeth Strategol ranbarthol, ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw gysylltiadau ffurfiol ag unrhyw Fyrddau lleol a rhanbarthol allweddol eraill. Fel y gall y strategaeth hon danategu, dylanwadu a chyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau rhanbarthol allweddol, mae angen sefydlu llinellau ffurfiol er mwyn i'r Grŵp Strategol allu adrodd i'r canlynol:

- Pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Dau Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Byrddau Gweithredol Dau Fwrdd Iechyd
- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl
- Bwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig Rhanbarthol
- Y ddau Fwrdd Cynllunio Ardal (Camddefnyddio Sylweddau)

- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys

Bydd alinio'r Byrddau hyn yn agosach a sefydlu trefn adrodd ffurfiol rhyngddynt yn atgyfnerthu partneriaethau effeithiol ac yn cyflwyno cyfleoedd i alinio cynlluniau gwaith yn y dyfodol mewn perthynas â gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae sicrhau bod y Grŵp Strategol yn hysbysu ac yn cyfrannu i gynlluniau / strategaethau rhanbarthol a lleol eraill yn allweddol os ydym am ymgorffori Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel "busnes craidd", a byddwn yn clustnodi ac yn creu cysylltiadau â rhaglenni a llifoedd gwaith perthnasol e.e. hunanladdiad a hunan-niwed.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn gritigol i ddiogelwch y strategaeth, i gyflawni'r strategaeth a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i unigolion a theuluoedd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, ac rydym yn cydnabod yr angen i sefydlu mecanwaith i fonitro a gwerthuso'r strategaeth a'i heffeithlonrwydd.

Mae'r strategaeth a'i chynllun cyflawni ategol yn cyflwyno cyfle i ddatblygu strwythur llywodraethu all yrru gweithredu yn ei flaen. Rydym yn cydnabod cyfle i sefydlu nifer fechan o grwpiau ffocws gyda chynrychiolaeth briodol all gefnogi'r Grŵp Strategol wrth roi blaenoriaethau ar waith.

Rydym hefyd yn cydnabod yr angen ar gyfer perchnogaeth leol o'r strategaeth ranbarthol hon ac wedi nodi cyfle i integreiddio cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yn y Grwpiau Gweithredol Lleol sydd eisoes wedi'u sefydlu fel rhan o'r strwythur diogelu rhanbarthol.

Er bod y Grŵp Strategol yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun Cyflawni, rydym yn cydnabod yr angen am rôl "arweiniol" yn y rhanbarth; rôl a fydd yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a bydd yn alinio ac yn integreiddio blaenoriaethau'r strategaeth hon â blaenoriaethau strategol allweddol eraill ar lefel leol a rhanbarthol. Mae'r rôl hon yn allweddol i ddatblygu'r strategaeth hon, cydlynu gweithrediad y strategaeth a harneisio cyfraniadau yr holl bartneriaid tuag at y weledigaeth strategol.

Rydym yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu trefniadau presennol ar gyfer llywodraethiant, atebolrwydd ac arweinyddiaeth o ran Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod; gan sicrhau bod gennym strwythur cydlynol sy'n darparu eglurder a chyfeiriad ar gyfer y rhanbarth, a byddwn yn gwneud hyn drwy;

- Adolygu trefniadau llywodraethu presennol yn cynnwys aelodaeth a chynrychiolaeth, strwythurau alinio ac adrodd i fyrddau rhanbarthol a lleol allweddol eraill ac atgyfnerthu Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel thema drawsffiniol y Weithrediaeth Ddiogelu.
- Penodi Cynghorwr Rhanbarthol o ran Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod

ADRAN 12 - SUT Y BYDDWN NI'N CYDWEITHREDU I FYND I'R AFAEL Â CHAM-DRIN DOMESTIG, TRAIS RHYWIOL A THRAIS YN ERBYN MENYWOD: EIN BLAENORIAETHAU STRATEGOL

Mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn effeithio ar bob gwasanaeth, yn arbennig gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant, tai, cyfiawnder troseddol, addysg, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Bydd y strategaeth hon yn galluogi ymateb cymunedol cydlynol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn lleihau cyffredinedd ac effaith Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a chynyddu ymwybyddiaeth a'r gallu i weithredu'n gyflym ac effeithiol wrth ymateb i unigolion a theuluoedd sydd yn dioddef y mathau hyn o drais a chamdriniaeth.

Mae'r Grŵp Strategol eisiau sicrhau bod yr holl asiantaethau a sefydliadu yn y rhanbarth yn ymateb yn effeithiol i'r heriau a'r materion yn eu sefydliadau eu hunain ac mewn cydweithrediad â phartneriaid er mwyn atal niwed, lleihau risg a gwella diogelwch pobl sy'n byw yn y rhanbarth yn syth ac yn yr hirdymor.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 rydym yn bwriadu rhoi'r strategaeth yma ar waith gan ddefnyddio "egwyddor datblygu cynaliadwy" a dilyn pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau ein bod yn cydweithredu â phobl a chymunedau, yn osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac yn taclo rhai o'r heriau hirdymor sydd yn ein hwynebu.

Yn unol â hynny, byddwn yn cyflawni hynny drwy:

Atal: Deall a chydnabod mai atal ac ymyrraeth gynnar yw'r egwyddorion trosfwaol o ran mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a gwella canlyniadau dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd.

Integreiddio: Integreiddio gweithgareddau ar draws y sector statudol a'r trydydd sector a sicrhau bod rhaglenni gwaith yn cael eu cydlynu fel eu bod yn sicrhau'r budd gorau posibl. Ystyried sut y mae amcanion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ac ar amcanion a blaenoriaethau strategaethau a blaenoriaethau statudol allweddol eraill.

Cydweithredu: Cydweithredu ar draws y byrddau statudol lleol a rhanbarthol a gyda phartneriaid a goroeswyr er mwyn gwella'r ffordd o gynllunio a chydlynu gwasanaethau a sicrhau y bodlonir gweithredoedd ac amcanion y strategaeth hon.

Cyfranogiad: Gwrando ar ddioddefwyr, goroeswyr ac eraill yr effeithir arnynt gan drais a chamdriniaeth er mwyn deall eu profiadau yn well fel y gellir adolygu a llunio gwelliannau i ymatebion yn barhaus. Cydnabod bod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn "fusnes i bawb" a chynnwys yr holl asiantaethau all wneud gwahaniaeth.

Hirdymor: Ystyried y canlyniadau hirdymor ar gyfer dioddefwyr, goroeswyr a'u teuluoedd ac yn arbennig unrhyw blant a phobl ifanc a ddaw i gysylltiad â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Mae'r saith nod llesiant sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn tanategu'r amcanion sydd wedi eu deddfu fel rhan o ddibenion thematig

allweddol Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Y Ddeddf), sef gwella'r trefniadau ar gyfer atal, diogelu a chefnogi unigolion yr effeithir arnynt gan bob math o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Atal

Disgrifiwyd trais yn erbyn menywod a merched fel 'efallai'r ymyriad mwyaf treiddiol ar hawliau dynol ar hyd a lled y byd' er y gellir ei atal yn llwyr.

Mae'r blaenoriaethau a glustnodir yn y strategaeth hon a'r Cynllun Cyflawni Strategol ategol yn sicrhau bod y Grŵp Strategol yn datblygu ymagwedd gydlynol tuag at atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod rhag digwydd yn y lle cyntaf drwy herio'r agwedd a'r ymddygiadau sydd yn ei feithrin, gan ymyrryd yn gynnar pan fo'n bosibl i'w atal rhag digwydd eto, lleihau ei effaith a gweithio ar greu dyfodol ble caiff ei ddileu.

Diogelu

Mae diogelu goroeswyr yn elfen gritigol o'r ymagwedd gydlynol tuag at Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac mae'r Grŵp Strategol yn rhwymedig i gydweithredu i ddiogelu a gwarchod y rheiny sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod rhag dioddef mwy o niwed, gan gynnwys unrhyw blant yn y teulu.

Cymorth

Mae darparu gwasanaethau cymorth effeithiol i bobl yr effeithiwyd arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn gymhleth, oherwydd gall profiadau ac anghenion pobl fod yn wahanol iawn.

Bydd goroeswyr yn dewis ymgysylltu â gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac mae angen ystod o wasanaethau hygyrch all ymateb yn effeithiol ac yn gyffredinol i'r anghenion hyn. Mae gan wasanaethau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau arbenigol annibynnol rôl allweddol i'w chwarae.

Rydym eisiau i oroeswyr allu cael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, wedi'u darparu yn y man priodol ac ar yr adeg briodol ar eu taith o wella.

Blaenoriaethau Strategol

Wrth ddatblygu'r strategaeth, rydym wedi ystyried gofynion y Ddeddf a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, canlyniadau'r asesiad o angen y rhanbarth a phrofiadau goroeswyr a rhanddeiliaid.

Mae ein blaenoriaethau yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd ar gael i ni ar adeg benodol, ac rydym yn cydnabod y byddwn efallai, yn ystod oes y strategaeth hon, yn canfod themâu newidiol neu newydd fydd angen ymateb iddynt. Mae ein hadroddiad blynyddol a'r cynllun cyflawni strategol yn rhoi cyfle i ni ymateb yn ddeinamig i unrhyw newid mewn angen a ganfyddir.

Yn seiliedig ar y sail resymegol a nodir isod, rydym wedi defnyddio chwe nod strategol Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Genedlaethol 2016-2021 er mwyn llunio ein blaenoriaethau rhanbarthol.

Blaenoriaeth Strategol 1: Gwella gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at gydraddoldeb a cham-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod ymysg dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae angen i ni gynyddu ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer unigolion sy'n dioddef trais a chamdriniaeth, eu ffrindiau a'u teuluoedd, ein cymunedau, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol.

Yn ogystal â hynny mae'n rhaid i ni hefyd hyrwyddo cydraddoldeb; cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chydraddoldeb yn ei ystyr ehangaf a herio stereoteipio'r rhywiau. Mae trais yn erbyn menywod a merched yn achosi anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod ac yn ganlyniad i hynny. Mae'n digwydd i fenywod oherwydd eu bod yn fenywod, ac effeithir ar fenywod yn anghymesur gan bob math o drais yn y cyd-destun hwn. Ni fydd Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn dod i ben nes bod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn realiti, ac felly mae hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn allweddol mewn perthynas ag atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, a dyna pam ei fod yn egwyddor danategol allweddol ar gyfer y strategaeth hon.

Dywedodd goroeswyr wrthym

"Nid oeddwn yn sylweddoli ei bod yn berthynas gamdriniol"

"Roedd gen i hyd yn oed syniad rhagdybiedig o'r hyn oedd cam-drin domestig, ac nid oeddwn yn sylweddoli ei fod yn digwydd i mi"

Siaradodd goroeswyr am yr angen i herio tuedd a thybiaethau gweithwyr proffesiynol a'r ffordd maent yn teimlo bod rhai cymunedau yn "rhan" o'r broblem; gwybod ond ddim eisiau cydnabod na herio beth oedd yn digwydd yn eu cymunedau eu hunain.

Roedd goroeswyr yn sylwi bod pobl yn teimlo'n anghyfforddus wrth siarad am gam-drin domestig heb sôn am drais rhywiol neu fathau ehangach o drais yn erbyn menywod, ac roeddent yn cefnogi ymatebion yn y gymuned megis cynllun "Gofyn i Mi" ym Mhowys, sydd yn gweithio ar newid agweddau ac ymddygiadau drwy Lysgenhadon yn cynnal sgyrsiau ag eraill yn y gymuned a chreu mannau datgelu diogel er mwyn cael mynediad i wasanaethau.

Roedd goroeswyr yn cydnabod gwerth mentrau megis Ymgyrch Rhuban Gwyn sy'n cynnwys dynion a bechgyn ac ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru e.e. "Croesi'r Llinell," "Dyma Fi" a "Paid Cadw'n Dawel" fel ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus, ond roeddent yn teimlo bod angen i ymgyrchoedd gael eu cydlynu'n well ar lefel ranbarthol gyda negeseuon cyson a llwybrau i gymorth hygyrch wedi eu clustnodi'n glir.

Mae ymgyrchoedd #metoo' #timesup #countmein a #breakthesilence diweddar ar y cyfrangau cymdeithasol wedi ymgorffori aflonyddu, trais a cham-drin rhywiol mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus.

Rydym yn cydnabod rôl y cyfryngau o ran hyrwyddo cydraddoldeb, herio normau rhywedd ac adrodd yn gywir ar achosion o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a byddwn yn gweithio â phartneriaid yn y cyfryngau fel rhan o'r strategaeth gyfathrebu ranbarthol.

Mae'n rhaid i'r cynllun cyfathrebu rhanbarthol gael yr hyblygrwydd i ymgysylltu ag ymgyrchoedd newydd a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ymgysylltu ag allfeydd cyfryngau er mwyn sicrhau adroddiadau cywir, a bod unigolion yn cael eu cyfarwyddo at y gwasanaethau priodol.

Roedd goroeswyr a rhanddeiliaid yn cydnabod rôl y teulu, ffrindiau a chyflogwyr o ran adnabod trais a chamdriniaeth a sut y dylai'r "bobl eraill cysylltiedig" yma allu cael mynediad i adnoddau a gwybodaeth ymarferol allai eu galluogi i roi'r cymorth gorau i'r unigolyn sydd wedi goroesi a hwyluso mynediad diogel i wybodaeth a chymorth.

Roedd yr angen i herio canfyddiadau ynghylch "pwy" sydd yn dioddef trais a chamdriniaeth yn thema gyson gan oroeswyr a rhanddeiliaid ledled y rhanbarth; yr angen i gymunedau ddeall y gall unrhyw un brofi cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod a'r pwysigrwydd o godi ymwybyddiaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl hŷn, menywod, dynion, plant a phobl ifanc, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol a grwpiau ar yr ymylon a grwpiau lleiafrifol eraill. Roedd yna gefnogaeth eang hefyd i negeseuon oedd yn canolbwyntio ar reoli gorfodol a mathau eraill o gam-drin nad yw'n gorfforol.

Siaradodd goroeswyr a rhanddeiliaid am ddiffyg eglurder ac ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth yn y rhanbarth;

"Nid oedd gen i unrhyw syniad at bwy i droi nac i ble i fynd i gael help"

"dim syniad ble i ddechrau...ddim yn gwybod ble i fynd...ddim yn siŵr pa gymorth oedd ar gael"

"pam nad yw sefydliadau yn gwybod ble i fynd mewn argyfwng - dylai hynny fod yn fara menyn iddynt"

Wrth drafod sut y dylai'r rhanbarth ymdrin â rhai o'r materion hyn, siaradodd rhanddeiliaid a goroeswyr yn gyson am ddau ffactor critigol;

Iaith - nid oedd rhanddeiliaid na goroeswyr yn teimlo bod terminoleg "Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod" yn fuddiol. Nid oedd llawer yn gallu uniaethu â'r iaith ac yn teimlo nad oedd yn gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, tra bod rhanddeiliaid yn cwestiynu ei allu i fod yn berthnasol i weithwyr proffesiynol. Roedd goroeswyr yn teimlo bod iaith a negeseuon oedd yn seiliedig ar "brofiadau byw" yn gritigol i effeithlonrwydd ymgyrchoedd, ac awgrymodd goroeswyr

gwrywaidd y byddai ail fframio'r iaith yn taclo rhai o'r rhwystrau yr oedd dynion yn eu hwynebu. Siaradodd goroeswyr am bwysigrwydd cynildeb iaith er mwyn uniaethu â goroeswyr. Wrth gyfleu gwybodaeth ar gyfer ein cymunedau ni ddylid colli'r cynildeb hwn a goroeswyr ddylai lywio'r hyn sy'n cael ei gyfleu er mwyn sicrhau nad yw cynildeb negeseuon yn cael ei golli.

Awgrymodd rhanddeiliaid integreiddio cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod mewn iaith "ddiogelu" fel y gallai fod yn rhan o'r prif lif.

Gweledd a Hygyrchedd - Siaradodd goroeswyr am yr angen i wybodaeth gyfredol, gywir fod yn weledol ym mhob cymuned, gan ddefnyddio adeiladau cymunedol, archfarchnadoedd, ysgolion, colegau, sefydliadau iechyd, lleoliadau chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â phlatfformau ar-lein effeithiol sy'n galluogi i ddioddefwyr, goroeswyr ac eraill i gael mynediad i wybodaeth, adnoddau a llwybrau i gymorth. Siaradodd goroeswyr am un rhif "unigryw" cyson fel pwynt cyswllt cyntaf i gael gwybodaeth.

Anogodd rhanddeiliaid y rhanbarth i fod yn greadigol yn ei ddull o ddarparu gwybodaeth ac adnoddau, gan ddefnyddio technoleg i ddarparu adnoddau a fydd yn galluogi unigolion a theuluoedd i gael mynediad i wybodaeth a chymorth er mwyn diwallu eu hanghenion.

Roedd rhanddeiliaid a goroeswyr yn cydnabod rôl hanfodol cyflogwyr wrth nodi a chefnogi unigolion sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod a rhoddwyd enghreifftiau gan oroeswyr o'u profiadau cadarnhaol o gyflogwyr a oedd wedi'u cefnogi nhw i gael cymorth.

Rydym yn disgwyl i'r holl Wasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth i weithredu polisi Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn y gweithle ac mae'r strategaeth hon yn rhoi cyfle i ystyried sut y gallwn annog cyflogwyr, yn ehangach na gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu polisïau e.e. drwy ddull gwasanaethau a gomisiynir.

Pa gamau fyddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon?

Byddwn yn

- Datblygu strategaeth gyfathrebu glir ar gyfer Cydraddoldeb a Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, wedi'i llywio gan oroeswyr a rhanddeiliaid a fydd yn cefnogi ymagwedd gydlynol a chyson ledled y rhanbarth.
- Gwella mynediad i wybodaeth gyfredol o ansawdd uchel ynghylch Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, cymorth sydd ar gael a llwybrau i gymorth mewn mannau cyhoeddus ac ar-lein.
- Cefnogi a datblygu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer ffrindiau, teuluoedd a phobl eraill cysylltiedig er mwyn eu galluogi nhw i helpu goroeswyr i gael cymorth.

- Cynyddu'r ffocws mewn cyfathrebiadau ynghylch hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a herio agweddau ac ymddygiadau sy'n goddef camdriniaeth.
- Mynd ati i hyrwyddo gwasanaethau arbenigol lleol ochr yn ochr â Byw Heb Ofn, Respect a llinell gymorth Dyn fel ffynhonnell cymorth arbenigol i oroeswyr, cyflawnwyr, gweithwyr proffesiynol ac unigolion cysylltiedig.
- Annog a chefnogi cyflogwyr lleol i ddatblygu a gweithredu polisïau gweithle gan ddarparu gwybodaeth a llwybrau i gymorth.

Blaenoriaeth Strategol 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol

"Mae rhaglenni addysg rhyw a chydberthynas sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn chwarae rôl hanfodol wrth weithio â phlant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a chymunedau; archwilio'r wybodaeth a'r gwerthoedd ynghylch rhywioldeb a pherthnasoedd y mae plant eisoes wedi dod i gysylltiad â nhw ac yn aml yn cael trafferth llywio drwyddynt ar eu pennau eu hunain. Drwy adeiladu ar wybodaeth a phrofiad anffurfiol y plant a'r bobl ifanc eu hunain, ar-lein ac all-lein, mae gan ysgolion y potensial i greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fynegi eu safbwyntiau a'u teimladau am faterion addysg rhyw a chydberthynas. Mewn gwirionedd, mae ysgolion yn safleoedd allweddol ar gyfer dysgu am blant a phobl ifanc ac ymateb i'w cwestiynau a'u hanghenion (e.e. o rywiaeth i gydsyniad rhywiol)"[31]

Mae'r dyfyniad hwn o Adroddiad "Dyfodol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru" a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2017 yn amlygu rôl allweddol ysgolion a rhaglenni rhyw a pherthnasoedd wrth ddatblygu cydnerthedd yn erbyn Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, cynnal perthnasoedd iach a mynd i'r afael â normau rhywedd ac agweddau.

Mae'r adroddiad yn dweud bod addysg rhyw a chydberthynas yng Nghymru angen ei ddiwygio'n sylweddol os yw am fodloni anghenion plant a phobl ifanc. Gan ddefnyddio'r ymchwil sydd ar gael yng Nghymru, ymchwil rhyngwladol ac adolygiad thematig diweddar Estyn (2017) ar Berthnasoedd Iach, canfuwyd bylchau sylweddol rhwng profiadau bywyd plant a phobl ifanc a'r addysg rhyw a chydberthynas a roddwyd iddynt yn yr ysgol. Er bod yna rai arferion addawol, yn arbennig pan fo ysgolion yn cydweithredu ag arbenigwyr addysg rhyw a chydberthynas a darparwyr gwasanaethau allanol, canfuwyd bod ansawdd a maint darpariaeth addysg rhyw a chydberthynas yn amrywio'n fawr.[32]

---

[31] Renold, E. and McGeeney, E. (2017) *Informing the Future Sex and Relationships Education Curriculum in Wales*. Prifysgol Caerdydd ISBN 978-1-908469-12-0
[32] Renold, E. and McGeeney, E. (2017) *Informing the Future Sex and Relationships Education Curriculum in Wales*. Prifysgol Caerdydd ISBN 978-1-908469-12-0

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid yn y rhanbarth mewn perthynas â'r ddarpariaeth Addysg Rhyw a Chydberthynas ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Amlygodd rhanddeiliaid y diffyg ymagwedd gyson ym myd addysg tuag at berthnasoedd iach a materion ehangach Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod ymagweddau tuag at ABCh yn y rhanbarth yn amrywiol a bod amser cyfyngedig a gwahanol lefelau o bwysigrwydd yn cael ei roi i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a pherthnasau iach.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am hyn yn ehangach na chyfrifoldeb ysgolion yn unig a bod angen gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan mewn rhaglen er mwyn datblygu cydnerthedd yn erbyn Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac er mwyn cynnal perthnasoedd iach e.e. pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, Addysg Ddewisol yn y Cartref, Unedau Atgyfeirio Disgyblion, Ysgolion Preifat, Colegau a grwpiau cymunedol.

Roedd goroeswyr yn teimlo nad oedd yna ddigon o addysg ar berthnasoedd iach a chydraddoldeb rhwng y rhywiau er mwyn atal mwy o ymddygiad camdriniol yn y dyfodol, yn arbennig pan fo plant eisoes wedi dod i gysylltiad â thrais a chamdriniaeth yn eu cartrefi eu hunain.

Roedd goroeswyr yn teimlo bod ysgolion yn chwarae rôl gritigol o ran rhoi gwybodaeth sy'n briodol i oedran i blant a phobl ifanc mewn perthynas â chydraddoldeb ac iechyd, a pherthnasoedd parchus sydd yn eu galluogi i wahaniaethu rhwng beth sydd yn ymddygiad derbyniol ac annerbyniol.

Roedd goroeswyr hefyd yn cydnabod bod sefydliadau addysg yn llefydd diogel i blant, pobl ifanc a rhieni i gael mynediad i gymorth. Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn Adroddiad "Dyfodol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru;"

"Mae (ysgolion) yn llefydd all gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder yn raddol i wybod ble a sut mae cael cyngor a chymorth mewn perthynas ag, er enghraifft, rhagfarn, gwahaniaethu, camdriniaeth a thrais".

Wrth gydnabod bod ysgolion yn cynnig cyfleoedd i gael mynediad i wybodaeth mae'n hanfodol bod llwybrau atgyfeirio integredig yn cael eu gweithredu a bod gwasanaethau arbenigol, priodol a phenodol i blant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt neu sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, anffurfio organau cenhedlu menywod, priodas dan orfod, camfanteisio'n rhywiol neu aflonyddu, ar gael ym mhob ardal. Hefyd, bod plant a phobl ifanc yn gwybod pa gymorth sydd ar gael a sut mae cael mynediad i'r cymorth hwnnw.

Mae rhanddeiliaid a goroeswyr yn cydnabod bod ysgolion yn llefydd pwysig a diogel mewn perthynas ag atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a diogelu a chefnogi plant a phobl ifanc.

Mae CADW, y Bwrdd Diogelu Ieuenctid rhanbarthol, wedi nodi bod "sut mae meithrin perthnasoedd iach" yn un o'u blaenoriaethau cyfredol ac mae'n cynnig yr argymhellion canlynol ynghylch sut mae cyflawni hynny;

- Gwell cwricwlwm ABCh
- Gwybodaeth genedlaethol a lleol gyfredol am ble i fynd i gael cymorth a chyngor ar gael mewn ysgolion
- Gwell adnoddau er mwyn caniatáu amser i athrawon ymgymryd â rolau gofal bugeiliol
- Cydnerthedd yn rhan annatod o Ddiogelu - nodwyd bod mwy o gydnabyddiaeth a chymorth i deuluoedd a chylchoedd cymdeithasol yn ffordd o greu cydnerthedd.

Rydym wedi datblygu ein camau gweithredu gan ystyried y cyd-destunau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol canlynol;

- "Dyfodol Llwyddiannus" - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru; Yr Athro Graham Donaldson (Chwefror 2015)
- "Cymwys am Oes - Cwricwlwm i Gymru"[33] – Hydref 2015, gan adeiladu ar argymhellion "Dyfodol Llwyddiannus" ac amlinellu cynlluniau ar gyfer datblygu cwricwlwm newydd i Gymru
- "Dyfodol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru"; Argymhellion Panel Arbenigol Rhyw a Pherthnasoedd (Rhagfyr 2017)
- "Adolygiad o Addysg Perthnasoedd Iach" Estyn Mehefin 2017
- Cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2018 ynghylch ailwampio llwyr o ran addysg rhyw a pherthnasoedd gan ailenwi'r pwnc yn "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb," gan ei wneud yn orfodol i blant 5 oed a hŷn mewn ysgolion a sicrhau ei fod yn cynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol. Bydd y newid yn cael ei weithredu erbyn 2022 fel rhan statudol o gwricwlwm newydd Cymru.
- Fframwaith Archwilio Estyn mewn perthynas â Gofal, Cymorth ac Arweiniad
- Archwiliadau Diogelu ym Myd Addysg fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac Estyn
- Canllawiau Arfer Dda "Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yng Nghymru - Dull Addysg Gyfan" Llywodraeth Cymru
- Darpariaeth gyffredinol ar sail addysg sy'n bodoli gaiff ei ddarparu mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth yn cynnwys Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yr Heddlu, Blynyddoedd Rhyfeddol; rhaglen ar sail tystiolaeth er mwyn hyrwyddo cymhwysedd cymdeithasol, emosiynol ac academaidd a KiVA; rhaglen gwrth-fwlio yn seiliedig ar ymchwil

[33] http://gov.wales/docs/dcells/publications/151021-a-curriculum-for-wales-a-curriculum-for-life-en.pdf

- Ceredigion yn safle peilot ar gyfer model amlddisgyblaethol "In-Reach" ar gyfer cysylltu ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd er mwyn gwella ymatebion i iechyd meddwl plant.
- Cyflwyno Ymgyrch Cwmpasu yn Sir Benfro - partneriaeth ddiogelu ymyrraeth gynnar rhwng Cyngor Sir Benfro a Heddlu Dyfed Powys sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ddaw i gysylltiad â Cham-drin Domestig.
- Rhaglenni arbenigol cyfredol o ran perthnasoedd iach a pharchus a ddarperir ar draws y rhanbarth sy'n cynnwys SBECTRWM a rhaglen STAR Cymorth i Ferched Cymru (Diogelwch Ymddiriedaeth a Pharch).
- Prosiect Sparrow, rhaglen perthnasoedd iach bwrpasol i blant a phobl ifanc a luniwyd ar gyfer Threshold DAS er mwyn ei chyflwyno mewn ysgolion a sefydliadau cymunedol.
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod - y ffordd orau o integreiddio ymatebion i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod mewn mentrau sy'n seiliedig ar addysg ac sy'n canolbwyntio ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Pa gamau fyddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon?

Byddwn yn:

- Cynnal dadansoddiad llawn o addysg perthnasoedd iach mewn sefydliadau addysg ffurfiol / anffurfiol ar draws y rhanbarth.
- Gweithio mewn partneriaeth â CYSUR (Bwrdd Diogelu Plant), CADW, Gwasanaethau Ieuenctid, Ysgolion, grwpiau Addysg Ddewisol yn y Cartref, Timau Troseddu Ieuenctid, Colegau, Unedau Atgyfeirio Disgyblion, Arweinwyr Diogelu ym Myd Addysg, Gweithwyr proffesiynol, Rhieni, grwpiau cymunedol a'r sector Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod arbenigol er mwyn sicrhau bod yr holl blant oedran ysgol a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn rhaglen sy'n briodol i oedran er mwyn datblygu cydnerthedd yn erbyn Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac er mwyn cynnal perthnasoedd iach.
- Cytuno ar gyfres o adnoddau priodol i weithwyr proffesiynol a grwpiau addysg dewisol yn y cartref er mwyn defnyddio a darparu platfform i sicrhau mynediad.
- Sicrhau bod pob sefydliad addysg yn mabwysiadu rhaglen addas yn unol â Chanllawiau Arfer Dda Llywodraeth Cymru "Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn Erbyn Menywod yng Nghymru - Dull Addysg Gyfan"
- Cytuno ar fframwaith monitro fydd yn galluogi i'r rhanbarth fodloni gofynion adrodd sydd yn rhan o'r Ddeddf.
- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth i blant a phobl ifanc sy'n dioddef trais a chamdriniaeth ar gael ar draws y rhanbarth a bod llwybrau i gymorth priodol yn hygyrch ac yn amserol.

Blaenoriaeth Strategol 3: Cynyddu'r ffocws ar sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol, a darparu cyfleoedd i ddeall eu hymddygiad a'r canlyniadau yn seiliedig ar ddiogelwch y dioddefwr.

Os na fyddwn yn sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol, nid ydym yn eu cymell o gwbl i newid eu hymddygiad. Roedd goroeswyr a rhanddeiliaid yn dweud yn gyson bod angen canolbwyntio mwy ar sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol am eu hymddygiad.

Roedd goroeswyr yn teimlo nad oedd gweithwyr proffesiynol yn adnabod ymddygiadau camdriniol ac o ganlyniad nid oeddent yn herio nac yn "datgelu" yr ymddygiadau;

"byddai'n taflu llwch i lygaid y gweithwyr proffesiynol"

"roedd fy nghyn-bartner yn rheoli'r gweithwyr proffesiynol"

Yn hytrach na chanolbwyntio ar ymddygiadau camdriniol y cyflawnwyr, roedd goroeswyr yn egluro dro ar ôl tro sut yr oedd gweithwyr proffesiynol yn rhoi'r cyfrifoldeb arnyn nhw i ddiogelu eu hunain ac unrhyw blant e.e. symud o'r cartref, rheoli sefyllfaoedd o wrthdaro, gadael y berthynas gamdriniol, ac mai nhw oedd yn byw gyda'r canlyniadau yn hytrach na'r partner camdriniol. Mae'r ymateb systematig yma eto yn dangos y diffyg dealltwriaeth ymysg gweithwyr proffesiynol ynghylch natur, effeithiau a chanlyniadau hirdymor Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod sy'n arwain at lai o hyder mewn cysylltiadau proffesiynol.

Amlygodd goroeswyr a rhanddeiliaid y diffyg cyfleoedd i gyflawnwyr newid eu hymddygiadau yn y rhanbarth.

"unman i gyflawnwyr gael mynediad i gymorth i newid"

"angen datblygu gwasanaethau i newid ymddygiad"

Bu i randdeiliaid eto bwysleisio ei bod yn bwysig iddynt bod yn rhaid i unrhyw ymyrraeth gyda chyflawnwyr flaenoriaethu diogelwch y partner nad yw'n gamdriniol ac unrhyw blant, a'i fod yn gweithio tuag at gyrraedd, neu ei fod wedi cyrraedd safonau a ddatblygwyd gan sefydliadau cydnabyddedig sy'n darparu achrediad ar gyfer 'Rhaglenni Cyflawnwyr Trais Domestig' (DVPP) e.e. Respect.

Bu i oroeswyr a rhanddeiliaid eto gyfeirio at fwlch yn y ddarpariaeth mewn perthynas ag "ymagwedd teulu cyfan" ac ar gyfer teuluoedd sy'n dymuno aros gyda'i gilydd.

Disgrifiodd un o'r rhanddeiliaid y cyd-destun darpariaeth bresennol ar gyfer cyflawnwyr fel un sy'n cael ei yrru gan ble y cymhwyswyd adnoddau ychwanegol yn llwyddiannus yn hytrach na ble'r oedd angen wedi ei glustnodi.

Yr ymateb presennol

Mae llawer o'r ymateb presennol i gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn nwylo'r system cyfiawnder troseddol.

Heddlu Dyfed Powys, mewn nifer o achosion, yw'r ymatebwyr cyntaf i adroddiadau o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Ers 2015 maent wedi bod yn peilota Pecyn Adnabod Cyflawnwyr Blaenoriaethol (PPIT) - dull seiliedig ar

dystiolaeth o ganfod y cyflawnwyr cam-drin domestig mwyaf peryglus, gyda'r amcan o ganolbwyntio adnoddau amlasiantaeth yn fwy effeithiol er mwyn lleddfu eu hymddygiadau.

Cyhoeddwyd gwerthusiad o'r cynllun peilot yn Nhachwedd 2017 a'r argymhellion allweddol a ddeilliodd o'r adroddiad oedd y dylai tri safle'r cynllun peilot, yn cynnwys Dyfed Powys, barhau i weithredu'r cynllun peilot am o leiaf dwy flynedd er mwyn caniatáu cynnal gwerthusiad cydnerth o'r canlyniadau.[34]

Yn Nyfed Powys mae cyflawnwyr blaenoriaethol, pan y'u clustnodir, yn ffocws monitro a rheoli wedi'i dargedu, a chânt eu hatgyfeirio at Gydlynydd MARAC sydd wedi ei leoli yn y ganolfan reoli troseddwyr ar gyfer atgyfeirio at banel sgrinio MAPPA/WISDOM/IOM (sy'n cynnwys cydlynwyr MAPPA, IOM a WISDOM, Cydlynydd MARAC, Yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf) fel sy'n briodol. Yna bydd cyflawnwyr blaenoriaethol yn destun adolygiadau misol parhaus a rhannu data amlasiantaeth gyda NPS/CRC.

Roedd cyfweleion y gwerthusiad yn credu bod y cynllun peilot yn cynrychioli newid o ddull adweithiol o ddelio â thrais domestig a oedd yn canolbwyntio ar y dioddefwr i fod yn ddull mwy ataliol a rhagweithiol o blismona'r broblem sy'n targedu'r cyflawnwyr yn benodol.

Dywedodd rhanddeiliaid bod ymrwymiad i gynnal PPIT am ddwy flynedd arall yn rhoi cyfle i ehangu cwmpas y rhaglen beilot a gwella partneriaethau â rhanddeiliaid yn benodol yn y sector arbenigol, Awdurdodau Lleol ac Iechyd sydd â rolau allweddol i'w chwarae o ran rheoli troseddwyr, llwybrau i leihau aildroseddu a diogelu oedolion a phlant.

Hefyd nodwyd cyfleoedd i gynyddu rôl a llais goroeswyr mewn perthynas â rheoli troseddwyr drwy'r PPIT.

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, yn achredu ymyriadau ar gyfer troseddwyr a euogfarnwyd sy'n mynychu rhaglenni yn y carchar neu'r gymuned pan mai trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol yw'r hanes o droseddu. Fodd bynnag mae cynrychiolwyr o'r ddau sefydliad yn cydnabod y cohort bychan o unigolion cymwys yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, o ganlyniad i'r ffaith bod y rhaglenni yma ond ar gael i rai sydd wedi eu heuogfarnu am droseddau a dedfrydau cymwys sy'n golygu eu bod yn cael eu rheoli yn y gymuned. Oherwydd y trothwyon hynny yn unig, mae nifer yr unigolion sy'n cael mynediad i'r rhaglenni hyn yn isel.

Mae Prosiect Ymyrraeth Gynnar i Deuluoedd (E-FIP) a ddarperir gan Threshold DAS yn Llanelli ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn cynnig ymagwedd teulu cyfan drwy ddarparu gwaith un i un ar gyfer y fenyw, ei phartner ac unrhyw blant sy'n gysylltiedig. Mae'r prosiect yn cynnig rhaglen cyflawnwyr sydd yn gweithio tuag at achrediad RESPECT a gwasanaeth cyfryngu sy'n gweithio i'r teulu cyfan.

[34] Robinson, A. L. and Clancy, A. (2017). New initiatives to tackle domestic violence using the Priority Perpetrator Identification Tool (PPIT).

Fel rhan o E-FIP, mae rhaglen Dewisiadau ar gyfer dynion dros 18 oed sydd eisiau newid eu hymddygiadau a'u credoau camdriniol. Mae'r rhaglen, sy'n darparu dros 60 awr (34 wythnos) o ymyriadau strwythuredig iawn, yn cael ei darparu mewn grwpiau ac ar sail un i un. Fe'i dyluniwyd yn arbennig i herio dealltwriaeth dynion o gam-drin a pherthnasoedd a lleihau trais domestig, dysgu ffyrdd o beidio bod yn gamdriniol a chynorthwyo newid cadarnhaol dros gyfnod o amser.

Yn seiliedig ar ymchwil cenedlaethol sefydledig, bu i werthusiad diweddar o raglen cyflawnwyr achrededig Respect amcangyfrif bod yr arbedion i'r pwrs cyhoeddus am bob unigolyn oedd wedi derbyn ymyrraeth fel a ganlyn; £63,937 am bob partner camdriniol (yn yr achos hwn roedd hi'n rhaglen ar gyfer cyflawnwyr gwrywaidd) £35,058 am bob partner a £1,172 am bob plentyn.[35]

Mae achrediadau / safonau RESPECT ar gyfer ymyriadau cyflawnwyr cam-drin domestig (unigol a grŵp) yn cael eu cydnabod fel y safonau yn y DU ar gyfer gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu safonau ar gyfer darparu gwasanaethau cyflawnwyr gan gydnabod nad oes yna ar hyn o bryd set o safonau sy'n addas ar gyfer yr holl wasanaethau ymyrryd a ddarperir i fynd i'r afael â'r ystod lawn o droseddau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod a chyflawnwyr cysylltiedig.[36]

Mae Rhaglen Ysbrydoli Teuluoedd yn ymyrraeth arloesol ac yn asesiad o deuluoedd ble canfyddir bod cam-drin domestig yn elfen a glustnodwyd a bod y teuluoedd wedi dewis aros gyda'i gilydd.

Mae'n rhaglen all gryfhau a sefydlogi teuluoedd ac mae'n darparu fframwaith cydnerth i weithwyr proffesiynol asesu ymddygiad y partner, yn cynnwys unrhyw reolaeth orfodol, cydymffurfiaeth wedi ei ffugio a lefel y risg presennol a thebygolrwydd risg yn y dyfodol.

Mae'r rhaglen hefyd yn asesu'r potensial i newid ac i leihau risg yn y teulu, neu a yw'r risg yn rhy uchel neu a yw'r potensial i newid yn rhy isel fel nad yw gweithio gyda'r teulu yn opsiwn hyfyw.

Er nad yw Ysbrydoli Teuluoedd, fydd yn cael ei gyflwyno ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin yn 2018, yn ymyrraeth gyda chyflawnwyr, mae'n darparu opsiwn gwahanol i deuluoedd sydd eisiau aros gyda'i gilydd.

Bu i'r cyd-destun presennol a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid a goroeswyr arwain at nifer o gasgliadau ddylai lywio'r ffordd o feddwl yn rhanbarthol;

- Mae'r ymyriadau yn y gymuned a ddarperir gan Threshold DAS a Thîm o Amgylch y Teulu Sir Benfro yn canolbwyntio ar ddynion sydd wedi cyflawni camdriniaeth ddomestig yn erbyn dioddefwyr benywaidd. Mae angen rhoi ystyriaeth ehangach i ymyrraeth briodol ar gyfer mathau eraill o drais yn erbyn menywod a thrais rhywiol ac ar gyfer ymyriadau sy'n addas i

[35]Adroddiad ar Effaith Ymyrryd mewn Cam-drin Partner, Newid ar gyfer Yfory (Adroddiad Ebrill 2013 – Mawrth 2014)

[36]Canllawiau Drafft Llywodraeth Cymru ynghylch Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru

gyflawnwyr benywaidd a chyflawnwyr mewn perthynas o'r un rhyw a pherthnasoedd teuluol / nad ydynt o natur bersonol

- Gweithio gyda phlant sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol - yn y bennod gynharach wrth edrych ar y ddarpariaeth bresennol bu i ni gyfeirio at raglen A2P (Cyngor Sir Caerfyrddin) a Phrosiect Calon Borffor (Threshold DAS) a Break4Change (Cyngor Sir Penfro), rhaglenni sy'n canolbwyntio ar weithio â phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol sy'n gymysgedd o gamdriniaeth rhyngdeuluol llencynnaidd ac o natur bersonol. Wrth gydnabod bod yna blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol, rydym yn teimlo nad yw defnyddio'r label "cyflawnwyr" yn fuddiol, a byddem yn dymuno pennu ein hymatebion i ymddygiadau o'r fath fel rhan o'r "gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc"
- Newid y ffordd o feddwl mewn perthynas â risg - yr angen i ganolbwyntio ar gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel achos y "risg" ac erledigaeth fynych yn hytrach na'r partner nad yw'n gamdriniol.
- Ni all gwaith gyda chyflawnwyr ddigwydd ar ei ben ei hun ac mae angen ei ymgorffori mewn gwaith diogelu dioddefwyr a theuluoedd ac ataliaeth
- Er mwyn mynd i'r afael yn effeithiol â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, mae angen comisiynu gwasanaethau arbenigol o safon uchel ar gyfer cyflawnwyr (sy'n bodloni safonau gwasanaeth perthnasol) yn ychwanegol at wasanaethau ar gyfer goroeswyr.
- Mae Respect wedi cyflwyno'r achos o blaid comisiynu a darparu rhaglenni cyflawnwyr yn y gymuned[37] a chyhoeddwyd yr ymchwil mwyaf yn y DU i effeithiolrwydd rhaglenni yn 2015.[38]
- Wrth gomisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyflawnwyr, mae angen 'clustnodi' adnoddau cysylltiedig yn briodol fel nad yw gwasanaethau cyflawnwyr yn cael eu hystyried fel adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer dioddefwyr, neu nad yw gwasanaethau cyflawnwyr yn cael eu torri er mwyn cynyddu gwasanaethau dioddefwyr.
- Mae'n rhaid cydnabod na ddylai gwasanaethau cyflawnwyr gael eu comisiynu ar wahân ac y dylid eu hystyried fel rhan o ymagwedd system gyfan, ochr yn ochr â gwasanaethau goroeswyr a gwasanaethau cysylltiedig eraill
- Rôl gwasanaethau cyhoeddus wrth weithio â chyflawnwyr, mwy na thebyg mewn perthynas â materion sy'n anuniongyrchol gysylltiedig â'u hymddygiad camdriniol, a phwysigrwydd ymagwedd gyson er mwyn adnabod unigolion o'r fath yn effeithiol a'u cyfeirio at wasanaethau arbenigol. Fel yn achos goroeswyr, dylid cydnabod bod pob achos o ryngweithio gyda chyflawnydd yn gyfle i gael mynediad i gymorth er mwyn mynd i'r afael â'u hymddygiad camdriniol.

[37] Domestic Violence Perpetrators; Working with the cause of the problem" Respect 2010
[38] https;//www.dur.ac.uk/resource/criva/ProjectMirabelfinalreport.pdf

- Cyfleoedd i wella'r broses o gydlynu ymatebion y System Droseddol i oroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod e.e. effeithiolrwydd y trefniadau SDVC yn y rhanbarth a photensial SDVC i ystyried achosion ar draws holl agweddau VAWDASV.
- Mae rhanddeiliaid yn credu bod yna gyfleoedd yn y System Cyfiawnder Troseddol ac yn y gwasanaethau cyhoeddus ehangach i ymyrryd yn gynnar a gwneud gwaith ataliol gyda chyflawnwyr a rhai sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol.
- Dylid ystyried dysgu o ymarfer mewn mannau eraill yng Nghymru ac yn y DU e.e. y prosiect Drive.[39]
- Gosod rheoli troseddwyr yn y maes "diogelu"; y ffordd orau o ddiogelu dioddefwr ac unrhyw blant yw mynd i'r afael ag ymddygiadau'r cyflawnydd. Drwy ailosod rheoli troseddwyr fel rhan o'r agenda ddiogelu ehangach, gellir creu cyfleoedd i weithio mwy mewn partneriaeth a gwella ymatebion amlasiantaeth er mwyn lleihau aildroseddu.

Pa gamau fyddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon?

Byddwn yn sicrhau ymatebion effeithiol a diogel i gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod drwy;

  - Ystyried yr hyn a ddysgir ac effeithlonrwydd dulliau ac ymyriadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y rhanbarth a'r tu hwnt
  - Deall yn well sut mae dulliau presennol yn gysylltiedig â'i gilydd a chyfleoedd i wella gweithio mewn partneriaeth drwy osod ymatebion i gyflawnwyr fel rhan o'r maes "diogelu"
  - Ystyried ymatebion gwasanaethau cyhoeddus ehangach i gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
  - Canfod cyfleoedd i ymyrryd yn gynharach â chyflawnwyr a rhai sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol.
  - Datblygu llwybr oddi wrth aildroseddu i gyflawnwyr Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

- Cytuno ar fodel ymyrraeth ranbarthol a fydd yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer gwasanaethau comisiynu sy'n blaenoriaethu diogelwch dioddefwr a phlant ac sy'n darparu llwybr at wasanaethau i gyflawnwyr.
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn canfod ac ailffocysu cyllid yn unol â'r model cytunedig.

Blaenoriaeth Strategol 4: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth integredig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Mae ymyrraeth gynnar ac atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn elfen sylfaenol o'r strategaeth hon ac mae'n tanategu'r holl

[39] http://driveproject.org.uk/

flaenoriaethau strategol eraill. Ond mae yna her barhaus sy'n dal i fodoli o ran diffinio, blaenoriaethu a darparu adnoddau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal ochr yn ochr â blaenoriaethau cystadleuol eraill y gwasanaethau cyhoeddus.

O ystyried y gofyniad yn neddfwriaeth Cymru i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, mae'n hanfodol bod comisiynwyr yn ystyried yn ofalus sut maent yn darparu adnoddau ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol sylfaenol ac eilaidd fel elfennau annatod o fodel comisiynu "Un Gwasanaeth Cyhoeddus". Mae angen model soffistigedig er mwyn ystyried sut mae gwasanaethau ar draws y continwwm cymorth, yn cynnwys ymyrraeth gynnar ac atal, yn derbyn adnoddau priodol, a chyfleoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer alinio blaenoriaethau ar draws y rhanbarth a chynyddu adnoddau er mwyn gwneud y mwyaf o ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae dulliau arloesol presennol mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac atal Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys;

Ymgyrch Cwmpasu - partneriaeth ddiogelu ymyrraeth gynnar rhwng Cyngor Sir Penfro a Heddlu Dyfed Powys, â'r bwriad o ddiogelu a chefnogi plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig drwy sicrhau bod y gwasanaethau priodol yn cael gwybod am ddigwyddiad cyn gynted â phosibl. Eisoes yn ystod camau cyntaf ei weithredu, mae ymwybyddiaeth o'r ymgyrch yn cael ei godi ymysg plant a'u teuluoedd ac mae Arweinwyr Diogelu yn derbyn hysbysiadau cynnar am ddigwyddiadau'r heddlu, sy'n eu galluogi i atgyfnerthu trefniadau diogelu a chynnig llwybrau at gymorth cyn gynted â phosibl. Rhagwelir y bydd Ymgyrch Cwmpasu yn cael ei chyflwyno ym Mhowys yn 2018.

Prosiect Ymyrraeth Gynnar i Deuluoedd - Mae E-FIP, sy'n cael ei ddarparu gan Threshold DAS, yn cynnig ymagwedd teulu cyfan drwy ddarparu gwaith un i un ar gyfer y fenyw, ei phartner ac unrhyw blant sy'n gysylltiedig. Mae'r prosiect yn cynnig rhaglen cyflawnwyr sydd yn gweithio tuag at achrediad RESPECT a gwasanaeth cyfryngu sy'n gweithio i'r teulu cyfan.

Ysbrydoli Teuluoedd - mae hon yn rhaglen 10 wythnos strwythuredig, a ddyluniwyd fel offeryn asesu er mwyn cryfhau a sefydlogi teuluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig sydd yn dymuno aros gyda'i gilydd fel uned deuluol. Mae'r rhaglen yn rhoi fframwaith cydnerth i weithwyr proffesiynol allu asesu lefel y risg sy'n bodoli mewn cartref a bydd yn cael ei chyflwyno gan Calan DVS ym Mhowys a Sir Gaerfyrddin yn 2018.

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Plant Slough Ddadansoddiad o Fuddion Cost rhaglen beilot Ysbrydoli Teuluoedd yn Rhagfyr 2016. Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos yr amcangyfrifir bod y Rhaglen yn arbed tua £2.62 i'r trethdalwr am bob £1 gaiff ei wario yn ystod y 6 mis cyntaf ar ôl dechrau'r ymyrraeth.

Roedd yna arbediad cyfartalog o £4,114 am bob teulu a oedd yn mynychu'r Rhaglen, o'i gymharu â chost gyfartalog o £1,572 am bob teulu.

Cynllun Gofyn i Mi - menter gymunedol sy'n creu llefydd diogel yn y gymuned leol ble gall menywod sy'n dioddef cam-drin domestig ddweud wrth rywun am eu

profiadau. Mae'r cynllun yn recriwtio aelodau'r gymuned leol fel "Llysgenhadon Gofyn i Mi" sydd wedi cael eu hyfforddi i ofyn y cwestiynau iawn, ymateb yn briodol i ddatgeliadau o gamdriniaeth a gwybod ble i gyfeirio dioddefwyr i gael mwy o help.

Prosiect Braenaru i Fenywod - dull integredig, amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar fenywod o weithio â menywod a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ac sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu gan Gwalia yn Sir Benfro

Menter Bystander - Mae Prifysgol Aberystwyth, mewn partneriaeth â Chymorth i Ferched Cymru a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, yn ddiweddar wedi peilota Hyfforddiant Ymyrraeth Bystander. Lluniwyd Ymyrraeth Bystander er mwyn helpu myfyrwyr gwrywaidd a benywaidd i adnabod aflonyddu a cham-drin rhywiol, a rhoi sgiliau a hyder iddynt ymateb yn briodol. Hefyd, mae'n amcanu at newid normau diwylliannol sy'n goddef rhywiaeth ac aflonyddu.

Mae cysyniad Menter Bystander, sy'n darparu sgiliau a hyder i unigolion allu adnabod ac ymateb i unrhyw fath o drais a chamdriniaeth, yn un y gellid ei ddatblygu ymhellach yn y rhanbarth mewn ymateb i hyn ac i flaenoriaethau eraill, a hefyd fel mecanwaith ar gyfer datgelu cynnar a mynediad i gymorth a gwybodaeth briodol.

Ask – Ymholiadau rheolaidd ynghylch Cam-drin Domestig gyda Gwasanaethau Cyngor ar Bopeth yn cyfeirio unigolion at Linell Gymorth Byw Heb Ofn sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Roedd rhanddeiliaid a goroeswyr yn cydnabod y cyfle i gryfhau rôl ein cymunedau o ran ymyrraeth gynnar ac atal cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod, gan adeiladu ar y camau a nodwyd ym mlaenoriaeth strategol un. Ystyried dulliau megis "Gofyn i Mi", mentrau Bystander a "Cysylltwyr Cymunedol" rhanbarthol o ran sut y gallwn ni gefnogi cymunedau i feithrin eu cydnerthedd a'u hymatebion i drais a cham-drin a darparu pwynt cyswllt cyntaf i oroeswyr a'u teuluoedd?

Wrth ystyried ymatebion cymunedol a chyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar, roedd rhanddeiliaid yn cydnabod pwysigrwydd argaeledd gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd a fformatau i adlewyrchu cymunedau amrywiol yn y rhanbarth er mwyn sicrhau na chollir cyfleoedd i nodi ymddygiad o'r fath ac i ymyrryd yn gynnar.

Er mwyn sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn dod yn "fusnes i bawb", mae angen ymagwedd fwy cydlynol a chyson er mwyn sicrhau bod pob cysylltiad yn gyfle i ymyrryd yn effeithiol ac ataliol.

Mae darparu Gwasanaethau Gwybodaeth, Cymorth a Chyngor ar draws y rhanbarth yn unol ag Adran 17 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn gyfle i ymgorffori adnabod ac ymyrraeth gynnar i'r ffordd y datblygir y gwasanaethau prif lif yma.

Siaradodd goroeswyr am yr angen i weithwyr proffesiynol adnabod arwyddion o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, i ofyn cwestiynau yn ddiogel a chymryd camau priodol.

Mae integreiddio Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod i drothwyon diogelu cenedlaethol yn gyfle i wella cysondeb ymatebion proffesiynol a mynd i'r afael â rhai o'r cymhlethdodau a'r prosesau a'r systemau presennol sy'n gorgyffwrdd.

Mae cyflwyno "Gofyn a Gweithredu" fel rhan o Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn rhan allweddol o ddatblygu dull mwy cyson o adnabod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Mae 'Gofyn a Gweithredu' yn ddull o ymholi wedi ei dargedu sy'n seiliedig ar egwyddorion, a'r nod yw codi'r lefelau adnabod a chymorth i rai sy'n dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Cyhoeddwyd canllawiau ar ddarparu "Gofyn a Gweithredu" yn Rhagfyr 2017[40] a disgwylir i awdurdodau perthnasol roi'r dull hwn ar waith fel rhan o gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn ehangach.

Mae tystiolaeth yn dangos bod adnabod yn gynnar mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n arwain at lwybrau atgyfeirio at wasanaethau arbenigol, yn gwella datgeliadau ac atgyfeiriadau i gymorth ymysg goroeswyr. Mewn sefydliadau meddygon teulu, er enghraifft, pan fo'r dangosyddion yma yn sbarduno ymholiad wedi ei dargedu ynghylch cam-drin domestig, mae hynny yn arwain at well trafodaeth a datgeliad. Mae yna dystiolaeth gymharol bod sgrinio cyffredinol am gam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd, gyda chefnogaeth hyfforddiant a chymorth staff, yn gwella arferion, datgeliad a dogfennu cam-drin domestig. Cefnogwyd y dystiolaeth yma hefyd gan nifer o oroeswyr oedd wedi datgelu eu camdriniaeth i ddechrau mewn sefydliad gofal iechyd e.e. i feddyg teulu neu ymwelydd iechyd.

Mae rhaglen ymyrraeth IRIS (Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch) yn fodel gwasanaeth a werthusir a gall darparwyr iechyd ei gydgomisiynu'n effeithiol.

Mae IRIS yn rhaglen hyfforddiant, cymorth ac atgyfeirio trais a cham-drin domestig sy'n seiliedig ar arferion cyffredinol sy'n amcanu at wella ymateb gofal iechyd i drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Meysydd craidd y rhaglen yw hyfforddiant ac addysg, ymholiad clinigol, llwybrau gofal a llwybr atgyfeirio uwch i wasanaethau cymorth arbenigol. Caiff ei anelu at unigolion sydd yn dioddef cam-drin domestig ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth a chyfeirio i gyflawnwyr.

Mae IRIS yn gydweithrediad rhwng gofal sylfaenol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n arbenigo mewn Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Mae addysgwr eirioli yn gysylltiedig â meddygfeydd ac yn rhan o wasanaeth cymorth arbenigol lleol. Mae'r addysgwr eirioli yn gweithio mewn partneriaeth ag arweinydd clinigol lleol er mwyn cyd-ddarparu hyfforddiant i feddygfeydd gan sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol sgiliau adnabod cynnar sy'n galluogi ymateb ar amrantiad i oroeswyr sydd yn eu rhoi mewn cysylltiad â gwasanaeth arbenigol.

Yn nhermau egwyddorion buddsoddi i arbed, dangosodd dadansoddiad o fuddion cost IRIS bod yr ymyrraeth wedi arbed £37 am bob claf benywaidd a gofrestrwyd

[40] http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=en

ym mhob meddygfa ar gyfartaledd[41] a bu i'r cynlluniau peilot diweddar ym Myrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf dystiolaethu am gynnydd sylweddol mewn datgeliadau a chyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar, diogelu a llwybrau i gymorth.

Mae ap ar-lein a ddatblygwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol yng Ngwent yn darparu gwybodaeth i'r holl ymarferwyr tai rheng flaen mewn perthynas â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, sy'n eu galluogi i adnabod trais a chamdriniaeth posibl, i ymyrryd yn gynharach a darparu llwybrau i'r gwasanaethau lleol mwyaf priodol. Mae dulliau arloesol yn y sector tai ledled y DU yn gwella ymatebion i drais a chamdriniaeth, ac mae cyflwyno set o safonau a phroses achredu sefydledig gan Gynghrair Tai Cam-drin Domestig (DAHA) yn amcanu at gefnogi ac ymgorffori arferion gorau ar draws y sector.

Mae Gorchmynion a Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig a Chynllun Trais Domestig yn cynnig rhai cyfleoedd i'r Heddlu ymyrryd yn gynharach drwy sefydlu camau diogelu yn syth ar ôl digwyddiad o drais domestig, neu ddatgelu gwybodaeth am ymddygiad troseddol treisgar a chamdriniol blaenorol unigolyn, pan allai hynny helpu i ddiogelu'r partner neu gyn-bartner rhag trais a chamdriniaeth.

Mae niferoedd y DVPNau a gyhoeddwyd gan Heddlu Dyfed-Powys rhwng 2015/16 a 2016/17 wedi haneru bron, o 48 i 25. O ystyried y ganran uchel o DVPOau a roddwyd mewn ymateb i'r hysbysiadau, a'r lefel gymharol isel o achosion o dorri gorchmynion, rydym angen deall yn well sut mae'r mecanweithiau yma yn cael eu defnyddio fel camau atal a diogelu ar gyfer unigolion.

Mae gan Ddyfed Powys gyfradd ailadrodd o 19% mewn perthynas ag achosion yn cael eu trafod gan MARAC, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'n dal yn cynrychioli dros 260 o unigolion a theuluoedd yn y rhanbarth.

Rydym eisiau lleihau mwy ar ailadrodd digwyddiadau o drais a chamdriniaeth drwy atgyfnerthu'r defnydd o gamau ataliol sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus, ac ystyried eu heffeithiolrwydd.

Cyhoeddwyd dau Adolygiad o Ddynladdiadau Domestig yn y rhanbarth ers eu sefydlu'n statudol o dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, ac ar hyn o bryd mae yna dri DHR yn cael eu cynnal ar wahanol gamau.

Un o ddibenion DHR yw:

> "atal trais a dynladdiadau domestig a gwella ymatebion gwasanaethau i bob dioddefwr trais a cham-drin domestig a'u plant drwy ddatblygu dull amlasiantaeth cydlynol er mwyn sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei adnabod ac yr ymatebir iddo yn effeithiol cyn gynted â phosibl"[42]

Mae'r Canllawiau Statudol ar gyfer DHRau yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ac yn rhoi'r ddyletswydd gyffredinol i sefydlu'r adolygiad ar ysgwyddau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol. Mae hynny i bob pwrpas wedi arwain at

[41] Cost effectiveness BMJ, Devibe.A Spencer. A Eldridge.S Norman,R Feder.G June 2012

[42] Adran 7 d) Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004

ymagweddau tuag at DHRau sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol a cholli cyfleoedd i rannu'r hyn a ddysgir a hysbysu arferion yn ehangach.

Y Weithrediaeth Ddiogelu Ranbarthol sy'n gofalu am strwythurau llywodraethu presennol y strategaeth hon, a cheir cydnabyddiaeth yn eu Cynllun Blynyddol o'r angen i wella'r rhyngwyneb rhwng Adolygiadau Arferion Plant ac Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiadau Domestig; mae'r strategaeth hon hefyd yn cydnabod yr angen i adolygu trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chraffu ar gyfer DHRau, ac mae'n amcanu at alinio'n agosach â strwythurau adolygu diogelwch presennol a darparu platfform rhyngwladol ar gyfer gwella arferion a dysgu ar y cyd. Bydd adolygiad hefyd yn gyfle i ystyried trefniadau cyllido presennol ar gyfer DHRau a chyfle i alinio eto â threfniadau adolygiadau diogelu eraill gan sicrhau bod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael ei ymgorffori yn yr agenda ddiogelu.

Pa gamau fyddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon?

Byddwn yn

- Ystyried yr hyn a ddysgir ac effeithlonrwydd modelau EIP sy'n cael eu rhoi ar waith yn y rhanbarth
- Cytuno ar fodel EIP integredig a chydlynol fydd yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer ailfodelu a chomisiynu gwasanaethau
- Gweithio ag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, Yr Heddlu, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Sector Arbenigol er mwyn ailffocysu cyllido yn unol â'r model gwasanaeth cytunedig.
- Canfod cyfleoedd cyllido er mwyn cefnogi ehangu'r model EIP
- Cefnogi meddygon teulu i beilota IRIS mewn clystyrau a glustnodir ym mhob ardal Bwrdd Iechyd
- Cefnogi a darparu dulliau cymunedol o atal
- Gwella'r dull o adnabod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn gynharach gan weithwyr proffesiynol drwy weithredu "Gofyn a Gweithredu" yn effeithiol
- Gweithio â phartneriaid er mwyn adolygu ac atgyfnerthu proses MARAC yn cynnwys llwybrau atgyfeirio, ymgysylltu â phartneriaid, cofnodi data ac adrodd a gwneud y mwyaf o fynediad i gymorth holistig er mwyn gwella diogelwch dioddefwyr ac ymyriadau â chyflawnwyr er mwyn atal mwy o gam-drin a lleihau'r risg.
- Monitro defnydd effeithiol o offer ataliol e.e. DVPO / DVPN, Cynllun Datgelu, Deddfwriaeth Tai
- Adolygu trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chraffu ar gyfer Adolygiadau Dynladdiadau Cam-drin Domestig

- Ymgorffori Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod mewn trothwyau diogelu rhanbarthol a sicrhau ymateb cyson i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar draws y rhanbarth

Blaenoriaeth Strategol 5: Gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Roedd goroeswyr yn teimlo bod yna bobl yn yr holl wasanaethau a oedd â diffyg gwybodaeth angenrheidiol, dealltwriaeth ag agwedd empathetig er mwyn annog hyder i ddatgelu Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Roedd goroeswyr yn teimlo nad oedd staff yn y gwasanaethau statudol a gwasanaethau proffesiynol eraill wedi cael eu hyfforddi a/neu nad oedd ganddynt yr hyder i weithredu ar faterion a godwyd, er y gallai hynny fod yn anuniongyrchol.

Roedd goroeswyr gwrywaidd yn arbennig yn teimlo bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud tybiaethau a'u bod yn rhagfarnllyd o ran eu dealltwriaeth o gam-drin domestig, ac roedd hynny yn arwain at lai o hyder mewn cysylltiadau proffesiynol.

Roedd goroeswyr yn adrodd yn gyson am ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol am gam-drin anghorfforol, yn cynnwys ymddygiadau gorfodi a rheoli ac ystelcian ac aflonyddu, ac roedd hynny'n golygu nad oedd digwyddiadau yn cael eu hystyried o ddifri a bod goroeswyr yn teimlo cyfrifoldeb am brofi'r cam-drin parhaus.

Siaradodd goroeswyr am yr agweddau yr oeddent wedi dod ar eu traws gan wasanaethau cyhoeddus a sut yr oedd hynny wedi effeithio arnynt;

"Gwnaethpwyd i mi deimlo mai fi oedd ar fai"

"Dywedodd un rhingyll yr heddlu wrtha i am fod yn "fwy o ddyn" (goroeswyr gwrywaidd)

Dywedodd un dioddefwr ymosodiad rhywiol ei bod yn "teimlo fy mod yn flwch ticio"

Roedd goroeswyr yn siarad yn gyson am weithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cyhoeddus nad oedd yn gwrando arnynt neu ddim yn eu credu

"Pan gefais y cryfder i adael, cefais fy nhrin yn wael eto gan y gwasanaeth oedd yn gyfrifol amdanaf"

Mae goroeswyr yn disgwyl i weithwyr proffesiynol

"ei weld, gwybod beth ydyw a gwneud rhywbeth"

ac ymateb i unigolion drwy

"eistedd i lawr, gwrando, credu a gofyn sut allant helpu"

Dywedodd un goroeswr yn syml

"peidiwch â'n trin yn wahanol oherwydd ein bod mewn sefyllfa gamdriniol - nid ydym wedi gofyn am hynny"

Bu i oroeswyr fynegi pryderon penodol mewn perthynas â'u profiadau yn y Llysoedd Teulu gan flaenoriaethu'r angen am well ymwybyddiaeth ac ymateb i gam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol (CAFCASS Cymru, barnwyr a phersonél y llys, canolfannau cyswllt).

Rydym eisiau bod yn hyderus bod gan yr holl weithwyr proffesiynol yn ein hardal y wybodaeth i allu ymateb yn effeithiol i unrhyw ddatgeliad o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn amcanu at atgyfnerthu'r ymateb ymysg y rhai sy'n cynnig gwasanaeth arbenigol neu gyffredinol. Mae'n amcanu at gyflwyno sicrwydd ansawdd a chysondeb mewn perthynas â hyfforddi gweithwyr proffesiynol ynghylch materion Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol byddwn yn gwella ymatebion ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar a darparu porth i ddioddefwyr gael mynediad i fathau priodol o gymorth a chefnogaeth.

Ond mae rhai rhanddeiliaid yn rhwystredig ynghylch yr oedi o ran gweithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn y rhanbarth, tra bod eraill wedi siarad am ddiffyg eglurder o ran disgwyliadau mewn perthynas â'r Fframwaith. Bu i ni hefyd glywed am sut y gellid gwella agweddau tuag at y Fframwaith a chyfathrebu mewn perthynas â hynny, er mwyn egluro disgwyliadau'n well a pherthnasedd i weithwyr proffesiynol rheng flaen.

Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn gysylltiedig ag "awdurdodau perthnasol"; y pedwar Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae CAFCASS CYMRU hefyd yn rhan o gylch gwaith y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.

Mae'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol hefyd yn gymwys i'n gwasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod arbenigol sy'n sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â rhai yr effeithir arnynt gan Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn broffesiynol, arbenigol ac yn briodol gymwys, a gwella safonau proffesiynol er mwyn ategu'r gwasanaethau a ddarperir a sut maent yn cael eu harwain.

Fodd bynnag mae gwasanaethau arbenigol yn adrodd am argaeledd cyfyngedig a goblygiadau'r hyfforddiant presennol sy'n gyffelyb i'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol o ran adnoddau. Er mwyn mynd i'r afael â hynny ac ymateb i'r galw am wasanaetha arbenigol, mae Threshold DAS yn y broses o ddatblygu cymhwyster penodol i Gymru ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol

Y Grŵp Hyfforddi a Datblygu sydd yn arolygu sut y gweithredir y Fframwaith, ac mae'n atebol i'r Weithrediaeth Ddiogelu, ac mae datblygu'r strategaeth hon yn gyfle i sicrhau bod yna gynrychiolaeth a phartneriaethau priodol er mwyn cefnogi gweithredu'r Fframwaith yn effeithiol yn y rhanbarth.

Nid yw'r sector gwirfoddol ehangach, partneriaid yn y Cymdeithasau Tai, Yr Heddlu, Cyfiawnder Troseddol a Sifil a’r system Llysoedd Teulu yn rhan o gylch gwaith y Fframwaith, ac mae angen sicrhau bod yr hyfforddiant a roddir i’r asiantaethau hyn yn cwmpasu elfennau ehangach trais a cham-drin rhywiol, trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn llawn, a bod eu hymatebion yn cael eu hysbysu gan fodelau arfer dda gyda’r sector arbenigol a goroeswyr yn gyfranwyr allweddol e.e. rhaglen “Materion DA” Bywydau Diogel, hyfforddiant Rheolaeth a Rheoli Gorfodol ac Ystelcian ac Aflonyddu a gymeradwyir gan y Coleg Plismona, DAHA (Cynghrair Tai Cam-drin Domestig - safonau ac achrediad). Mae sicrhau bod gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sefydliadau ehangach hyn y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i ymateb i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod yn hanfodol er mwyn gwella ymatebion cyffredinol i unigolion a theuluoedd. Dylid rhoi ystyriaeth i sut y gall awdurdodau perthnasol, drwy wasanaethau wedi'u comisiynu, annog sefydliadau i fabwysiadu ymwybyddiaeth a hyfforddiant perthnasol ar gyfer eu staff.

Mewn ymateb i brofiadau goroeswyr ac arbenigwyr o’r system cyfiawnder troseddol mae Threshold DAS wedi sicrhau cyllid i ddatblygu a darparu rhaglen hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cyfreithiol proffesiynol ar draws y system cyfiawnder troseddol a sifil gyda’r amcan o wella dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a chyfleoedd i atgyfeirio unigolion at gymorth priodol.

Mae rhanddeiliaid yn cydnabod cyfle i ystyried sut y mae'r hyfforddiant mewn perthynas ag Ymatebion sy'n seiliedig ar Drawma a ddatblygir gan Hwb ACE Cymru Gyfan a Phrosiect Trawsnewid yr Heddlu yn alinio â'r flaenoriaeth hon. Mae nifer o oroeswyr yn profi trawma cymhleth ond eto ni chaiff effaith y trawma hwn ei hystyried gan ymarferwyr bob amser, sy'n gallu arwain at unigolion yn cael eu hail-drawmateiddio. Gall sylweddoli sut y gall hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma wella ymhellach ymatebion gweithwyr proffesiynol i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod gyfrannu ymhellach at gyflawni'r flaenoriaeth strategol hon.

Mae’r flaenoriaeth strategol hon wedi ei halinio'n glir â blaenoriaethau datblygu gweithlu a bennwyd gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mae’n gyfle i ddefnyddio dull gweithredu rhanbarthol wedi ei brif lifo.

Er bod y flaenoriaeth strategol hon yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth staff i ymateb i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod mae rhanddeiliaid wedi nodi bod angen i awdurdodau perthnasol (a phartneriaid ehangach) ystyried eu hymatebion sefydliadol i'r materion hyn. Mae Blaenoriaeth Strategol Un yn ystyried polisïau gweithle fodd bynnag, roedd yr ystyriaeth a nodwyd mewn ymateb i'r flaenoriaeth hon yn annog cyflogwyr i ystyried mecanweithiau cymorth ar gyfer goroeswyr yn eu gweithlu sydd, drwy hyfforddiant, wedi nodi eu bod yn profi trais a cham-drin a hefyd ar gyfer staff rheng flaen a fydd yn gweithio gydag unigolion sydd wedi dioddef trais a cham-drin a'r trawma dirprwyol posibl y gallant fod yn ei brofi.

Pa gamau fyddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon?

Byddwn yn

- Ymgorffori'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol mewn cynlluniau datblygu gweithlu strategol rhanbarthol
- Goruchwylio, monitro ac adolygu sut y gweithredir y Fframwaith yn rhanbarthol gan sicrhau cydymffurfiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau perthnasol, a chefnogi'r sector arbenigol i gyflawni Grwpiau 4/5
- Canfod cyfleoedd i beilota elfennau o'r Fframwaith er mwyn hysbysu'r broses o'i gyflwyno'n ehangach yn y rhanbarth
- Sicrhau bod rhaglen o hyfforddiant amlasiantaeth ar gael yn rhanbarthol i'r holl weithwyr proffesiynol mewn perthynas â phob math o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.
- Sicrhau partneriaethau strategol a gweithredol priodol er mwyn cefnogi gweithredu'r Fframwaith yn effeithiol
- Wrth weithredu'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol a hyfforddiant ehangach, dylid ystyried mecanweithiau cymorth ar gyfer staff sy'n gyfrifol am eu rhoi ar waith.

Blaenoriaeth Strategol 6: Darparu mynediad cyfartal i ddioddefwyr i wasanaethau o ansawdd uchel sydd wedi eu harwain gan anghenion, sydd wedi eu seilio ar gryfderau ac sy'n ymatebol i rywedd ar draws y rhanbarth.

Gall darparu cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan VAWDASV fod yn gymhleth, a gall profiadau ac anghenion pobl fod yn wahanol iawn. Bydd goroeswyr yn dewis ymgysylltu â gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac mae angen ystod o wasanaethau hygyrch all ymateb yn effeithiol ac yn gyffredinol i'r anghenion hyn. Mae gan wasanaethau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau arbenigol annibynnol rôl allweddol i'w chwarae.

Rydym eisiau i oroeswyr allu cael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, wedi'u darparu yn y man priodol ac ar yr adeg briodol ar eu taith o wella.

Rydym yn cydnabod bod angen ymatebion gwahanol a phenodol gan y gwasanaethau i oroeswyr sydd wedi cam-drin domestig, trais a cham-drin rhywiol, Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, Priodas dan Orfod a'r hyn a elwir yn "Drais yn Seiliedig ar Anrhydedd", ac mae'n amlwg bod angen ymateb lluosogaethol er mwyn bodloni anghenion amrywiol ein cymunedau. Nid oes yna'r un grŵp a gynhwysir o dan y Ddeddf sy'n grŵp unffurf, felly bydd angen i ymatebion fod yn gymhleth, soffistigedig, amrywiol ac yn sensitif i'r ardal leol er mwyn ymateb i anghenion.

Yn y ddogfen hon drwyddi draw rydym wedi amcanu at adlewyrchu profiadau goroeswyr ac wedi amlygu rhai o'r bylchau, problemau capasiti a chyfleoedd i ailfodelu gwasanaethau sydd yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth strategol hon.

Siaradodd rhanddeiliaid am natur ddarniog ac anghyson y ddarpariaeth bresennol, a bod goroeswyr yn gorfod wynebu "loteri cod post" o ran darpariaeth ar draws y rhanbarth. Teimlwyd bod y ddarpariaeth bresennol yn adweithiol ac yn canolbwyntio ar yr argyfwng yn hytrach na darparu ymyrraeth gynharach a defnyddio dulliau ataliol.

Siaradodd rhanddeiliaid hefyd am ddiffyg eglurder o ran pa wasanaethau oedd ar gael ar draws y rhanbarth, meini prawf cymhwysedd a phriodoldeb o ran bodloni anghenion unigolion.

Bu llawer o drafod yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu am gymhlethdod llwybrau atgyfeirio presennol, y teimlwyd eu bod yn gosod rhwystrau rhag datgelu, a'u bod yn ddibynnol ar allu'r unigolyn i bori drwy'r wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau. Enghraifft o hyn sy'n digwydd dro ar ôl tro yw'r angen i gryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol a gwasanaethau iechyd meddwl yn y rhanbarth gan alluogi goroeswyr i gael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl priodol yn amserol.

Pan fo gweithwyr proffesiynol yn adnabod Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod, roeddent eisiau llwybr atgyfeirio clir a chyson oedd yn hwyluso ffordd gyflymach a mwy cydlynol at y gwasanaethau fyddai orau ar gyfer bodloni eu hanghenion.

Bu i'r digwyddiadau ymgysylltu amlygu bod angen i'r rhanbarth gyrraedd sefyllfa pan fo ganddi gyfres o wasanaethau, o ataliaeth sylfaenol i ddiogelu a chymorth ac adferiad hirdymor, sy'n ystyried sbectrwm Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ac anghenion amrywiol ein cymunedau. Er mwyn darlunio hynny ymhellach, datblygwyd diagram continwwm gwasanaethau, ac mae'n cael ei gynnwys dros y dudalen.

Roedd rhanddeiliaid a goroeswyr yn cydnabod yr angen i arenwi natur debygol y galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae nifer o ffactorau yn y strategaeth hon e.e. "Gofyn a Gweithredu", y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, codi ymwybyddiaeth a gwella gwybodaeth, ymyrraeth gynnar a mentrau ataliol yn debygol o gynyddu'r lefelau arenwi a'r galw am wasanaethau, ac fel rhanbarth mae'n rhaid i ni sicrhau bod y modelau gwasanaeth priodol wedi eu sefydlu a bod gan y gwasanaethau hynny y capasiti i ymateb i hynny. Yn ystod y blynyddoedd diweddar rydym wedi gweld sut y mae adroddiadau ar y cyfryngau am gam-drin a chamfanteisio rhywiol wedi arwain at gynnydd mewn galw am wasanaethau trais rhywiol arbenigol, galw nad yw ar hyn o bryd yn cael ei fodloni yn y rhanbarth, ac mae'n rhaid i hynny gael ei ystyried fel rhan o gynlluniau strategol y gwasanaeth.

Teimlwyd y dylai cymhwysedd i dderbyn y gwasanaethau olygu "angen gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod", gan ganolbwyntio mwy ar egwyddorion y gwasanaethau yn hytrach na chymhwysedd yn seiliedig ar risg, cymhlethdod neu argaeledd gwasanaethau. Ystyriwyd bod hynny yn flaenoriaeth i'r Grŵp Strategol yn syth.

Mae gwasanaethau Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod arbenigol yn gweithredu mewn fframwaith o safonau gwasanaethau o ansawdd

achrededig sy'n darparu meincnodau ar gyfer darparwyr gwasanaethau, cyllidwyr a chomisiynwyr ynghylch swm a chymysgedd y gwasanaethau ddylai fod ar gael, pwy ddylai eu darparu a'r sylfaen o egwyddorion ac arferion ddylai danategu'r ffordd y'u gweithredir.

Cyfeirir at y safonau a'r achrediadau hyn a chânt eu cymeradwyo gan y Swyddfa Gartref yn eu "Canllawiau ynghylch Cefnogi Comisiynu Lleol", sy'n nodi

"mae'n bwysig alinio ansawdd y gwasanaeth gyda'r Safonau Craidd Cenedlaethol a Rennir...Dylid comisiynu gwasanaethau yn seiliedig ar y safonau gwasanaeth cenedlaethol perthnasol ar gyfer y gwasanaeth hwnnw...Mae'r safonau a rennir yn cynorthwyo comisiynwyr er mwyn sicrhau y gellir defnyddio'r safonau annibynnol yn genedlaethol a lleol at ddibenion cydgomisiynu. Ni fwriedir iddynt fodoli ar wahân, ond cytunwyd arnynt fel safonau craidd dynodedig, sef y safonau gofynnol sy'n gyffredin i'r holl aelod sefydliadau".[43]

Gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ac ieithoedd eraill

Mae hon yn ystyriaeth bwysig i'n rhanbarth adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau.

Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion nag yng Nghymru gyfan ac mae'n hollbwysig bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ar gyfer pobl o gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru y mae'r Gymraeg yn iaith ddewisedig iddynt.

Yn ogystal, roedd rhanddeiliaid a goroeswyr yn cydnabod pwysigrwydd bod gwasanaethau ar gael i unigolion lle nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu hiaith ddewisedig. Esboniodd rhanddeiliaid bod ymatebion cyfredol yn cynnwys cyfieithiadau drwy wasanaethau megis Llinell Iaith a The Big Word a defnyddio sgiliau iaith ac adnoddau o fewn sefydliadau a ledled y rhanbarth.

Mae rhanddeiliaid yn teimlo y dylai'r gallu i wasanaethau ymateb yn effeithiol ac yn briodol i unrhyw unigolyn sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod fod yn egwyddor annatod o ran comisiynu gwasanaethau gan gydnabod costau cysylltiedig fel elfen sylfaenol o'r ddarpariaeth.

Darpariaeth Leol, Ranbarthol a Chenedlaethol

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon rydym wedi rhoi ystyriaeth i gydbwyso'r ymagwedd strategol ranbarthol a'r ddarpariaeth leol. Rydym yn rhwymedig i sicrhau, ble bynnag fo pobl yn byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, y gallent fod yn sicr y byddant yn derbyn ymatebion cyson a mynediad i wasanaethau o ansawdd uchel er mwyn bodloni eu hanghenion.

Er mwyn cyflawni cysondeb ac arbedion maint byddwn yn gweithio'n rhanbarthol er mwyn cyflawni cynaliadwyedd wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau arbenigol. Ond, nid yw hynny'n golygu y bydd yr holl wasanaethau yn edrych yn union yr un fath ym mhob ardal. Mae ein Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cydnabod

[43]Cyfeirir at dudalennau 68-74 o offeryn comisiynu Cymru ar gyfer y safonau craidd a rennir ar draws cyrff achredu IMKAAN, Argyfwng Treisio Cymru a Lloegr, Respect, Safelives a Chymorth i Ferched. Mae gan bob corff cenedlaethol ei safonau Ansawdd ei hun ar gyfer eu gwaith arbenigol.

amrywiaeth ein rhanbarth, sy'n cynnwys ardaloedd ôl-ddiwydiannol sydd ag amddifadedd cymdeithasol sylweddol, a chymunedau gwledig ac arfordirol. Mae'n rhaid i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'r ffordd o gael mynediad iddynt, adlewyrchu anghenion penodol cymunedau o'r fath.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd nifer o wasanaethau arbenigol yn cael eu darparu gan sefydliadau trydydd sector bychan, ac mae yna risg yn gysylltiedig â dulliau comisiynu rhanbarthol y gall darparwyr o'r fath wynebu anfanteision sylweddol mewn ymarferion caffael ar raddfa fawr. Felly mae'n bwysig bod comisiynwyr yn ceisio diogelu a gwella cryfderau ac arbenigedd darparwyr gwasanaeth arbenigol cymunedol bychan wrth ystyried dulliau caffael ar draws y rhanbarth. [44]

Fel rhanbarth byddwn, fel rhan o ddatblygu ein strategaeth gomisiynu, yn gofyn i ni'n hunain a fyddai'n well comisiynu elfennau o'r continwwm o wasanaethau yn lleol, rhanbarthol neu'n genedlaethol. Enghraifft o ystyriaeth o'r fath fyddai gwasanaethau arbenigol ar gyfer Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, Priodas dan Orfod a'r hyn a elwir yn "Drais ar sail anrhydedd". Yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n gysylltiedig ag anghenion, gallai fod yn bosibl comisiynu gwasanaeth er mwyn cefnogi unigolion ar lefel leol neu ranbarthol, ond mewn achosion ble clustnodwyd bod unigolion angen cymorth arbenigol rydym angen llwybr atgyfeirio clir at y sefydliadau arbenigol cenedlaethol, BAWSO, er mwyn cefnogi'r unigolyn a'r teulu a gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achos.

Fel rhanbarth rydym yn ddiweddar wedi comisiynu gwasanaeth IDVA rhanbarthol ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gydnabod yr angen am gysondeb safonau a darpariaeth gwasanaethau yn rhanbarthol, ond yr angen hefyd am fynediad i wasanaeth a'r ddarpariaeth sydd wedi ei ganolbwyntio'n lleol.

Bydd ystyriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn siapio ein hymateb i'r continwwm o wasanaethau gan sicrhau y gall goroeswyr pob math o Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod gael mynediad i wasanaethau o ansawdd uchel sydd wedi eu harwain gan anghenion, sydd wedi eu seilio ar gryfderau ac sy'n ymatebol i rywedd ar draws y rhanbarth.

Pa gamau fyddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon?

Byddwn yn

- Datblygu llwybr atgyfeirio integredig all alluogi mynediad effeithiol i'r amrywiaeth o wasanaethau a gweithredu fel porth y gall pobl ei ddefnyddio i gyrraedd y gwasanaethau sydd fwyaf perthnasol i'w hanghenion yn ddidrafferth
- Mabwysiadu'r Continwwm o Wasanaethau fel model i ddatblygu dull effeithiol o integreiddio gwasanaethau fel bod dioddefwyr, goroeswyr a chyflawnwyr yn

[44] Canllawiau Comisiynu Drafft Llywodraeth Cymru (2018)

derbyn continwwm o wasanaethau ataliol, diogel a chefnogol, yn unol â'u hanghenion sydd yn gyson drwy'r rhanbarth.

- Sefydlu canolfan atgyfeirio ac asesu amlasiantaeth integredig a chydlynol ble ystyrir Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel "busnes i bawb" ac yr ystyrir hynny mewn cyd-destun diogelu ehangach; sy'n galluogi ymyrraeth gynharach gyda dioddefwyr a chyflawnwyr.
- Adolygu trefniadau comisiynu presennol a pharatoi strategaeth gomisiynu "un gwasanaeth cyhoeddus" integredig ar y cyd yn seiliedig ar yr egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon yn unol â'r continwwm o wasanaethau.



Ymateb Integredig i VAWDASV
Continwwm Cymorth
Atal
Ymyrraeth
Diolgelu
Cymorth
Codi Ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at gydraddoldeb a phob math o VAWDASV
Unigolion
Ffrindiau, Teulu, Cymdogion, Cyflogwyr
Cymunedau
Ymgyrchoedd Lleol a Chenedlaethol – adnoddau/ deunyddiau
Cymunedau – galluogi a chefnogi cymunedau i godi ymwybyddiaeth, mentrau atal ac ymyriadau cynnar e.e. Gofyn i Mi, Llysgenhadon, Cysylltwyr Cymunedol, pwyntiau datgelu Diogel
Gwybodaeth Weledol – Gwybodaeth a mynediad i wasanaethau e.e. Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Addysg – Dull cyson o ran VAWDASV ledled y rhanbarth
Gweithredu dull addysg gyfan
Perthnasoedd Iach a Chydraddoldeb
Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol
Gweithredu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gan awdurdodau perthnasol a gwasanaethau arbenigol.
Hyfforddiant Ehangach – annatganoledig / amherthnasol.
Polisiau Gweithle – annog a chefnogi gweithwyr i ddatblygu ac i weithredu
Un Pwynt Cyswllt
Ble i fynd
Sut i gael mynediad i gymorth a chefnogaeth
Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol
Gofynion Gofyn a Gweithredu ar awdurdodau perthnasol
Seiliedig ar Dystiolaeth – IRIS, Ysbrydoli Teuluoedd
Ymyriadau seiliedig ar Addysg e.e. Ymgyrch Cwmpasu
DVPO/DVPN, Cynllun Datgelu
MARAC
Gorchmynion Diogelu rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod a Phriodas Dan Orfod
Ymatebion i Gyflawnwyr
Dulliau Rheoli Troseddwyr
Pecyn Adnabod Cyflawnwyr Blaenoriaethol, WISDOM, Rheoli Troseddwyr Integredig
Ymyriadau NRC/NPS
Rhaglenni Cymunedol Achrededig
Gwasanaeth Cyhoeddus yn mynd i'r afael ag anghenion cyflawnwyr
Ymyriadau Diogelu Statudol
Gwella Diogelwch
ISVA
IDVA
Model Cymorth holistig, integredig a chydlynol ar draws asiantaethau i ddiwallu anghenion yr holl oroeswyr a rhwydweithiau cymorth ac mewn ymateb i bob math o VAWDASV.
Cymorth yn y Gymuned – cymorth fel bo'r angen + eiriolaeth – tymor byr, tymor canolig a thymor hir
Cymorth Ymarferol – Ariannol, Cyfreithiol, Byw'n Annibynnol
Ymyriadau Therapiwtig Teuluol a Chwnsela – Delio â chanlyniadau tymor hir VAWDASV
Darpariaeth SARC
Gwasanaethau CYP arbenigol priodol i oed
Cyflogadwyedd, Sgiliau, Cymwysterau, Profiadau, Gwirfoddoli
Ymyriadau Teuluol Cynnar e.e. E-FIP, Ysbrydoli Teuluoedd, A2P, Cyfryngu, Cymorth CYP, Rhaglen Dewis, Dull Teulu Cyfan
Rhannu Gwybodaeth ac ymateb cydlynog i risg ac asesiad anghenion.
Gwasanaethau Gwybodaeth Cymorth a Chyngor (Rhanbarthol)
Trefniadau Cyswllt Diogel
Llwybrau Atgyfeirio Integredig i'r holl unigolion y mae VAWDASV wedi effeithio arnynt
Rhannu Gwybodaeth ac ymateb cydlynol i risg ac asesiad anghenion
Fframwaith Perfformiad / Data
Adnoddau Cronnol / Comisiynedig, Cydlynol, Integredig
Yr Iaith Gymraeg
Cydweithredia d, Integreiddio a Phartneriaeth
Cydgynhyrchu
Cydraddoldeb
Ymgysylltu â Goroeswyr
VAWDASV yn gyffredinol
Diogelu a Chymorth
Ymyrraeth Gynnar ac Atal
Dysgu ar y Cyd

ADRAN 13 - SUT Y BYDDWN NI'N MONITRO EIN CYNNYDD: EIN CYNLLUN CYFLAWNI STRATEGOL

Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n gyfrifol am gyfeiriad a throsolwg strategol y strategaeth hon.

Sefydlwyd Grŵp Strategol sy'n atebol i'r Weithrediaeth Strategol ranbarthol er mwyn darparu strwythur llywodraethu i ddatblygu, cymeradwyo a monitro'r strategaeth hon a gwaith rhanbarthol.

Mae'n rhaid i'r strategaeth yma danategu a chyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau rhanbarthol allweddol a nodir yn y Cynlluniau Llesiant, Ardal, Diogelu a Phlismona a Throseddu. Er mwyn i'r strategaeth gael ei halinio â'r cynlluniau ehangach hyn, mae angen datblygu llinellau adrodd ffurfiol o'r Grŵp Strategol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Diogelu rhanbarthol CYSUR a CWMPAS, y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol a strwythurau rhanbarthol eraill, gyda chyfleoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer dylanwadau ar gynllunio strategol rhanbarthol a hysbysu hynny.

Mesur cynnydd y Strategaeth

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wneir o ran cyflawni amcanion y Strategaeth Genedlaethol a chyflawniadau mewn perthynas â dibenion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae Adran 11 y Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru 'gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol y gellid eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd o ran cyflawni dibenion y Ddeddf hon.' Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur cynnydd cenedlaethol cyfunol o ran cyflawni dibenion y Ddeddf.

Mae'r dangosyddion Cenedlaethol, ynghyd â'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol, Dangosyddion Llesiant a Deiliannau Cefnogi Pobl yn rhoi cyfle newydd i asiantaethau a phartneriaethau ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru weithio ar fframwaith mesur cydlynol a phrif lifo data Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod ar draws meysydd polisi ehangach, mewn ffordd sydd yn alinio â'r dangosyddion cenedlaethol yma.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon bu i ni nodi pedair cydran y gellir eu hystyried fel galluogwyr a chynhalwyr newid a gwelliant. Maent yn ymwneud â gwella ac integreiddio prosesau craidd er mwyn hwyluso datblygu ffyrdd cyson a chydlynol o wella canlyniadau i unigolion a'u teuluoedd sydd wedi dioddef Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol.

Mae dau o'r galluogwyr hyn yn rhan allweddol o fonitro a mesur effaith y strategaeth hon;

- datblygu fframwaith perfformiad clir yn seiliedig ar ganlyniadau sy'n coladu data cyson a chydlynol gan sefydliadau a meysydd polisi a;

- Mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso'r strategaeth a'i heffeithlonrwydd

Bydd y Grŵp Strategol hwn yn clustnodi canlyniadau a dangosyddion rhanbarthol er mwyn mesur cynnydd a llwyddiant o ran cyflawni'r Strategaeth a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus, rhanddeiliaid eraill a chymunedau i ddeall y gwahaniaeth mae ein strategaeth yn ei wneud i unigolion a theuluoedd, ac i ba raddau mae ein blaenoriaethau yn cael eu cyflawni.

Bydd y Grŵp yn egluro aliniadau rhwng canlyniadau/dangosyddion y strategaeth hon a rhaglenni gwaith lleol a rhanbarthol ehangach er mwyn nodi cyfleoedd i integreiddio a chadarnhau mesurau llwyddiant mor gynnar â phosibl.

Bydd y fframwaith perfformiad, fydd yn cynnwys canlyniadau a dangosyddion i fesur a monitro cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth hon, yn cael ei ddatblygu gan y Grŵp Strategol. Bydd y fframwaith perfformiad yma, fydd yn ategu fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol eraill, yn galluogi craffu cydnerth ar yr hyn a gyflawnir, a bydd yn cael ei ategu gan set gynhwysfawr o ddata y byddwn yn ei ddefnyddio i geisio safoni data ar draws meysydd polisi ehangach, gwasanaethau a'r boblogaeth.

Y Cynllun Cyflawni Strategol

Trwy ei Gynllun Cyflawni blynyddol, bydd y Grŵp Strategol yn gosod amcanion clir sy'n ymdrin â'r holl flaenoriaethau ac yn amlinellu sut y bydd yn cyflawni hyn.

Mae'r Cynllun, sy'n gynllun gweithredu SMART, yn ddogfen weithio sy'n amlinellu ymrwymiad y Grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Strategol.

Bydd y Grŵp Strategol yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun Cyflawni, gan adrodd yn ôl i'r Weithrediaeth Ddiogelwch Ranbarthol a phartneriaethau lleol a rhanbarthol allweddol eraill er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni'n effeithiol o dan Ddeddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015.

Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni'n effeithiol, bydd y Grŵp Strategol yn cytuno ar strwythur gweithredu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen neu nodi grwpiau sydd eisoes yn bodoli yn y rhanbarth ac a fyddai orau i symud y camau gweithredu a nodwyd yn eu blaen yn flynyddol.

Sylwadau cloi

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, mae ffocws a chyfeiriad gwaith y Weithrediaeth Ddiogelu a'r Grŵp Strategol wedi cael eu diffinio, a nodwyd fframwaith gweithredu yn y cynllun cyflawni strategol.

Fel partneriaeth rydym yn rhwymedig i atgyfnerthu a gwella ein hymateb cyfun i Gam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod fel bod y blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon yn cael eu troi'n weithredoedd all wneud gwir wahaniaeth i lesiant a diogelwch pobl sy'n byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, nawr ac yn y dyfodol.

Mae hon, ein strategaeth ranbarthol gyntaf, yn rhoi cyfle i ni herio'r sefyllfa bresennol a nodwyd gan oroeswyr a rhanddeiliaid, ac ymgorffori diwylliant ble na fydd Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn cael ei oddef yn ein cymunedau, a ble gall pob unigolyn fyw heb drais a chamdriniaeth.

ATODIAD 1

DEALL YR IAITH A DDEFNYDDIR

1. **Diffiniad o gam-drin** (Cylch Gorchwyl Grŵp Strategol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod Canolbarth a Gorllewin Cymru).

Trais yn Erbyn Menywod

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio "Trais yn Erbyn Menywod" fel "math o wahaniaethu yn erbyn menywod ac ymyriad ar hawliau dynol, a bydd yn golygu pob gweithred o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at, neu sy'n debygol o arwain at niwed neu ddioddefaint corfforol, rhywiol neu feddyliol i fenywod, yn cynnwys bygwth gweithredoedd o'r fath, gorfodi neu golli rhyddid dan ormes, boed hynny yn gyhoeddus neu'n breifat."

Cam-drin Domestig

Yn ôl Deddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015, mae cam-drin domestig yn golygu 'cam-drin pan fo'r dioddefwr yn gysylltiedig â'r camdriniwr neu wedi bod yn gysylltiedig. Gall hynny gael ei gyflawni gan bartner agos, cyn-bartner, priod, partner sifil neu berthynas yn y teulu' (gellir cael diffiniad llawn o berthnasoedd agos a theuluol yn y Ddeddf).

Gall y gamdriniaeth fod yn cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Mae hyn yn gyffelyb i ddiffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin, sef 'unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o achosion o ymddygiad o reoli, gorfodi a bygwth, trais neu gam-drin rhwng rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd yn, neu wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau teulu beth bynnag fo'u rhywedd neu rywioldeb'.

Mae Deddf Troseddau Difrifol 2015 yn diffinio'n gyfreithiol bod y drosedd o ymddwyn yn orfodol a rheoli mewn perthnasoedd agos neu deuluol yn gam-drin domestig. 'Mae ymddygiad rheoli yn ystod o weithredoedd a ddyluniwyd i sicrhau bod person yn israddol a/neu'n ddibynnol drwy eu hynysu oddi wrth ffynonellau cymorth, ecsbloetio eu hadnoddau a'u gallu i gael enillion personol, eu hamddifadu o'r gallu sydd ei angen i gael annibyniaeth, i ymwrthod ac i ddianc, a rheoli eu hymddygiad dyddiol.

Mae ymddygiad gorfodol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, sarhau a chodi ofn a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu i ddychryn eu dioddefwyr'.

Treisio a thrais rhywiol

Trais rhywiol yw unrhyw fath o weithred neu weithgaredd rhywiol digroeso. Yn ôl Deddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015, mae trais rhywiol yn golygu camfanteisio'n rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygwth trais o natur rywiol. Mae'r ddeddf hefyd yn diffinio camfanteisio'n rywiol fel rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson sydd yn drosedd o dan Rhan 1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae hyn yn cynnwys y diffiniadau canlynol:

- Treisio yw pan fo person yn fwriadol yn treiddio gwain, anws neu geg person arall â'i bidyn pan nad yw'r person arall hwnnw yn cydsynio i'r treiddio, a/neu nad yw'n credu o fewn rheswm bod y person arall yn cydsynio.
- Ymosod drwy dreiddio yw treiddio gwain, anws neu geg person arall yn rhywiol ac yn fwriadol â rhan o gorff y person arall neu unrhyw beth arall, pan nad yw'r person arall hwnnw yn cydsynio i'r treiddio, a/neu nad yw'n credu o fewn rheswm bod y person arall yn cydsynio.
- Ymosodiad rhywiol yw pan fo person yn cyffwrdd yn fwriadol â pherson arall mewn modd rhywiol nad yw'r person arall yn cydsynio iddo, a/neu nad yw'n credu o fewn rheswm bod y person arall yn cydsynio.
- Troseddau rhyw yn ymwneud â phlant yn cynnwys treisio neu unrhyw weithgaredd rhywiol â phlentyn, troseddau rhyw yn ymwneud â phlentyn yn y teulu a chyfarfod â phlentyn ar ôl meithrin perthynas rywiol.

Aflonyddu rhywiol

Yn ôl Deddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015, mae aflonyddu yn golygu ymddygiad (yn cynnwys ar lafar) gan berson y mae ef neu hi yn gwybod, neu dylent wybod, sy'n aflonyddu ar y person arall. Yn achos digwyddiadau ar ôl 1 Hydref 2005 mae yna ddau fath o aflonyddu rhywiol - cyswllt digroeso ar sail eich rhyw ac ymddygiad corfforol, llafar neu ddi-eiriau digroeso o natur rywiol.

Trais ar Sail Rhywedd

Yn ôl Deddf Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod (Cymru) 2015, mae trais ar sail rhywedd yn golygu:

Trais, bygwth trais neu aflonyddu sy'n deillio'n uniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion mewn perthynas â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae hynny yn cynnwys 'Trais ar sail Anrhydedd' y gellir ei wahanu oddi wrth fathau eraill o drais, oherwydd caiff ei gyflawni gyda rhyw faint o gymeradwyaeth a/neu gydgynllwynio ymysg teulu a/neu aelodau'r gymuned. Gall enghreifftiau gynnwys llofruddiaeth, marwolaeth na ellir ei egluro (hunanladdiad), priodas dan orfod neu ofni hynny, gweithgaredd rhywiol sy'n rheoli, cam-drin domestig (yn cynnwys cam-drin seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol), cam-drin plant, treisio,

herwgipio, carcharu ar gam, bygwth lladd, ymosodiadau, aflonyddu, erthylu dan orfod. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn.

- Anffurfio organau cenhedlu menywod, sy'n weithred droseddol o dan adran 1, 2 neu 3 Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod 2003.
- Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, a elwir hefyd yn enwaedu benywaidd neu dorri organau cenhedlu menywod, fel "pob gweithred sy'n ymwneud â gwaredu organau cenhedlu allanol benywaidd yn rhannol neu'n llwyr, neu unrhyw anaf arall i organau cenhedlu benywaidd am resymau anfeddygol".
- Gorfodi person (boed hynny drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygwth neu ddulliau seicolegol eraill) i gymryd rhan mewn seremoni briodas grefyddol neu sifil (boed hynny yn gyfreithiol rhwymedig neu beidio). Yr enw cyffredin ar hynny yw Priodas dan Orfod. Gall y pwysau a roddir ar bobl i briodi yn erbyn eu hewyllys fod yn gorfforol (yn cynnwys bygythiadau, trais corfforol gwirioneddol a thrais rhywiol) neu'n emosiynol a seicolegol (er enghraifft, pan wneir i rywun deimlo eu bod yn dwyn gwarth ar y teulu). Gall cam-drin ariannol (cymryd eich cyflog neu beidio rhoi arian o gwbl i chi) fod yn ffactor hefyd.

2. Geirfa

Dioddefwr/Goroeswr: Y term a ddefnyddir i ddisgrifio person sydd o bosibl yn dioddef Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod. Gall termau eraill a gwmpasir gynnwys; 'defnyddiwr gwasanaeth' 'cleient' a 'chlaf' ac maent yn adlewyrchu'r termau a ddefnyddir gan wahanol sefydliadau i ddiffinio eu perthynas â'r person sy'n wynebu risg. Yn ymarferol, awgrymir bod y person yr effeithir arno gan y materion hyn yn cael dewis y term sydd orau ganddo, pan fo angen un.

Gwasanaeth Cyhoeddus: Gwasanaeth Cyhoeddus yw gwasanaethau a ddarperir er lles y cyhoedd, gyda chefnogaeth y llywodraeth, er mwyn gwasanaethu pobl mewn cymdeithas neu gymuned benodol. Gall hynny gynnwys gwasanaethau a ddarperir drwy'r trydydd sector, drwy fentrau cymdeithasol neu drwy wasanaethau a gontractir yn allanol.

Awdurdod Lleol: Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol

Awdurdodau perthnasol: cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau Tân ac Achub ac ymddiriedolaethau'r GIG

sector arbenigol Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol, Trais yn Erbyn Menywod: Sefydliadau trydydd sector y mae Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn fusnes craidd iddynt.

Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA): Gweithwyr arbenigol hyfforddedig sy'n darparu cymorth gwaith achos tymor byr i ganolig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel.

Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA): Gweithiwyr arbenigol hyfforddedig sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr/goroeswyr treisio neu ymosodiadau rhywiol.

BME/BAME – Ethnig Du a Lleiafrifol neu Ethnig Du, Asiaidd a Lleiafrifol yw'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio pobl o darddiad nad yw'n wyn.

Gofyn a Gweithredu: Proses o ymholi a dargedir ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod.

Gwella diogelwch: Mae gwella diogelwch yn ffordd o wneud eiddo yn fwy diogel ar gyfer y preswylydd a lleihau'r risg o ymosodiad, yn yr achos hwn gan gyflawnydd cam-drin domestig. (Dylai fod yn rhan o 'sbectrwm' o wasanaethau sydd ar gael er mwyn helpu diogelu dioddefwyr cam-drin domestig ynghyd â chymorth yn y gymuned, mynediad i ddarpariaeth lloches, cyfranogiad yr heddlu neu wasanaeth statudol arall a rhaglen ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig - Taflen Ffeithiau Cam-drin Domestig a Thai yng Nghymru (CIH Cymru 2013)

Gwasanaethau arbenigol fel y'i diffinnir yng Nghanllawiau Drafft Llywodraeth Cymru ar Gomisiynu Gwasanaethau VAWDASV Mawrth 2018[45]

Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau generig sy'n darparu cymorth neu ymyriadau i oroeswyr neu gyflawnwyr yn y sector cyhoeddus a/neu'r trydydd sector. Darperir y gwasanaethau hyn gan staff arbenigol sydd â gwybodaeth drylwyr o VAWDASV ac sydd â dealltwriaeth groestoriadol a rhyweddol o VAWDASV. Yng Nghymru, diffinnir gwasanaethau arbenigol VAWDASV Cymru fel sefydliadau y mae eu:

- gwasanaethau'n cael eu darparu'n annibynnol o'r wladwriaeth (h.y. trydydd sector) a'u busnes craidd yw cefnogi goroeswyr a/neu gyflawnwyr a/neu blant a phobl ifanc y mae unrhyw fath o VAWDASV wedi effeithio arnynt (h.y. treisio ac ymosodiad rhywiol gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol heb fod yn ddiweddar, cam-drin domestig, aflonyddu ar sail rhyw, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu menywod, camfanteisio'n rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern a'r hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd'); ac mae
- cyflawni'r gwasanaethau'n seiliedig ar anghenion ac yn ymatebol i rywedd gan gydnabod y continwwm o drais yn erbyn menywod a sicrhau bod gwaith ymyrryd ac atal yn cysylltu VAWDASV â phatrymau ehangach o rywedd ac anghydraddoldebau croestoriadol eraill, gan gynnwys ethnigrwydd, dosbarth, hunaniaeth o ran rhywedd, oedran, gallu, rhywioldeb, crefydd a chred; a chaiff dealltwriaeth a'r gwasanaeth a ddarperir eu llywio gan ddadansoddiad o VAWDASV fel rhywbeth sy'n seiliedig ar rywedd ac yn achos a chanlyniad i anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion, sy'n croestorri â ffactorau megis ethnigrwydd, oedran, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin a llwybrau i wella. Mae gwasanaethau arbenigol

[45] https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-03/180329-services-for-violence-consultation.pdf

VAWDASV yn cydnabod bod modd atal y mathau hyn o drais yn llwyr. Maent yn digwydd i fenywod a merched yn anghymesur oherwydd eu bod yn fenywod ac yn ferched fel ffordd o reoli cymdeithasol sy'n cynnal ac yn atgynhyrchu perthnasoedd pŵer anghyfartal ac yn creu rhwystr o ran sicrhau cydraddoldeb a hawliau dynol i fenywod a merched; ac mae

- gwasanaethau arbenigol yn wahanol i wasanaethau 'cymorth cyffredinol' o ran bod gan y sefydliadau/gwasanaethau fodel cyflawni gwasanaeth holistig sy'n ymatebol i rywedd a diwylliant, yn unol â fframweithiau safonau ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau o'r fath, a chânt eu cynnal gan y cymunedau maent yn eu gwasanaethu ac ar eu cyfer. Trwy wneud hyn, maent yn cynnig profiad grymusol unigryw yn enwedig i fenywod a phlant ac i gymunedau Ethnig Du a Lleiafrifol, gan fod y grŵp cleient yn cael ei adlewyrchu yn strwythurau staffio, rheoli a llywodraethu'r sefydliadau hyn.